Estyn



# Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd

Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu Saesneg dysgwyr

Mawrth 2021

estyn.llyw.cymru

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

**Mae Estyn hefyd:**

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

**Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:**

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at **cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru**

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: **www.estyn.llyw.cymru**

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.

# Cynnwys

**Rhagair** 8

**Crynodeb Gweithredol** 10

**Cyflwyniad** 20

**Cefndir** 22

**Prif ganfyddiadau** 26
Dysgu ac agweddau at ddysgu 27
Darpariaeth 28
Arweinyddiaeth 33

**Argymhellion** 35

**Dysgu ac agweddau at ddysgu** **38**

Safonau a chynnydd mewn iaith a llythrennedd 39

Agweddau at ddysgu 51

**Darpariaeth** **56**

Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu 57

Addysgu ac asesu: 65

- Datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr 66
- Datblygu medrau darllen dysgwyr 73
- Datblygu medrau ysgrifennu dysgwyr 79
- Datblygu geirfa dysgwyr 85

Meithrin diwylliant o ddarllen 91

Cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd 101

**Arweinyddiaeth** **113**

Datblygu darpariaeth a chodi safonau 114

Datblygu arbenigedd ac adeiladu capasiti 117

## Deunydd atodol

**Enghreifftiau o ddarpariaeth effeithiol ar gyfer iaith a llythrennedd** **122**

Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu 123

Addysgu ac asesu 136

Enghreifftiau o arfer effeithiol wrth feithrin diwylliant darllen 173

Enghreifftiau o arfer effeithiol o ran cefnogi dysgwyr a'u teuluoedd 184

**Cymorth dysgu proffesiynol** **199**

Meddwl am eich arfer eich hun wrth gynllunio ar gyfer dysgu 200

Meddwl am eich arfer eich hun o ran datblygu ysgrifennu dysgwyr 203

Meddwl am eich arfer eich hun wrth ddatblygu geirfa dysgwyr 206

Meddwl am eich arfer eich hun wrth feithrin diwylliant darllen 210

Meddwl am eich arfer eich hun o ran datblygu cymorth effeithiol i ddysgwyr a'u teuluoedd 212

**Ymchwil a thystiolaeth** **213**

Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu 214

Addysgu ac asesu 217

Meithrin diwylliant darllen 229

Cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd 231

**Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** 233

**Atodiad 2: Gwybodaeth gefndir am leoliadau ac ysgolion** 236

**Atodiad 3: Strategaethau darllen a deall** 241

**Atodiad 4: Mathau o gamgymeriadau sillafu** 245

**Geirfa** 249

**Cyfeiriadau** 261

# Rhagair

**Mae'r compendiwm hwn o adroddiadau thematig a deunyddiau ategol yn disgrifio arfer sy'n cefnogi datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr yn llwyddiannus yn iaith y lleoliad neu'r ysgol.**

Mae'r adroddiad **'Caffael yr iaith Gymraeg'** yn rhoi trosolwg o ba mor effeithiol y mae lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn addysgu a chefnogi caffael a datblygiad medrau Cymraeg dysgwyr rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae'r adroddiad **'Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd'** yn nodi pa mor effeithiol y mae lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru yn cefnogi ac yn addysgu iaith a llythrennedd Saesneg i ddysgwyr tair i un ar ddeg oed.

**Gobeithiwn y bydd yr adroddiadau hyn yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol mewn lleoliadau ac ysgolion ynglŷn â sut i wella addysgu iaith a llythrennedd, a chefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer y maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Llywodraeth Cymru, 2019).**

Maent yn annog ymarferwyr i ystyried ystod y profiadau dysgu y maent yn eu cynnig i ddysgwyr a sut maent yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau. Mae cydweithio o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion ar gynllunio'r cwricwlwm wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn aml daw â buddion sylweddol i athrawon a dysgwyr. Er enghraifft, mae athrawon cynradd yn aml yn rhannu arbenigedd a gwaith ar draws grwpiau blwyddyn a chyfnodau i gynllunio prosiectau penodol, datblygu'u meddwl neu roi cynnig ar ymagweddau newydd at addysgu iaith a llythrennedd ar draws yr ysgol.



Mae'r crynodeb hwn yn crynhoi themâu lefel uchel cyffredin a chanfyddiadau o'r adroddiadau, ac yn amlygu ffactorau pwysig sy'n dylanwadu ar ddysgu iaith mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, ac mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg. Rydym yn eich annog i ddarllen ac ystyried yr enghreifftiau o arfer effeithiol yn y ddau adroddiad. Mae'r ymagwedd hon yn gam cyntaf tuag at gynorthwyo arweinwyr ac ymarferwyr i ystyried dysgu ac addysgu iaith yng nghyd-destun datblygu'r *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru 2020b) a'n huchelgais cenedlaethol i alluogi pob dysgwr i ennill gwybodaeth a medrau yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol.

Er i'r gwaith maes ar gyfer yr adroddiadau gael ei wneud cyn i'r pandemig ddatblygu, gobeithiwn y bydd y negeseuon allweddol, cameos ac astudiaethau achos yn yr adroddiadau yn cynorthwyo ysgolion i wella eu haddysgu, ac i weithio mewn partneriaeth â theuluoedd a chymunedau, i sicrhau bod dysgwyr i gyd yn gwneud cynnydd cryf mewn iaith a llythrennedd.

# Crynodeb Gweithredol

## Dysgu ac agweddau at ddysgu

**Mewn lleoliadau a dosbarthiadau meithrin, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf ac yn datblygu'u medrau iaith a llythrennedd yn effeithiol.**

Wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol gynradd, mae'r rhan fwyaf yn parhau i wneud cynnydd cadarn neu well yn eu datblygiad iaith o'u mannau cychwyn gwahanol, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog yn datblygu'u medrau yn llwyddiannus ac mae ganddynt afael cadarn ar y Gymraeg erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw dysgwyr sy'n fwy abl yn cyflawni gystal ag y gallent. Yn gyffredinol, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw bechgyn yn cyflawni gystal â merched, ac nid yw dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn gwneud cynnydd digonol wrth ddatblygu'u medrau iaith a llythrennedd. Er gwaethaf gwelliannau mewn agweddau ar siarad, darllen ac ysgrifennu, mae safonau iaith a llythrennedd mewn ysgolion cynradd yn ddigon tebyg i'r rheini yr adroddom amdanynt bum mlynedd yn ôl.

Lle ceir safonau gwrando a siarad cryf, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn rhyngweithio yn dda gydag ymarferwyr a'i gilydd. Maent yn mewnoli, yn siarad ac yn cymhwyso iaith yn gynyddol hyderus i gyfathrebu'n effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw lleiafrif o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yn datblygu'u medrau gwrando a siarad yn ddigon da.



Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn cyflawni rhuglder a mynegiant addas yn eu darllen. Er bod llawer o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod gynyddol o strategaethau i ddatblygu'u dealltwriaeth wrth ddarllen yn annibynnol, nid ydynt bob amser yn datblygu ystod ddigon eang o fedrau darllen datblygedig. Mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg, nid yw mwyafrif o ddysgwyr yn trafod llyfrau a blodeugerddi a ysgrifennwyd yn Gymraeg yn wreiddiol yn ddigon hyderus. Yn gyffredinol, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mae mwynhad dysgwyr wrth ddarllen yn lleihau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

Yn yr ysgolion lle mae safonau gwrando, siarad a darllen yn gryf, mae dysgwyr yn defnyddio'r medrau hyn i ddylanwadu ar eu hysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Maent yn datblygu'r medrau hyn mewn gweithgareddau cyfoethog o ran llythrennedd ac yn eu cymhwyso yn yr holl feysydd dysgu. Mewn llawer o ysgolion, medrau ysgrifennu dysgwyr yw'r gwannaf o'r pedair medr iaith o hyd. Yn rhyw hanner yr ysgolion cynradd, mae medrau dysgu annibynnol dysgwyr, yn enwedig mewn ysgrifennu, yn parhau yn feysydd i'w datblygu.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, mae agweddau cadarnhaol gan ddysgwyr at ddatblygu medrau iaith a llythrennedd. Mae dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mewn ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog yn gwerthfawrogi manteision bod yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg.



**Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn cyflawni rhuglder a mynegiant addas yn eu darllen.**

## Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu

**Mae llawer o ymarferwyr yn modelu iaith yn dda i gefnogi datblygu lleferydd a chyfathrebu dysgwyr yn llwyddiannus.**

Mae lleoliadau ac ysgolion yn aml yn creu amgylcheddau dysgu sy'n gyfoethog o ran iaith a llythrennedd. Mae medrau iaith a llythrennedd dysgwyr yn cael eu datblygu orau yn aml yn yr ysgolion a'r lleoliadau hynny sy'n mabwysiadu ymagwedd thematig integredig neu ymagwedd a ystyriwyd yn ofalus. Wrth baratoi ar gyfer *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b), mae llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio ystod eang o gyd-destunau go iawn a dychmygus i ddatblygu neu ehangu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Lle mae addysgu iaith yn llwyddiannus iawn, mae athrawon yn cynllunio'n benodol ar gyfer gwybodaeth dysgwyr am eirfa, fel agwedd nodedig ar ddysgu iaith.

**Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw cynllunio ar gyfer dysgu wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Er enghraifft, mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg, ni chaiff hyn ei lywio'n ddigon da gan dystiolaeth ac ymchwil. Mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, nid yw cynllunio yn cefnogi dysgwyr yn ddigon da wrth iddynt symud rhwng dosbarthiadau a chyfnodau.**

Lle ceir diffygion mewn addysgu iaith mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, nid yw staff yn adnabod pwysigrwydd dysgwyr yn datblygu'u gwybodaeth am eirfa wrth gynllunio ar gyfer dysgu, nac yn darparu cyfleoedd penodol iddynt wneud hynny. Mae hyn yn cyfyngu'r cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud, fel gwella ansawdd eu hysgrifennu mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a datblygu'u dealltwriaeth darllen mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

## Addysgu ac asesu

**Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn sicrhau bod dealltwriaeth briodol gan ddysgwyr o'r hyn y byddant yn ei ddysgu yn eu gwersi iaith. Mae llawer o ysgolion yn darparu adborth clir, defnyddiol i gefnogi dysgwyr i wella'u gwaith iaith a llythrennedd.**

Mae llawer o ymarferwyr yn fodelau iaith cryf sy'n trochi dysgwyr yn llafar ac ysgrifenedig. Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, mae ymarferwyr yn cefnogi dysgwyr yn llwyddiannus i fod yn ddysgwyr dwyieithog hyderus a hyfedr.

Mewn ychydig o leoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw athrawon yn holi dysgwyr yn ddigon gofalus i sgaffaldu a hyrwyddo'u medrau iaith a llythrennedd gystal ag y gallent.

Mewn ychydig o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, nid yw ymarferwyr bob amser yn deall sut mae arferion trochi yn cefnogi dysgwyr i gaffael iaith. Mewn lleiafrif o ddarparwyr, nid yw ymarferwyr yn darparu digon o her i ddysgwyr â lefel uchel o Gymraeg.





## Gwrando a siarad

**Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen.**

Lle bo'n briodol, mae ymarferwyr yn cynorthwyo dealltwriaeth gynnar dysgwyr o iaith trwy fodelu a dangos ystumiau neu symudiadau sy'n cyfleu ystyr geiriau.

- Mae llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd allgyrsiol buddiol, gan gynnwys yn y gymuned leol, i ddysgwyr ddatblygu'u medrau iaith.
- Mae'r ysgolion cynradd mwyaf effeithiol yn defnyddio cyd-destunau cyfoethog ac amrywiol, fel cyfranogi yn yr Urdd, i addysgu dysgwyr sut i wrando a siarad yn benodol.
- Mae darpariaeth fel arfer yn llai effeithiol pan fydd gwrando a siarad yn cael eu hystyried yn fedrau sy'n cefnogi dysgu ac ysgrifennu, yn hytrach nag fel medrau i'w datblygu ynddynt eu hunain.

## Darllen

**Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio'n briodol ar gyfer dilyniant mewn datblygiad darllen dysgwyr ac maent yn addysgu darllen yn ddyddiol.**

- Ceir ffocws cryf yn aml ar ddatblygu medrau cyn-ddarllen dysgwyr mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir a dosbarthiadau meithrin, er enghraifft trwy ganeuon, rhigymau a cherddoriaeth.

- Mae meithrin hoffter am ddarllen a llenyddiaeth yn flaenoriaeth mewn ysgolion sy'n datblygu iaith a llythrennedd dysgwyr yn effeithiol. Maent yn datblygu strategaethau ysgol gyfan ar gyfer hyrwyddo darllen er pleser: darllen i ddysgwyr, darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddarllen ar goedd, rhannu nofelau cyflawn gyda dysgwyr, a darparu amser ar gyfer darllen annibynnol yn ddyddiol. Mae eu hathrawon yn eiriolwyr dros ddarllen.

- Mae llawer o ymarferwyr mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau trawsieithu dysgwyr yn effeithiol i gefnogi'u darllen ar draws y cwricwlwm.

- Yn y darparwyr hynny lle nad yw dysgwyr yn datblygu'u medrau darllen yn ddigon da, mae hynny'n aml oherwydd bod ymarferwyr yn cadw'n rhy haearnaidd at gynllun darllen sy'n llesteirio mwynhad dysgwyr, neu nid oes strategaeth ysgol gyfan i wella medrau datgodio, adeiladu gwybodaeth am eirfa, na datblygu ymatebion dysgwyr i'r hyn y maent yn ei ddarllen.

- Mewn ychydig o ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw staff yn rhoi digon o ystyriaeth i gamau datblygiadol dysgwyr ac maent yn cyflwyno addysgu ffoneg yn rhy gynnar. Nid ydynt yn annog dysgwyr difreintiedig a'u teuluoedd i fwynhau darllen yn ddigon da.

- Mae diffygion mewn cefnogi darllen dysgwyr yn cynnwys diffyg cyfleoedd i oedolion feithrin arferion modelu darllen yng nghyfnod allweddol 2, gan gynnwys llenyddiaeth Gymraeg mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.



## Ysgrifennu

**Mae llawer o ysgolion cynradd wedi gwella addysgu ysgrifennu drwy ymagweddau cyson at ddatblygu medrau a mwy o ffocws ar ddeall diben a chynulleidfa.**

- Lle caiff ysgrifennu ei addysgu orau, mae dysgwyr yn deall confensiynau ffurf a genre, ac ysgrifennu fel proses. Yn gynyddol, wrth iddynt ystyried y cwricwlwm newydd, mae athrawon yn darparu rheswm go iawn i ddysgwyr ysgrifennu a chynulleidfa i ysgrifennu ar ei chyfer.
- Mewn ychydig o ysgolion, mae diffygion yn y cynllunio a'r defnydd anghyson o strategaethau addysgu a dysgu yn rhwystro datblygiad ysgrifennu dysgwyr, er enghraifft, mewn cystrawen, atalnodi a sillafu.
- Mewn ychydig o ysgolion, mae'r disgwyliad i ddysgwyr, gan gynnwys y rhai mwy abl, i ysgrifennu'n dda mewn ffurfiau gwahanol a heriol, yn rhy isel.
- Yn rhy aml, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr ysgrifennu'n rhydd gan ddefnyddio'r ystod o fedrau ysgrifennu sydd ganddynt yn barod. Yn gyffredinol, mae ansawdd cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig, a'r disgwyliad i ddysgwyr wirio, cywiro ac ailddrafftio'u gwaith, yn parhau'n llawer rhy amrywiol o hyd.

## Cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd

**Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, mae gweithio cadarn mewn partneriaeth yn helpu llawer o ddysgwyr i wneud cynnydd da yn eu medrau iaith a llythrennedd.**

Fel arfer, mae'r berthynas â rhieni a gofalwyr yn gadarnhaol. Mae cymorth llawer o ysgolion ar gyfer dysgwyr ag anghenion iaith, llythrennedd a chyfathrebu penodol yn cael ei gynllunio'n ofalus a'i gyflwyno'n gyson, fel bod dysgwyr yn elwa yn briodol.

Serch hynny, nid yw ychydig o ysgolion bob amser yn cynllunio ac yn adolygu rhaglenni cymorth iaith ar gyfer dysgwyr â medrau iaith gwan neu anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon gofalus.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i gael cymorth neu arweiniad i wella medrau iaith dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig. Mewn ychydig iawn o leoliadau ac ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardaloedd sydd dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf, mae'r cymorth ac arweiniad ar gyfer datblygiad iaith a llythrennedd dysgwyr yn rhagorol. Eto, dim ond lleiafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n canolbwyntio'n ddigon da ar yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad iaith plant. Er gwaetha'r cyllid sydd wedi bod ar gael i fynd i'r afael â hyn, mewn mwyafrif o ysgolion, mae tlodi ac anfantais yn parhau'n rhwystrau i ddysgwyr rhag datblygu medrau iaith a llythrennedd sicr.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae ymarferwyr arbenigol mewn canolfannau trochi iaith yn cefnogi hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus drwy rannu dulliau trochi ac adnoddau perthnasol. Yn yr arfer orau, mae arweinwyr yn gweithio gyda mentrau iaith Gymraeg lleol a sefydliadau cenedlaethol eraill i annog a darparu cyfleoedd i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith. Mewn lleiafrif o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau bob amser bod dysgwyr mwy abl a'r rheini o gartrefi Cymraeg eu hiaith yn gwneud cynnydd digonol yn eu defnydd o'r Gymraeg.

## Arweinyddiaeth

**Mewn lleoliadau ac ysgolion lle mae safonau iaith a llythrennedd yn gryf, mae arweinwyr yn sefydlu gweledigaeth glir ac ymagwedd strategol at ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol.**

Mae strwythurau arwain priodol ar waith gan y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion i gefnogi cydlynu a datblygu'u darpariaeth ar gyfer iaith a llythrennedd. Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cryf o gydweithio lle mae gan yr holl ymarferwyr fynediad at wybodaeth gyfunol yr ysgol am strategaethau addysgu a dysgu effeithiol i ddiwallu anghenion iaith ac ieithyddol dysgwyr unigol, ac yn gallu elwa arni. Yn yr arfer orau, mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn hyderus yn eu strategaethau addysgu, fel y fethodoleg drochi o gaffael iaith mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr yn datblygu prosesau cadarn ar gyfer adolygu effaith addysgu a phrofiadau dysgu ar gynnydd dysgwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio gweithgareddau monitro a gwerthuso yn bwrpasol i ymateb i agweddau ar addysgu iaith sy'n benodol i bwnc. Mae arweinwyr yn buddsoddi ym medrau a galluoedd eu staff trwy ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n datblygu dealltwriaeth ymarferwyr yn llwyddiannus o'r ffordd orau i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Mewn ysgolion gwannach, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod staff yn cael cefnogaeth ddigon da i fod yn fodelau iaith da i ddysgwyr.

Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn darparu cymorth priodol i leoliadau ac ysgolion i feithrin eu gallu a'u harbenigedd mewn iaith a llythrennedd. Lle ceir diffygion, mae'r hyfforddiant a'r cymorth yn generig yn aml, ac nid ydynt bob amser wedi'u personoli digon nac wedi'u cydweddu ag anghenion ysgolion unigol.



# Cyflwyniad

**Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Addysg at Estyn ar gyfer 2019-2020. Mae'r adroddiad yn nodi pa mor effeithiol y mae lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru yn cefnogi ac yn addysgu iaith a llythrennedd Saesneg i ddysgwyr tair i un ar ddeg oed. Nid yw'r adroddiad yn ystyried datblygiad iaith a llythrennedd dysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn benodol.**

Bydd yr adroddiad o ddiddordeb i athrawon a phenaethiaid, ymarferwyr ac arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir, a swyddogion mewn awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, a Llywodraeth Cymru. Bydd o ddiddordeb hefyd i'r rhai sy'n gweithio mewn addysg gychwynnol i athrawon. Bydd canfyddiadau'r adroddiad yn helpu lleoliadau ac ysgolion i gynllunio ar gyfer y maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae'r adroddiad yn darparu disgrifiadau byr o arfer effeithiol i ddangos sut mae darparwyr yn datblygu medrau a gwybodaeth dysgwyr wrth wrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Rydym yn ymhelaethu ar yr enghreifftiau hyn o arfer lwyddiannus mewn astudiaethau achos a gyhoeddwyd i gydfynd â'r adroddiad hwn. Mae'r deunyddiau ategol hyn yn cynnwys awgrymiadau i gefnogi gweithgareddau dysgu proffesiynol hefyd.

**Bydd yr adroddiad o ddiddordeb i athrawon a phenaethiaid, ymarferwyr ac arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir, a swyddogion mewn awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, a Llywodraeth Cymru.**



At ddiben yr adroddiad hwn, diffinnir **caffael iaith** fel y dysgu sydd ymhlyg wrth ddod i gysylltiad ag iaith mewn cyd-destun. Yn gyffredinol, rydym yn caffael ein hiaith gyntaf drwy ryngweithio cymdeithasol, heb fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei ddysgu. Drwy gael ein hamlygu, rydym yn dod yn gyfarwydd â strwythurau ac elfennau iaith, fel gramadeg, rhannau ymadrodd a geirfa. Mae **dysgu iaith** yn cyfeirio at y dysgu ac addysgu penodol a bwriadol sy'n digwydd i ddatblygu medrau iaith gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae cyswllt agos rhwng llythrennedd ac iaith. Yng Nghymru, mae **llythrennedd** yn cyfeirio at y medrau sy'n ein galluogi i ddeall iaith ysgrifenedig ac iaith lafar, i ddehongli beth sydd wedi'i ysgrifennu neu'u ddweud, a llunio casgliadau o dystiolaeth. Hefyd, mae llythrennedd yn cyfeirio at y gallu i gyfathrebu'n rhugl, yn gymhellol ac yn ddarbwyllol. Yn *Cwricwlwm i Gymru*, bydd datblygu llythrennedd dysgwyr yn parhau'n gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd i bob athro (Llywodraeth Cymru, 2020b).

# Cefndir

**Yn 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017-21', dywed y Gweinidog Addysg, 'Cenhadaeth ein cenedl yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol' (Llywodraeth Cymru, 2017, tud.3).**

Cyflawnir hyn drwy gyflwyno'r cwricwlwm gweddnewidiol newydd, gyda nod cenedlaethol y bydd dysgwyr yng Nghymru yn meddu ar fedrau llythrennedd 'lefel uchel perthnasol, yn cael eu datblygu drwy broffesiwn addysgu sy'n ymgymryd â gwaith ymchwil, yn hyddysg ac yn dysgu o ragoriaeth 'ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol' (Llywodraeth Cymru, 2017, tud.11). Yn y diweddariad i 'Cenhadaeth ein cenedl', mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r modd y bydd diwygiadau parhaus i addysg a'r cwricwlwm newydd, gyda'i gilydd, yn cefnogi pobl ifanc i ddatblygu safonau uwch o lythrennedd (Llywodraeth Cymru, 2020a, tud.15).

Mae *Canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b) ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn amlinellu sut mae'r maes dysgu a phrofiad yn cefnogi pedwar diben y cwricwlwm. Fel ei brif nod, mae'n amlygu cefnogi dysgu ar draws yr holl gwricwlwm a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a medrau yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol, yn ogystal â llenyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2020b, tud.126).

Mae plant yng Nghymru yn mynd i mewn i ddosbarthiadau meithrin[1] neu dderbyn gyda phrofiadau iaith a geirfaoedd gwahanol iawn, gan ddibynnu ar yr amgylcheddau dysgu yn y cartref ac mewn lleoliadau gofal plant. Mae'r berthynas rhwng gwrando a datblygu lleferydd yn hanfodol ym mlynyddoedd cynnar bywyd plentyn. Mae gwrando yn fedr dderbyn sy'n datblygu gyntaf. Nododd astudiaeth bwysig Hart a Risley (1995) 'wahaniaethau nodedig' ym

[1] Trwy gydol yr adroddiad, mae 'dosbarth meithrin' yn cyfeirio at ddisgyblion oedran meithrin mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir.

mhrofiadau geirfa Saesneg cynnar plant ifanc[2]. Erbyn 3 oed, roedd plant o deuluoedd cefnog, ar gyfartaledd, yn gwybod 600 yn fwy o eiriau na phlant o gefndiroedd difreintiedig (Hart a Risley, 2003). Hefyd, roeddent yn gwybod nifer fwy o ystyron geiriau a mwy am ystyr pob gair. Erbyn 10 neu 11 oed, roedd y bwlch hwn wedi cynyddu i gyfartaledd o ryw 4,000 o eiriau (Biemiller a Slonim, 2001).

Lle mae iaith plant yn y cartref a'r ysgol yr un peth, mae ymchwil yn dangos bod eu gallu o ran iaith yn aros ar yr un lefel uchel neu isel hefyd pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Mae'r dystiolaeth o astudiaethau hydredol yn awgrymu bod plant sy'n dechrau'r ysgol gyda geirfa a medrau gramadegol llafar cryfach, a ddatblygwyd yn eu hamgylchedd cartref neu mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, yn gwneud yn well wrth ddysgu i ddarllen yn llwyddiannus (Muter *et al.*, 2004).

Mae natur darllen wedi datblygu'n arwyddocaol dros y degawd diwethaf gyda dylanwad cynyddol a datblygiad cyflym technoleg. Mae dysgwyr yn cael gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau wrth ddefnyddio chwilotwyr digidol. Mae angen iddynt allu adnabod pa rai o'r rhain sy'n gywir, yn wir ac yn berthnasol, a pha rai sydd ddim. Mae llythrennedd darllen yn mynnu defnyddio dadansoddi, cyfosod, integreiddio a dehongli gwybodaeth berthnasol o ffynonellau niferus (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), 2019a, tud.32). Dangosodd profion y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn 2018 fod sgôr darllen cyffredinol dysgwyr wedi gwella, ac am y tro cyntaf roedd gerllaw cyfartaledd yr OECD. Er y gwelliant hwn, mae dysgwyr yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn berfformio'n well na dysgwyr yng Nghymru (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2019b).



[2] Mae'r ymchwil hon yn cyfeirio at blant sydd yn siarad un iaith yn unig o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol.

Mae adroddiad diweddaraf yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol (Clark a Teravainen-Goff, 2019) yn cynnwys y neges ofidus bod lefelau mwynhad darllen plant a phobl ifanc, yn enwedig o ran bechgyn a'r rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar eu hisaf ers 2013. Mae tystiolaeth ddiweddar yn cwestiynu p'un a yw sgrolio ar ddyfeisiau electronig yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad darllen dysgwyr, a'u darllen er mwynhad (er enghraifft, Munzer *et al.*, 2019; Quigley, 2020).

Yn aml, mae gwrando'n parhau i gael ei ddiystyru wrth addysgu iaith, er bod corff cynyddol o ymchwil sy'n dangos y gellir addysgu a gwella medrau gwrando (O'Malley, Chamot a Küpper, 1989; Rhydychen, 1990; Rubin a Thompson, 1994). Yn yr un modd, mae ysgrifennu wedi denu llai o sylw gan ymchwilwyr na siarad a darllen. Mae'r Cydffederasiwn Diwydiant Busnes yn cyfeirio at gyfathrebu a llythrennedd yn ei ddiffiniad o fedrau cyflogadwyedd. Mae hyn yn cynnwys y gallu i 'gymhwyso llythrennedd' a'r 'gallu i gynhyrchu 'gwaith ysgrifenedig clir, strwythuredig a llythrennedd llafar, gan gynnwys gwrando a holi' (Y Cydffederasiwn Diwydiant Busnes, 2011, tud.23). Gwyddwn fod cyflogwyr eisiau recriwtio pobl ifanc sy'n gwrando'n effeithiol, sy'n gyfathrebwyr medrus (o ran iaith lafar ac wrth ysgrifennu), ac sy'n gweithio'n dda gyda rhai eraill i drafod syniadau cymhleth a datrys problemau yn greadigol. Mae datblygu iaith a llythrennedd yn llwyddiannus, y mae cymaint o fedrau eraill yn dibynnu arnynt, yn hanfodol i bobl ifanc er mwyn trosglwyddo'n effeithiol i fywyd gwaith.

Mae ymchwil yn nodi bod anawsterau iaith yn fwy cyffredin mewn cymunedau sydd dan anfantais gymdeithasol, ac wrth i'r lefel anfantais gynyddu, felly hefyd y mae nifer y plant sy'n cael yr anawsterau hynny'n cynyddu (Basit *et al.*, 2015; Law, McBean a Rush, 2011; Locke, Ginsborg a Peers, 2002). Mae astudiaethau diweddar yn awgrymu y gallai cyfradd cynnydd datblygiad iaith gynnar plentyn, a difrifoldeb a pharhad eu hanawsterau iaith, fod yn arwydd o'u deilliannau academaidd tymor hwy (Määttä *et al.*, 2016; Snowling *et al.*, 2015; Zambrana *et al.*, 2014). Mae'n bwysig nodi bod yna blant yn y grwpiau dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf nad ydynt yn cael anawsterau iaith a bod rhai yn y grwpiau mwyaf breintiedig yn gymdeithasol sy'n cael anawsterau iaith.

Er bod cyrhaeddiad dysgwyr wedi codi'n gyffredinol yng Nghymru cyn y pandemig COVID-19, cynnydd cyfyngedig fu o ran lleihau'r bwlch ar gyfer dysgwyr difreintiedig ac o ran cynnig digon o her i ddysgwyr mwy abl. Nododd Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant 2018-2019, mewn ysgolion cynradd, er gwaethaf gwelliannau mewn agweddau ar fedrau llythrennedd yn y tair blynedd flaenorol, bod safonau llythrennedd, yn gyffredinol, wedi parhau'n ddigon tebyg (Estyn, 2019, tud.14). Adroddom am safonau tebyg mewn ysgolion cynradd yn 2019-2020 (Estyn, 2020a, p.15).



Yn Ebrill 2020, cyhoeddodd y Cenhedloedd Unedig adroddiad yn nodi effeithiau'r pandemig ar blant ledled y byd, gan gynnwys plant a phobl ifanc yn colli dysgu, oherwydd bod ysgolion wedi'u cau yn genedlaethol (Y Cenhedloedd Unedig, 2020). Mae'r risgiau i ddatblygiad dysgwyr o ran medrau mor bwysig ag iaith a llythrennedd yn ddigynsail. Er gwaetha'r mesurau a gymerodd lleoliadau ac ysgolion yng Nghymru i gynorthwyo dysgwyr i ymgysylltu â dysgu iaith a llythrennedd yn ystod yr argyfwng, bydd gan lawer o ddysgwyr fylchau yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae'r tarfu hwn wedi cynyddu'r risg y bydd dysgwyr difreintiedig a dysgwyr sy'n agored i niwed yn syrthio ymhellach fyth y tu ôl i'w cyfoedion. Yn ogystal, mae llawer o blant ifanc wedi colli allan ar gyfleoedd dysgu pwysig mewn addysg feithrin i ddatblygu'u medrau iaith cynnar.

O ganlyniad, mae lleihau effaith anfantais ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr mewn iaith a llythrennedd, a sicrhau bod addysgu llythrennedd yn bodloni anghenion dysgwyr mwy abl, yn parhau yn flaenoriaethau i'r holl leoliadau nas cynhelir, ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd yng Nghymru. Yn ogystal, mae mynd i'r afael â bylchau mewn dysgu, o ganlyniad i'r pandemig, yn creu her sylweddol hefyd.

# Prif ganfyddiadau

# Dysgu ac agweddau at ddysgu

1 Mewn lleoliadau, mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn ac yn datblygu’u medrau iaith a llythrennedd yn effeithiol.

2 Er gwaethaf gwelliannau mewn agweddau ar siarad, darllen ac ysgrifennu, mae safonau iaith a llythrennedd mewn ysgolion cynradd yn ddigon tebyg i’r rheini yr adroddom amdanynt bum mlynedd yn ôl. Yn gyffredinol, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cadarn neu well yn eu datblygiad iaith. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a dysgwyr sy’n fwy abl yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu’u medrau iaith a llythrennedd. Ar y cyfan, nid yw bechgyn yn cyflawni gystal â merched.

3 Mewn ysgolion lle mae safonau gwrando, siarad a darllen yn gryf, mae dysgwyr yn defnyddio’r medrau hyn yn dda i ddylanwadu ar eu hysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Safonau ysgrifennu dysgwyr mewn llawer o ysgolion cynradd yw’r gwannaf o’r pedair medr iaith o hyd.

4 Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion cynradd, mae agweddau cadarnhaol gan ddysgwyr at ddatblygu medrau iaith a llythrennedd. Fodd bynnag, mae mwynhad dysgwyr wrth ddarllen yn dirywio yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Mae hyn yn fwy amlwg ymhlith bechgyn a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

5 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw dysgwyr yn cael digon o gyfleoedd ac nid oes ganddynt ddigon o reolaeth dros sut neu beth maent yn ei ddysgu yn eu gwersi iaith a llythrennedd. Mewn rhyw hanner o ysgolion cynradd, mae medrau dysgu annibynnol dysgwyr, fel y gallu i drosglwyddo dysgu blaenorol i gyd-destunau newydd, ac i ddefnyddio strategaethau i gefnogi’u datblygiad eu hunain wrth ddarllen a sillafu, yn parhau yn feysydd i’w datblygu.



# Darpariaeth

6 Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, mae ymarferwyr yn cefnogi lleferydd a chyfathrebu plant yn dda trwy fodelu iaith yn effeithiol. Maent yn darparu ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol sydd yn amgylcheddau dysgu iaith a llythrennedd cyfoethog sy'n trochi dysgwyr yn y gair llafar ac ysgrifenedig.

7 Mae'r prosesau cynllunio datblygedig mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, law yn llaw â defnyddio adnoddau'n ddoeth yn sicrhau bod cysyniadau a medrau iaith yn adeiladu'n gynyddol i gefnogi datblygu iaith a llythrennedd Saesneg dysgwyr yn llwyddiannus. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn ystyried a yw eu cynllunio a'u hymagweddau at ddysgu, er enghraifft, ar gyfer gwella medrau iaith a llythrennedd bechgyn, yn cael eu llywio'n ddigon da gan dystiolaeth ac ymchwil i arfer effeithiol.

8 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn mabwysiadu ymagwedd integredig sy'n seiliedig ar destun neu bwnc fel arfer, at gynllunio gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu i helpu dysgwyr gaffael a datblygu iaith. Yn yr arfer orau, mae cynllunio gofalus yn sicrhau bod datblygu un medr yn ategu datblygu medr arall. Wrth ymateb i ddatblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru, mae llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio ystod eang o gyd-destunau difyr go iawn a llawn dychymyg i ddatblygu neu ehangu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Maent yn dylunio cyfleoedd pwrpasol i ddysgwyr gymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm.

9 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn sicrhau bod dealltwriaeth briodol gan ddysgwyr o'r hyn y byddant yn ei ddysgu yn eu gwersi iaith. Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn defnyddio adborth llafar ac ysgrifenedig yn dda i sicrhau bod dysgwyr yn deall eu cryfderau a sut i wella eu galluoedd iaith. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw athrawon yn holi dysgwyr yn ddigon gofalus i sgaffaldu a datblygu'u medrau iaith a llythrennedd gystal ag y gallent.



10 Mae’r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen, o fannau cychwyn isel yn aml. Maent yn defnyddio profiadau perthnasol i ysgogi chwarae rôl dysgwyr a’u hannog i siarad a chyfranogi mewn sgwrs. Yn aml, lle ceir darpariaeth ragorol, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd helaeth o’r gymuned leol i ehangu profiadau dysgwyr a’u cynorthwyo wrth ddysgu iaith.

11 Mae’r ysgolion cynradd mwyaf effeithiol yn defnyddio cyd-destunau cyfoethog ac amrywiol i addysgu dysgwyr sut i siarad a gwrando, yn benodol. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn cynllunio profiadau dysgu perthnasol sy’n helpu dysgwyr i feddwl yn ofalus ac yn bwyllog ynglŷn â’r mathau o iaith y maent yn eu clywed a’u defnyddio, gan gynnwys wrth siarad yn gyhoeddus neu’n perfformio. Mewn ysgolion llai effeithiol, mae gwrando a siarad yn cael eu hystyried yn fedrau sy’n cefnogi darllen ac ysgrifennu, yn hytrach nag fel medrau i’w datblygu ar eu pennau’u hunain. Yn yr ysgolion hyn, nid yw athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd heriol a buddiol priodol i adeiladu ar fedrau gwrando a siarad dysgwyr, a’u hymestyn, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

12 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir a dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu medrau cyn-darllen plant, er enghraifft, trwy ganeuon, rhigymau a cherddoriaeth. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw staff yn rhoi digon o ystyriaeth i gamau datblygiadol dysgwyr ac maent yn cyflwyno addysgu ffoneg yn rhy gynnar. O ganlyniad, mae dysgwyr nad yw eu medrau iaith a chyfathrebu wedi'u datblygu'n ddigonol yn cael trafferth gwneud y cyswllt rhwng llythrennau a seiniau.

13 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn cynllunio'n briodol ar gyfer dilyniant mewn datblygiad darllen dysgwyr. Mae ysgolion sy'n datblygu darllen yn effeithiol yn ei addysgu'n ddyddiol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio adnoddau addas yn llwyddiannus i gefnogi'u haddysgu, mewn ffoneg er enghraifft. Lle nad yw dysgwyr yn gwella'u medrau darllen yn ddigon da, y rheswm am hyn yn aml yw nad oes strategaeth ysgol gyfan i wella medrau datgodio dysgwyr, i adeiladu eu gwybodaeth am eirfa, nac i ddatblygu'u ymatebion i'r hyn maent yn ei ddarllen.

14 Mae meithrin hoffter am ddarllen a llenyddiaeth yn flaenoriaeth mewn ysgolion sy'n datblygu iaith a llythrennedd dysgwyr yn effeithiol. Maent yn datblygu strategaethau ysgol gyfan llwyddiannus ar gyfer hyrwyddo darllen er pleser: darllen i ddysgwyr, darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddarllen yn uchel, rhannu nofelau cyflawn gyda dysgwyr, a darparu amser ar gyfer darllen annibynnol yn ddyddiol. Mae eu hathrawon yn eiriolwyr dros ddarllen.

**Mae meithrin hoffter am ddarllen a llenyddiaeth yn flaenoriaeth mewn ysgolion sy'n datblygu iaith a llythrennedd dysgwyr yn effeithiol.**

15 Mewn lleiafrif o ysgolion, cyfle cyfyngedig sydd ar gael i ddysgwyr wrando ar oedolion wrth iddynt fodelu arferion darllen effeithiol yng nghyfnod allweddol 2, neu i ymgysylltu â llyfrau ffuglen a ffeithiol mwy heriol. Yn gyffredinol, nid oes digon o athrawon yn darllen llenyddiaeth newydd i blant eu hunain. Nid yw ychydig o ysgolion yn archwilio ystod ddigon eang o strategaethau i gefnogi dysgwyr difreintiedig a'u teuluoedd i gael cyfleoedd darllen ac i annog mwynhad o ddysgu.

16 Mae llawer o ysgolion cynradd wedi gwella agweddau addysgu ar ysgrifennu drwy roi mwy o ffocws ar ddealltwriaeth dysgwyr o ddiben a chynulleidfa, ac ymagweddau cyson at ddatblygu'u medrau. Mae'r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn cynnig cyfleoedd cyffrous a pherthnasol i ysgrifennu, yn darparu adborth effeithiol i arwain datblygiad pellach, ac yn addysgu'r medrau craidd sillafu ac adeiladu brawddegau yn benodol.

17 Mae'r addysgu gorau yn galluogi dysgwyr i ddeall confensiynau ffurf a genre, ac ysgrifennu fel proses. Mewn ychydig o ysgolion, mae disgwyliadau athrawon o ysgrifennu dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl, yn rhy isel. Nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr ysgrifennu'n rhydd gan ddefnyddio'r ystod o fedrau ysgrifennu sydd ganddynt yn barod, ac mae hyn yn arafu'u cynnydd. Yn gyffredinol, mae ansawdd cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig a'r disgwyliad i ddysgwyr wirio, cywiro ac ailddrafftio'u gwaith yn parhau yn rhy amrywiol.

18 Mewn ychydig iawn o ysgolion, lle mae addysgu iaith yn llwyddiannus iawn, mae athrawon yn cynllunio'n benodol ar gyfer gwybodaeth dysgwyr am eirfa, fel agwedd benodol ar ddysgu iaith. Maent yn ystyried beth yw'r ffordd orau o integreiddio dewis geiriau priodol yn ofalus i addysgu a dysgu mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws y cwricwlwm. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oes dealltwriaeth ddigon sicr gan staff o bwysigrwydd addysgu gwybodaeth am eirfa i ddysgwyr a'r effaith a gaiff hyn ar eu cynnydd, yn enwedig mewn darllen.

**19** Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau addas yn briodol i gynllunio cymorth ychwanegol neu arbenigol ar gyfer unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ymyriadau yn dda i gynorthwyo dysgwyr o bob oed i wneud cynnydd da. Nid yw ychydig o ysgolion bob amser yn cynllunio ac yn adolygu rhaglenni cymorth yn ddigon gofalus. O ganlyniad, nid yw dysgwyr â medrau iaith gwan neu anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud gymaint o gynnydd ag y gallent wneud.

**20** Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, mae gweithio cadarn mewn partneriaeth yn helpu llawer o ddysgwyr i wneud cynnydd da yn eu medrau iaith a llythrennedd. Fel arfer, mae'r berthynas â rhieni a gofalwyr yn gadarnhaol, ac mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i gael cymorth neu arweiniad i wella medrau iaith dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig.

**21** Mewn ychydig iawn o leoliadau ac ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardaloedd sydd dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf, mae'r cymorth ac arweiniad ar gyfer datblygiad iaith a llythrennedd dysgwyr yn rhagorol. Mae'r ymgysylltiad cadarnhaol rhwng ysgolion, teuluoedd a chymunedau yn elfen allweddol o'r rhagoriaeth hon yn aml. Ar hyn o bryd, dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n canolbwyntio'n ddigon da ar fynd i'r afael â'r ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad iaith plant, fel rhieni, y cartref ac amgylchedd y gymuned. Er gwaetha'r cyllid sydd wedi bod ar gael i fynd i'r afael â hyn, mewn mwyafrif o ysgolion, mae tlodi ac anfantais yn parhau'n rhwystrau i ddysgwyr rhag datblygu medrau iaith a llythrennedd sicr.

# Arweinyddiaeth

22 Mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd lle mae safonau iaith a llythrennedd yn uchel ar gyfer yr holl ddysgwyr, mae arweinwyr yn pennu gweledigaeth glir ac ymagwedd strategol at ddatblygu iaith a llythrennedd disgyblion. Maent yn gwneud penderfyniadau sy'n benderfyniadau cywir ar gyfer eu dysgwyr. Er bod arweinwyr yn sensitif ac yn ystyrgar o amgylchiadau a sefyllfaoedd dysgwyr, nid ydynt yn eu defnyddio i ostwng eu disgwyliadau o'r hyn y gall dysgwyr ei gyflawni.

23 Mae strwythurau arwain priodol ar waith gan y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion i gefnogi cydlynu a datblygu'u darpariaeth ar gyfer iaith a llythrennedd. Mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n fwyaf llwyddiannus wrth ddatblygu medrau dysgwyr, mae strategaeth gydlynus ar waith, sy'n rhwydd i'w ddeall, ar gyfer gwneud hynny. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn darparu addysgu a dysgu eithriadol sy'n bodloni anghenion dysgwyr unigol. O ganlyniad, mae'r ysgolion hyn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iaith a llythrennedd dysgwyr yn effeithiol, ac yn herio ac yn meithrin datblygiad dysgwyr mwy abl yn llwyddiannus.

24 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cryf o gydweithio lle mae gan yr holl staff fynediad at wybodaeth gyfunol yr ysgol, ac yn gallu elwa arni. Yn aml, mae arweinwyr yn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd cryf mewn iaith a llythrennedd eu hunain. Maent yn buddsoddi ym medrau a galluoedd eu staff,



**Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cryf o gydweithio lle mae gan yr holl staff fynediad at wybodaeth gyfunol yr ysgol, ac yn gallu elwa arni.**

trwy ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n datblygu dealltwriaeth ymarferwyr yn llwyddiannus o'r ffordd orau i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd Saesneg dysgwyr.

25 Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr yn datblygu prosesau cadarn ar gyfer adolygu effaith addysgu a phrofiadau dysgu ar gynnydd dysgwyr. Mewn ysgolion gwannach, mae arweinwyr yn monitro agweddau generig ar addysgu, ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar agweddau ar addysgu iaith sy'n benodol i bwnc. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd nodi anghenion dysgu proffesiynol yn union, fel y gall staff ddatblygu medrau iaith a llythrennedd Saesneg dysgwyr yn well. Mewn ysgolion gwannach, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod staff yn arddangos arferion modelu iaith da i ddysgwyr.

26 Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn darparu cymorth priodol i leoliadau ac ysgolion i feithrin eu gallu a'u harbenigedd mewn iaith a llythrennedd Saesneg. Lle ceir diffygion yn y ddarpariaeth, mae'r hyfforddiant a'r cymorth yn generig yn aml, ac nid ydynt bob amser wedi'u personoli digon nac yn cydweddu ag anghenion ysgolion unigol.



# Argymhellion

## Dylai lleoliadau nas cynhelir, ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd:

**A1** sicrhau nad yw tlodi ac anfantais yn rhwystrau i ddysgwyr rhag datblygu medrau iaith a llythrennedd cadarn

**A2** datblygu diwylliant o ddarllen sy'n annog ac yn ennyn brwdfrydedd yr holl ddysgwyr, gan gynnwys bechgyn a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig, i ddarllen er pleser, a darparu cyfleoedd i wrando ar oedolion yn darllen ar goedd

**A3** datblygu gwybodaeth dysgwyr am eirfa yn benodol, fel bod hynny'n cynorthwyo i ddatblygu'u medrau siarad, darllen ac ysgrifennu

## Dylai ysgolion cynradd:

**A4** ddatblygu strategaeth glir i gefnogi addysgu darllen yn effeithiol, gan gynnwys mynd i'r afael â medrau datgodio, datblygu geirfa, a medrau darllen

**A5** darparu cyfleoedd heriol priodol a pherthnasol i gefnogi datblygiad cynyddol medrau gwrando a siarad dysgwyr, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

**A6** cefnogi datblygu medrau ysgrifennu dysgwyr drwy addysgu cystrawennau, atalnodi a sillafu yn benodol, cyfleoedd perthnasol i ysgrifennu ac adborth manwl i arwain gwelliant pellach

## Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:


**A7** ddarparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion unigol lleoliadau ac ysgolion, i sicrhau bod yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig, yn gwella eu medrau iaith a llythrennedd

## Dylai Llywodraeth Cymru:

**A8** werthuso defnydd lleoliadau ac ysgolion o gyllid wedi'i dargedu, fel y grant datblygu disgyblion blynyddoedd cynnar a'r grant datblygu disgyblion, er mwyn gwella medrau iaith a llythrennedd disgyblion cymwys



# Dysgu ac agweddau at ddysgu



# Safonau a chynnydd mewn iaith a llythrennedd

27 Mewn ysgolion cynradd, er gwaethaf gwelliannau mewn agweddau ar siarad, darllen ac ysgrifennu, mae safonau iaith a llythrennedd, yn gyffredinol, yn ddigon tebyg i'r rheini yr adroddom amdanynt bedair blynedd yn ôl (Estyn, 2019, tud.14). Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae safonau'n rhagorol, mae'r holl grwpiau dysgwyr yn gwneud cynnydd arbennig o gryf wrth ddatblygu'u medrau iaith a llythrennedd. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cadarn neu well yn eu datblygiad iaith o'u mannau cychwyn. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a dysgwyr sy'n fwy abl yn gwneud digon o gynnydd dros gyfnod wrth ddatblygu'u medrau iaith a llythrennedd. Ar y cyfan, nid yw bechgyn yn cyflawni gystal â merched.

## Gwrando a siarad

28 Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau gwrando a siarad yn y blynyddoedd cynnar. Yn gynyddol, mae lleoliadau ac ysgolion yn adrodd am lefelau is o fedrau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer dysgwyr tair a phedair oed, yn enwedig bechgyn a'r rheini o gefndiroedd difreintiedig, pan fyddant yn dechrau'r ysgol mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn.



29 Mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol, mae medrau gwrando a siarad dysgwyr yn wannach o lawer yn aml na medrau dysgwyr o gefndiroedd mwy breintiedig. Gydag addysgu o ansawdd uchel ac ymyriadau wedi'u targedu'n ofalus, mae llawer o'r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'u medrau iaith

derbyn a mynegiannol, o'u mannau cychwyn isel. Er enghraifft, mae llawer o blant oedran meithrin yn gwrando'n dda ar oedolion a'u cyfoedion, yn enwedig wrth drafod storïau ac wrth ddilyn camau dawns a chaneuon actol. Maent yn sgwrsio'n hyderus gydag eraill wrth iddynt chwarae. Er bod y cynnydd hwn yn fuddiol iawn, mae'r bwlch yn nealltwriaeth a siarad dysgwyr, o'i gymharu â'u cyfoedion mwy breintiedig, yn parhau'n nodedig. Fel arfer, nid oes gan ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig ystod eirfa mor eang i'w defnyddio â dysgwyr eraill, ac mae goblygiadau hirdymor ynghlwm â hyn i'w dysgu a'u cynnydd ar draws y cwricwlwm. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae'r bwlch yng ngwybodaeth dysgwyr a'u defnydd o eirfa ar ddiwedd y cyfnod sylfaen yn parhau yng nghyfnod allweddol 2.

30 Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae dysgwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yn gwrando'n dda. Maent yn dal ati i ganolbwyntio er mwyn gwrando ar gyfarwyddiadau a'u dilyn, ac maent yn deall y rheolau gramadegol symlaf, gan ddefnyddio amseroedd, lluosogion a rhagenwau gyda mwy a mwy o gywirdeb wrth siarad. Maent yn ymateb yn briodol i gwestiynau gan eu hathrawon ac i gyfraniadau gan eu cyfoedion. Mewn ychydig iawn o ysgolion, lle mae safonau gwrando a siarad yn rhagorol, mae bron yr holl ddysgwyr yn trafod materion yn hyderus o flaen eu cyfoedion ac yn ymateb i'w gilydd yn aeddfed gydag ystod o eirfa estynedig. Er enghraifft, mae dysgwyr Blwyddyn 2 yn defnyddio goslef, ystumiau a symudiad yn effeithiol iawn i ennyn diddordeb eu cynulleidfa yn ystod cyflwyniad grŵp. Mae'r rhai sy'n fwy abl yn cyfeirio at dystiolaeth yn fedrus er mwyn ychwanegu cig a gwaed at eu dadl, er enghraifft trwy ddefnyddio dechreuwyr brawddegau, fel 'Experts believe…'.

**Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae dysgwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yn gwrando'n dda. Maent yn dal ati i ganolbwyntio er mwyn gwrando ar gyfarwyddiadau a'u dilyn, ac maent yn deall y rheolau gramadegol symlaf, gan ddefnyddio amseroedd, lluosogion a rhagenwau gyda mwy a mwy o gywirdeb wrth siarad.**



31 Mae llawer o ddysgwyr yn adeiladu'n dda ar eu medrau gwrando a siarad wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2. Mewn ychydig iawn o ysgolion effeithiol iawn, mae dysgwyr yn datblygu geirfa gyfoethog, eang ac amrywiol. Mae'r dysgwyr hyn yn defnyddio cystrawennau a geiriau amrywiol yn fanwl gywir mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol i gyfleu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau yn aeddfed. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cyfranogi mewn deialog estynedig gyda'u hathrawon a'u cyfoedion i archwilio dylanwad Lady Macbeth dros Macbeth ar ôl darllen detholiad o'r ddrama. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu'u medrau gwrando a siarad yn ddigon da. Mae hyn oherwydd nad yw dysgwyr yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu'r amrediad llawn o fedrau, fel: dadlau, chwarae rôl, cyfweld, archwilio syniadau. Nid ydynt yn adeiladu ar sylwadau dysgwyr eraill yn ystod tasgau grŵp cydweithredol nac yn ehangu eu hatebion yn ddigonol mewn trafodaethau dosbarth.

## Darllen

32 Mae'r rhan fwyaf o blant mewn lleoliadau a dosbarthiadau meithrin yn datblygu medrau 'cyn-darllen' pwysig ac ymddygiadau darllen cadarnhaol. Er enghraifft, maent yn trin llyfrau â pharch ac yn ymwybodol o sut i ddal y llyfr y ffordd gywir, troi'r tudalennau, ac ailadrodd storïau yn eu geiriau eu hunain. Mae llawer yn datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol trwy ganu caneuon, llafarganu rhigymau, gwrando ar gerddoriaeth, clapio rhythmau, a chwarae gemau geiriau. Maent yn adnabod llythrennau cyfarwydd yr wyddor, yn enwedig llythyren gyntaf eu henwau, ac mae hyn yn eu helpu wrth hunangofrestru ar ddechrau sesiynau neu wrth ddewis y mat bwrdd cywir yn ystod byrbryd.

33 Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau, sy'n eu helpu i ddatblygu'u medrau datgodio yn dda, wrth iddynt symud drwy'r cyfnod sylfaen. Mewn ychydig o ysgolion, nid oes ymwybyddiaeth ddigon cadarn gan ddysgwyr bob amser o odl, silliau, dechrau a diwedd gair a phatrymau pwyslais mewn geiriau, i adeiladu'u gwybodaeth am ffonemau arnynt. Mae hyn yn

golygu eu bod yn cael anhawster dysgu'r seiniau sy'n ffurfio geiriau, a chynnydd araf maent yn ei wneud wrth ddatgodio print.

34 Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn cyflawni rhuglder a mynegiant priodol wrth ddarllen ar goedd. Maent yn darllen testunau priodol i oedran yn gywir, gan ddefnyddio 'geirfa gweld' i ddarllen geiriau sy'n digwydd yn fynych. Mae llawer yn defnyddio'u gwybodaeth am seiniau llythrennau ac awgrymiadau lluniau i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd. I raddau llai, mae dysgwyr yn cywiro'u hunain, gan ddefnyddio'r strategaethau ailddarllen a darllen ymlaen, neu'n addasu'u cyflymder darllen, wrth fynd i'r afael â thestun anghyfarwydd. Mewn ychydig o ysgolion, lle mae angen gwella darllen dysgwyr, mae dysgwyr yn dibynnu gormod ar gymorth oedolion neu ystod gul o strategaethau i'w helpu i ddehongli geiriau. Hyd yn oed pan fydd y medrau gan ddysgwyr i ddarllen gair ar goedd, mae eu gwybodaeth gyfyngedig am eirfa yn golygu nad ydynt yn deall y gair nac yn sylweddoli sut mae'n cyfrannu at y frawddeg neu'r testun yn ei gyfanrwydd.

35 Mewn llawer o ysgolion, yn y cyfnod sylfaen, mae medrau darllen cynnar dysgwyr, sef deall ac ymateb i ddarllen, yn datblygu'n llwyddiannus ochr yn ochr â'u medrau datgodio technegol. Er enghraifft, maent yn mynegi'u hymatebion i gerddi, storïau a thestunau anllenyddol a ddarllenir iddynt a'r rheini y maent yn eu darllen eu hunain, drwy nodi agweddau y maent yn eu hoffi. Mae llawer o ddysgwyr yn cofio prif bwyntiau naratif ac yn trafod ffeithiau y maent wedi'u dysgu o destunau ffeithiol. Maent yn adnabod nodweddion cyfeirlyfrau, fel y dudalen gynnwys, mynegai a geirfa. Mae llawer o ddysgwyr yn casglu'r ystyr o destunau syml i ragweld beth allai ddigwydd nesaf mewn stori neu i awgrymu beth allai fod yn mynd trwy feddwl cymeriad. Mewn ychydig iawn o ysgolion, lle mae safonau darllen yn arbennig o uchel, mae dysgwyr yn caffael medrau darllen mwy datblygedig. Er enghraifft, mae dysgwyr mwy abl ym Mlwyddyn 2 yn darparu ymatebion bywiog i'w darllen i egluro pam y mae cymeriad yn teimlo emosiwn, gan gyfeirio at y testun i gefnogi'u barn.



36 Mewn ychydig o ysgolion, erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, nid yw dealltwriaeth dysgwyr o destunau ac iaith yn datblygu gystal ag y gallai. Yn aml, mae hyn oherwydd nad yw athrawon yn amlygu dysgwyr i ystod ddigon eang o destunau a phrofiadau darllen, nac yn defnyddio ymagwedd gytbwys at ddatblygu darllen sy'n integreiddio medrau datgodio a dealltwriaeth. Yn ogystal, gallai gorfod cadw'n haearnaidd at nifer osodedig o destunau o gynllun darllen effeithio'n niweidiol ar gynnydd dysgwyr wrth ddatblygu'u medrau darllen.

37 Mewn llawer o ysgolion, mae dysgwyr yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus yng nghyfnod allweddol 2. Maent yn mireinio'u gallu i ddarllen yn gywir ar goedd, gydag ymwybyddiaeth o'u cynulleidfa, talu sylw da i atalnodi, ac amrywio'r oslef, y llais a chyflymder. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae dysgwyr yn trafod llyfrau gan eu hoff awduron yn fedrus ac yn nodi rhannau o storïau sy'n arbennig o apelgar iddynt. Maent yn egluro sut maent yn defnyddio deunydd ffynhonnell i gefnogi'u hysgrifennu, er enghraifft adroddiadau anghronolegol mewn hanes a gwyddoniaeth.

38 Wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu'u gallu i gasglu ystyr o destun, i lithrddarllen testun er mwyn cael argraff gyffredinol o'i gynnwys ag i fwrw golwg dros destun er mwyn dod o hyd i wybodaeth benodol. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae bron yr holl ddysgwyr wedi caffael medrau darllen datblygedig, mae dealltwriaeth gryf gan ddysgwyr o dechneg neu arddull awduron, gan adnabod sut mae ysgrifenwyr yn defnyddio geirfa a dyfeisiau ieithyddol i gyflawni effeithiau penodol. Er enghraifft, mae dysgwyr yn egluro pam y mae ysgrifenwyr yn defnyddio trosiadau a chyffelybiaethau i greu tensiwn mewn nofel. Yn gyffredinol, hyd yn oed yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, nid yw dysgwyr yn datblygu'u gallu i 'werthuso' testunau gystal ag y maent yn datblygu medrau darllen datblygedig eraill. Mae hyn oherwydd nad yw dysgwyr bob amser yn defnyddio'u gwybodaeth flaenorol yn ddigon da, neu nad oes ganddynt brofiadau cymdeithasol a diwylliannol ddigon eang i lywio'u meddwl ac i lunio barnau ynglŷn â beth maent yn ei ddarllen.

39 Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio ystod gynyddol o strategaethau i ddatblygu'u dealltwriaeth wrth ddarllen yn annibynnol. Yn yr enghreifftiau gorau un, mae dealltwriaeth gref gan ddysgwyr fod yna fathau gwahanol o ddarllen sy'n briodol at ddibenion gwahanol, ac mae hyn yn dylanwadu ar y strategaethau y mae darllenydd yn eu defnyddio. Er enghraifft, mae dysgwyr yn anodi testun i'w helpu i nodi syniadau neu wybodaeth allweddol wrth ddarllen, neu i lunio'u cwestiynau eu hunain cyn darllen, wrth ddarllen neu ar ôl darllen i'w helpu i wneud synnwyr o destun. Maent yn defnyddio'u medrau ymchwilio i ddosbarthu a chrynhoi gwybodaeth, i wneud nodiadau ac i gyflwyno ffeithiau mewn fformat gwahanol, fel siart llif. Mae ganddynt 'iaith ddysgu' y gallant ei defnyddio'n fuddiol i siarad am y prosesau a strategaethau darllen y maent yn eu defnyddio. Mewn ychydig o ysgolion, mae gorddefnyddio taflenni gwaith sydd ond yn cynnig her neu gyfle cyfyngedig i fynnu dyfnder dealltwriaeth, yn rhwystro cynnydd dysgwyr wrth ddatblygu dealltwriaeth ddarllen dda.

**40** Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae dysgwyr yn datblygu'u medrau darllen delweddau yn ogystal â thestun, er enghraifft drwy ymgysylltu â thestunau amlgyfrwng fel llyfrau darluniau, tudalennau gwe, animeiddiadau a ffilmiau. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw gallu dysgwyr i gymhwyso medrau darllen datblygedig i ddehongli testun a delweddau o ystod o gyfryngau wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

## Ysgrifennu

**41** Mae'r rhan fwyaf o blant oedran meithrin mewn lleoliadau ac ysgolion yn mwynhau gwneud marciau ac maent yn arbrofi'n hyderus gan ddefnyddio ystod o offer a chyfarpar, er enghraifft wrth greu darluniau i ddangos cywion hwyaid yn deor o wyau neu wrth greu hunanbortreadau gyda phensiliau lliwio. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o ddiben ysgrifennu, fel wrth wneud arwyddion ar gyfer gwerthu planhigion yn eu canolfan ardd, ysgrifennu archebion cwsmeriaid yn eu caffi, neu greu arwyddion 'perygl, cadwch allan' ar gyfer eu safle adeiladu. Mae llawer yn dangos rheolaeth gynyddol ar offer ysgrifennu a gwnânt ymdrechion da i ffurfio llythrennau o'u henw. Mae plant mwy abl yn ysgrifennu llythrennau hawdd eu hadnabod yn glir.

**42** Yn ystod y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu i ysgrifennu dechrau a diwedd seiniau i gynrychioli geiriau'n llwyddiannus, cyn symud ymlaen i ysgrifennu geiriau cyfan a brawddegau. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif yn datblygu'r medrau corfforol sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu, fel cydsymud, ystum corff a dygwnch i ddatblygu arddull llawysgrifen rugl. Fodd bynnag, mae trawsgrifio araf lleiafrif o ddysgwyr yn rhwystro'u cyfansoddiadau, wrth iddynt ganolbwyntio mwy ar eu llawysgrifen a'u sillafu, a gyda llai o allu i feddwl am gynnwys eu hysgrifennu.

**Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae dysgwyr yn datblygu'u medrau darllen delweddau yn ogystal â thestun, er enghraifft drwy ymgysylltu â thestunau amlgyfrwng fel llyfrau darluniau, tudalennau gwe, animeiddiadau a ffilmiau.**

43 Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae gan ddysgwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion brofiad o ysgrifennu ar gyfer ystod addas o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae strwythur cadarn i ysgrifennu llawer o ddysgwyr. Defnyddiant ystod addas o ddechreuwyr brawddegau i drefnu'u syniadau yn llwyddiannus, ac maent yn defnyddio geirfa sy'n briodol i'r genre. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyffelybiaethau diddorol i ddisgrifio anifeiliaid mewn storïau, ac yn defnyddio iaith ddarbwyllol wrth ysgrifennu ceisiadau am swyddi yn y gwasanaeth tân. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn sillafu'r geiriau mwyaf cyffredin yn gywir ac mae eu hymdrechion i sillafu geiriau lluosill yn ffonetig gredadwy fel arfer. Mae llawer o ddysgwyr yn atalnodi'u hysgrifennu yn gywir gyda phriflythrennau, atalnodau llawn ac ebychnodau. Yn gyffredinol, maent yn llai sicr wrth ddefnyddio gofynodau a dyfynodau. Mewn ychydig o ysgolion, mae dysgwyr yn or-ddibynnol ar gymorth oedolion wrth ysgrifennu ac yn cael anhawster ysgrifennu'n estynedig. Mewn ysgolion lle mae safonau ysgrifennu yn ddigonol ac angen eu gwella, nid yw dysgwyr yn defnyddio ystod o eirfa ddychmygus nac eang. O ganlyniad, nid yw eu hysgrifennu yn dal nac yn cynnal diddordeb y darllenydd yn ddigon da.


44 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gryf o ddiben eu gwaith ysgrifenedig, ac maent yn trefnu'u hysgrifennu yn dda. Mae llawer yn datblygu arddull llawysgrifen daclus, ddarllenadwy a rhedol. Mae llawer yn sillafu geiriau y maent yn eu defnyddio'n aml yn eu hysgrifennu yn gywir. Lle ceir safonau da neu well, mae dysgwyr yn ysgrifennu darnau estynedig bywiog mewn amrywiaeth eang o genres, ac yn defnyddio ystod o atalnodi yn gywir, fel colonau, cromfachau a chollnodau i ddangos cywasgiadau. Maent yn cyfuno brawddegau syml gyda brawddegau aml-gymal amrywiol o fathau gwahanol i ennyn diddordeb y darllenydd. Mewn lleiafrif o ysgolion lle ceir diffygion yn ysgrifennu dysgwyr, nid yw dysgwyr yn gwneud digon o gynnydd wrth fynd i'r afael â chamgymeriadau sylfaenol a mynych mewn sillafu ac atalnodi, wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, mewn llawer o ysgolion, nid oes gan ddysgwyr ddealltwriaeth ddigon da o hanes geiriau a'r perthnasoedd rhyngddynt i gefnogi'u sillafu o ran geiriau mwy cymhleth, lluosill a'u gwybodaeth am eirfa.

45 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae safonau mewn ysgrifennu erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn arbennig o uchel, gyda dysgwyr mwy abl yn cynhyrchu cyfansoddiadau wedi'u cynllunio a'u strwythuro'n fedrus, a chan ddefnyddio atalnodi yn hyfedr i greu effeithiau penodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio comas i gynyddu cyflymder stori neu i gynnwys manylion arbennig am gymeriadau neu leoliadau. Mae eu hysgrifennu'n cynnwys cyfoeth o eirfa anturus i ennyn diddordeb y darllenydd, creu disgrifiadau a chyfleu emosiynau. Mae ganddynt feistrolaeth ragorol ar sut i ddefnyddio ansoddeiriau pwerus, ymadroddion adferfol ac iaith ffigurol, fel personoli yn eu hysgrifennu disgrifiadol. Er enghraifft, yn eu cerddi naratif a storïau, mae dysgwyr Blwyddyn 6 yn ysgrifennu:

'The sea is a bloodthirsty bear
His unforgiving roar echoes along the wall of the coast
His enormous paws ruthlessly swiping and clawing at waves
Whilst his terrible teeth chew at the shore.'



'Standing tall and proud, a senile grandfather clock,
festooning in cobwebs,
rhythmically ticked away the years in one forgotten corner,
while a diminutive, cylindrical oil lamp delicately suspended
itself off an ornately coiled hook on the wall.'



Fodd bynnag, mae dysgwyr sy'n ysgrifennu'n dda tuag at ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn aml yn cael anhawster gwybod sut i ymestyn eu medrau ymhellach, er enghraifft i arbrofi gyda nodweddion mathau gwahanol o ysgrifennu, ac felly'n aros ar yr un lefel am gyfnod rhy hir.

46 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae dysgwyr yn datblygu medrau golygyddol defnyddiol sy'n eu helpu i wella ansawdd eu gwaith, er enghraifft wrth ymateb i adborth athrawon. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arfer gyffredin, hyd yn oed mewn ysgolion da. Yn aml, mae gwaith golygyddol dysgwyr wedi'i gyfyngu i gywiro camsillafu neu newid gwallau gramadegol sylfaenol. Yn gyffredinol, mae gallu dysgwyr i ddefnyddio bysellfwrdd i ysgrifennu'n llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen ac i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi ailddrafftio effeithiol yng nghyfnod allweddol 2 yn amrywiol iawn o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion.

47 At ei gilydd, mae safon ysgrifennu dysgwyr mewn llawer o ysgolion cynradd yn parhau'n wannach nag agweddau eraill ar eu llythrennedd. Mae hyn yn rhannol yn sgil methu sicrhau medrau dysgwyr mewn gwrando, siarad a darllen yn ddigon da i gefnogi'u datblygiad mewn ysgrifennu.

## Cymhwyso medrau ar draws y cwricwlwm

48 Lle mae ysgolion yn defnyddio strategaethau addysgu a dysgu effeithiol yn y cyfnod sylfaen, caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu'u darllen a'u hysgrifennu, pan fydd yn briodol yn ddatblygiadol, ac i ddysgwyr ddefnyddio'u medrau iaith a llythrennedd yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Mewn lleiafrif o ysgolion, lle mae gweithgareddau yn y cyfnod sylfaen dan gyfarwyddyd oedolion am y rhan fwyaf o'r amser, nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr archwilio iaith ar draws meysydd dysgu drwy siarad ag oedolion a dysgwyr eraill am destunau sydd o ddiddordeb iddynt. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'u medrau siarad yn dda i gefnogi'u dysgu ym mhob pwnc, gan gyfrannu'n bwrpasol at gyflwyniadau a pherfformiadau, ond nid ydynt bob amser yn datblygu'u medrau gystal ag y gallent i drafod achos ac effaith, nac i resymu a dadlau.

49 Lle mae safonau darllen yn dda mewn lleoliadau ac ysgolion, mae athrawon yn trochi dysgwyr mewn amgylchedd dysgu sy'n rhoi cyfleoedd niferus iddynt ddarllen amrywiaeth o destunau ac ymarfer a gwella eu medrau darllen trwy gydol y diwrnod. Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae dysgwyr yn dechrau cymhwyso'u medrau darllen i'w helpu i ddysgu'n annibynnol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm wrth iddynt symud i mewn i gyfnod allweddol 2. Er enghraifft, maent yn llithrddarllen a bwrw golwg ar destun yn effeithlon i amlygu ffeithiau perthnasol i helpu gyda'u gwaith yn ysgrifennu adroddiad. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw dysgwyr yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ddadansoddi, cyfosod ac aildrefnu'r syniadau neu wybodaeth mewn testunau, wrth iddynt symud ymlaen o flwyddyn i flwyddyn. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae hyn yn golygu nad ydynt wedi sicrhau'r medrau angenrheidiol i goladu a chymathu gwybodaeth yn briodol a mynegi hyn yn eu geiriau eu hunain. Yn lle hynny, maent yn treulio amser maith yn copïo talpiau o destun. Mae gwybodaeth gyfyngedig lleiafrif o ddysgwyr am eirfa yn golygu eu bod yn ei chael hi'n anodd dehongli termau technegol neu gynnal eu dealltwriaeth wrth ddarllen testunau ffeithiol i gefnogi'u gwaith testun.

50 Yn yr ysgolion hynny lle mae safonau gwrando, siarad a darllen yn gryf, mae dysgwyr yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i ddylanwadu ar eu hysgrifennu mewn gwersi llythrennedd ac ar draws y cwricwlwm. Yn y mwyafrif o ysgolion lle caiff dysgwyr gyfleoedd ystyrlon i ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu hyder i drosglwyddo'u dealltwriaeth o'r mathau gwahanol o ysgrifennu i feysydd dysgu eraill. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw dysgwyr iau yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn ddigon da ar draws y cwricwlwm. Nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd ysgogol i ysgrifennu yn ystod darpariaeth barhaus ac estynedig, gan gyfyngu ar allu dysgwyr i ysgrifennu'n estynedig yn ddychmygus ac yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, yn aml, dibynnir gormod ar addysgu ffurfiol a defnyddio taflenni gwaith neu fframiau ysgrifennu, i sgaffaldu ysgrifennu dysgwyr am gyfnod rhy hir neu ar gyfer dysgwyr nad oes angen y cymorth hwn arnynt. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu'r gallu i ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig.

**51** Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae safon ysgrifennu dysgwyr yn rhagorol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymhwyso'u dealltwriaeth o nodweddion ystod o genres yn eithriadol o dda i'w hysgrifennu eu hunain mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae dysgwyr Blwyddyn 6 yn trin nodweddion adroddiad anghronolegol yn fedrus i gynhyrchu adroddiadau gwyddonol difyr iawn ar fertebratau ac infertebratau gyda theitlau llawn dychymyg, fel 'Salamander: A poisonous predator or a genetic magician?' a 'The 'Giant Tiger Centipede: Poisonous problem or nature's vacuum cleaner?' Maent yn ysgrifennu'n glir a dychmygus gan ddefnyddio ystod nodedig o eirfa aeddfed. Mae'r dysgwyr hyn yn uchelgeisiol yn eu defnydd o iaith ym mhob cyd-destun ar gyfer ysgrifennu, ac nid yn eu gwersi Saesneg yn unig.

# Agweddau at ddysgu

**52** Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion cynradd, mae agweddau cadarnhaol gan ddysgwyr at ddatblygu'u medrau iaith a llythrennedd. Mae dysgwyr iau yn mwynhau chwarae gydag iaith trwy ganeuon, rhigymau a gemau, ac mae'r rhan fwyaf yn cyfranogi'n frwdfrydig yn eu gweithgareddau. Mae dysgwyr oedran meithrin yn mwynhau gwrando ar storïau, ac mae llawer yn dewis llyfrau o'r cornel darllen neu babell lyfrau awyr agored i rannu gyda ffrindiau. Yn yr ychydig iawn o leoliadau ac ysgolion lle mae safonau'n rhagorol, mae'r rhan fwyaf o blant meithrin yn dangos pleser gwirioneddol mewn llyfrau a storïau, gan adrodd a thrafod prif ddigwyddiadau a chymeriadau gyda hyder ac aeddfedrwydd.

**53** Yng nghyfnod allweddol 2, mae dysgwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yn awyddus i siarad am yr ystod gweithgareddau iaith y maent yn eu mwynhau, er enghraifft:

- datblygu medrau siarad a'u medrau creadigol trwy ddrama
- cymryd rhan mewn siarad cyhoeddus a chymdeithasau trafod
- darllen nofelau heriol
- ymweld â'r theatr a Gŵyl y Gelli
- ysgrifennu fersiynau digrif o storïau adnabyddus
- ysgrifennu ar bwnc o'u dewis mewn genre o'u dewis
- gweithio gydag awduron mewn sgwadiau ysgrifennu
- cael profiadau ymarferol ysgogol i gefnogi'u profiadau iaith

Mae llawer o ddysgwyr yn egluro sut mae gweithgareddau fel y rhain wedi'u helpu i ddatblygu'u medrau mewn gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu.

**54** Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae dysgwyr hŷn yn myfyrio'n aeddfed ar eu dysgu iaith eu hunain a dysgwyr eraill. Er enghraifft, mae grŵp o ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6 yn siarad am 'rwystrau mewnol ac allanol' rhag gwella'u medrau iaith. Maent yn myfyrio ar y rôl bwysig y mae rhieni'n ei chwarae i annog eu plant i ddarllen gartref, ac yn mynegi sut gallai fod ofn ar rai dysgwyr gofyn beth yw ystyr gair oherwydd eu bod yn 'ofni edrych yn wirion' o flaen eu cyfoedion. Maent yn siarad yn ddoeth am bwysigrwydd athrawon yn meithrin diwylliant agored lle cydnabyddir bod pawb yn 'ddysgwr', gan gynnwys yr athro. Maent yn ymwybodol o'u cryfderau a'u gwendidau, ac yn cymell eu hunain i gymryd cyfrifoldeb am wella'u dysgu. Yn gyffredin i'r ysgolion effeithiol iawn hyn y mae ymwybyddiaeth dysgwyr bod eu hathrawon yn eu hannog i fod yn greadigol yn eu gwaith iaith ac i gymryd risgiau yn eu dysgu.

**55** Lle mae ysgolion wedi sefydlu diwylliant llwyddiannus o ddarllen ar gyfer dysgu ac er pleser, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn parhau i gael mwynhad o ystod amrywiol o ddeunyddiau darllen wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol gynradd. Maent yn gwneud dewisiadau annibynnol o'r ystafell ddosbarth, yr ysgol a llyfrgelloedd cymunedol, ac yn mwynhau rhannu argymhellion yn eu meysydd diddordeb gyda'u cyfoedion ac athrawon. Maent yn cael pleser o gael amser i ddarllen yn yr ysgol mewn mannau tawel, cyfforddus. Mewn llawer o ysgolion, mae dysgwyr yn elwa o'r buddion a all ddeillio o ddarllen. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, mae yna grwpiau o ddysgwyr sy'n datblygu'n ddarllenwyr anfodlon am amrywiaeth o resymau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- anawsterau gyda darllen
- lefel isel o hunan-barch a hunanhyder fel darllenydd
- diffyg ymgysylltiad rhieni
- ddim yn deall manteision a phwysigrwydd darllen
- diffyg gwydnwch i ddarllen llyfrau penodau neu nofelau
- diffyg diddordeb yn yr adnoddau darllen sydd gan yr ysgol
- mae'n well ganddynt wneud pethau eraill yn eu hamser hamdden

Yn gyffredinol, mae llai o ddysgwyr yn mwynhau darllen yn yr ysgol gynradd nag yn y gorffennol (Estyn, 2019; Clark a Teravainen-Goff, 2020). Mae hyn yn fwy amlwg ymhlith bechgyn a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

56 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae dysgwyr yn defnyddio dyddlyfrau ysgrifennu yn effeithiol. Mae'r rhain yn helpu meithrin eu hannibyniaeth wrth ysgrifennu ac yn gwella'u cymhelliant i ysgrifennu. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid oes digon o reolaeth gan ddysgwyr, yn gyffredinol, dros sut na beth maent yn ei ddysgu mewn gwersi iaith a llythrennedd. Er enghraifft, nid ydynt yn mynd ati fel mater o drefn i ddewis sut byddent yn hoffi cyflwyno'u gwaith.



57 Yn rhyw hanner yr ysgolion cynradd, mae medrau dysgu annibynnol dysgwyr, fel y gallu i drosglwyddo dysgu blaenorol i gyd-destunau newydd, yn parhau yn faes i'w ddatblygu. Hyd yn oed yn yr ysgolion gorau, lle mae dysgwyr yn cyflawni safonau uchel mewn gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu, nid yw dysgwyr bob amser yn datblygu'u medrau metawybyddol yn ddigon da i ddefnyddio ystod eang o strategaethau dysgu yn annibynnol, ac i fonitro a gwerthuso'u dysgu eu hunain, yn enwedig pan fyddant yn wynebu her. Cyfeiriwch at **dudalennau 151 i 153** am enghreifftiau o'r modd y mae athrawon yn hyrwyddo ac yn modelu datblygu strategaethau metawybyddol a iaith dysgu a meddwl, wrth addysgu darllen.



# Darpariaeth



# Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu

58 Mae gan lawer o leoliadau ac ysgolion ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol sydd yn amgylcheddau dysgu iaith a llythrennedd cyfoethog sy'n trochi disgyblion yn y gair llafar ac ysgrifenedig, a lle mae ymarferwyr yn cefnogi lleferydd a chyfathrebu plant yn dda trwy fodelu iaith yn effeithiol.

59 Yn yr enghreifftiau hyn, ceir mannau cynnes, deniadol yn aml lle gall plant ddewis o ystod eang o ddeunyddiau dysgu o ansawdd uchel. Mae gan y rhan fwyaf 'waliau' geirfa defnyddiol neu arddangosfeydd gyda phatrymau brawddegau i gefnogi datblygiad siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr. Mewn ychydig o ysgolion, mae dysgwyr yn cyfrannu'n fynych at y waliau dysgu 'byw' hyn i gefnogi'u dysgu eu hunain a dysgu'u cyfoedion. Mewn llawer o leoliadau nas cynhelir a dosbarthiadau meithrin, mae staff yn defnyddio arddangosfeydd geirfa, arwyddion Makaton ac awgrymiadau darlun yn dda i gynorthwyo plant i ddefnyddio adnoddau'n annibynnol.

60 Yn yr ychydig enghreifftiau gorau, rhoddir lle amlwg i arddangosfeydd deniadol o ysgrifennu dysgwyr, yn dangos y datblygiad ym medrau dysgwyr wrth iddynt symud drwy'r ysgol gynradd. Mae'r rhain yn cynnwys ysgrifennu sy'n datblygu o'r dosbarth derbyn at ddarnau soffistigedig, estynedig o ryddiaith a barddoniaeth o Flwyddyn 6.

61 Lle mae'r ddarpariaeth yn fwyaf effeithiol, ceir cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddatblygu'u medrau iaith a llythrennedd trwy ddarpariaeth barhaus ac estynedig, fel ardaloedd chwarae rôl dan do ac yn yr awyr agored yn y cyfnod sylfaen, a 'pharthau' dysgu annibynnol mewn ystafelloedd dosbarth cyfnod allweddol 2. Mae ychydig iawn o ysgolion yn cynllunio defnydd arloesol o'u hardal ysgol goedwig i ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr i safon uchel. **Mae'r astudiaeth achos ar Ysgol Gynradd Gymunedol Penbre ar dudalennau 127 i 129 yn dangos sut maent yn cyflawni hyn.**





**Mewn un ysgol, mae athrawon yn creu parthau dysgu defnyddiol, fel rhan o ymagwedd gyffredin at drefnu ystafelloedd dosbarth a mannau awyr agored i gefnogi medrau dysgu iaith annibynnol dysgwyr.**

Gan ystyried y cam y maent arno o ran eu datblygiad iaith, mae athrawon yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio ystod eang o adnoddau. Maent yn sicrhau bod dysgwyr yn deall y meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau dysgu ac yn eu herio i wirio'u cynnydd yn annibynnol. Mae'r cymorth ar gyfer iaith yn nodwedd gref ar draws parthau eraill, yn ogystal ag yn y parth ieithoedd, lle ceir cymorth ar gyfer geirfa, sillafu a chystrawennau, sgaffaldau ysgrifennu a thargedau dysgwyr unigol.

Darllenwch fwy yma

**Mae dysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn elwa o 'heriau' llythrennedd trawsgwricwlaidd, sydd wedi'u llunio'n ofalus, dan do ac yn yr awyr agored, sy'n cael eu harwain gan athrawon a chynorthwywyr addysgu, yn ogystal â'u cyfarwyddo gan y dysgwyr eu hunain.**

Mae athrawon yn cynnig her ar lefel briodol wrth ddylunio'r heriau hyn. Maent yn datblygu gallu dysgwyr i drefnu a rheoli'u dysgu iaith yn effeithiol ac yn annibynnol. Er enghraifft, mae dysgwyr yn defnyddio ystod eang o ddeunyddiau'n hyderus, gan gynnwys byrddau gwyn, siartiau troi ac apiau i gynllunio a chofnodi'u dysgu. Maent yn gwirio'u cynnydd yn erbyn y meini prawf llwyddo yn rheolaidd, heb gymorth athrawon. O ganlyniad, mae medrau cynllunio ac ymchwilio datblygedig iawn gan y rhan fwyaf.

Darllenwch fwy yma

**Mae dysgwyr yn Ysgol Gynradd Gymunedol Penbre yn datblygu'u medrau gwrando, siarad ac ysgrifennu yn llwyddiannus mewn cyd-destunau pwrpasol, cyfoethog o ran iaith.**

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu cyffrous yn yr awyr agored sy'n cipio dychymyg dysgwyr hŷn. Er enghraifft, maent yn archwilio traddodiadau llafar adrodd straeon, barddoniaeth ac odl yng nghyd-destun chwedl Gymreig leol ar draeth Cefn Sidan ac yn yr ysgol goedwig. Maent yn defnyddio hyn fel ysgogiad ar gyfer dysgu iaith ar draws holl feysydd y cwricwlwm, gan wneud cysylltiadau pwrpasol rhwng Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a maes dysgu a phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Mae perfformio mewn rôl yn helpu meithrin hyder dysgwyr ac yn cefnogi'u hysgrifennu'n effeithiol.

Darllenwch fwy yma

62 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir a dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygiad iaith cynnar plant. Mae hyn yn arbennig o lwyddiannus lle maent yn darparu ymagwedd dysgu drwy brofiad a dysgu gweithredol, ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddamcaniaethau datblygiad plant ac iaith.

63 Lle ceir cynllunio cryf ar gyfer dysgu, mae lleoliadau ac ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn y cyfnod sylfaen, fel sylfeini hanfodol ar gyfer cyfathrebu effeithiol a datblygu darllen ac ysgrifennu ar ôl hynny. Yn y ddarpariaeth orau, mae lleoliadau ac ysgolion yn defnyddio gwybodaeth am ddatblygiad iaith nodweddiadol plant i lywio'u cynllunio ar gyfer grwpiau o ddysgwyr ac unigolion sydd ag anghenion iaith penodol. Er enghraifft, maent yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu medrau dysgwyr o ran talu sylw, gwrando, cofio, medrau gwahaniaethu gweledol a chlywedol, a'u medrau iaith derbyn a mynegiannol.

64 Mewn ychydig o ysgolion lle mae cynllunio ar gyfer iaith a llythrennedd yn arbennig o gryf, maent yn cadw'r ffocws ar wrando a dysgu i siarad, yn ogystal â dysgu drwy siarad, wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol. Maent yn defnyddio llinynnau llefaredd rhaglenni astudio'r cwricwlwm cenedlaethol presennol (Llywodraeth Cymru, 2015a; 2015b), y fframwaith llythrennedd a rhifedd (Llywodraeth Cymru, 2013), ac adnoddau defnyddiol eraill i gynllunio ar gyfer addysgu medrau gwrando a siarad yn benodol a systematig yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw ysgolion, yn gyffredinol, yn cynllunio digon o gyfleoedd perthnasol i ddisgyblion hŷn gymryd rhan mewn profiadau dysgu sy'n canolbwyntio'n benodol ar siarad, er enghraifft i wella'u gallu i holi, herio ac adeiladu ar gyfraniadau disgyblion eraill trwy drafodaeth.

65 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn mabwysiadu ymagwedd integredig i helpu dysgwyr i gaffael a datblygu iaith. Yn yr enghreifftiau gorau, mae staff yn cynllunio'n ofalus fel bod datblygiadau mewn un medr, er enghraifft siarad, yn gallu cefnogi ac ategu datblygiad mewn medr arall, fel ysgrifennu. Maent yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r ystod lawn o fedrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn gynyddol, mewn cyd-destunau ystyrlon a diddorol ar draws y cwricwlwm.

66 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cynnwys gwersi iaith a llythrennedd yng nghyfnod allweddol 2 yn seiliedig ar destun. Yn 2008, yn ein cyhoeddiad, *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008, tud.16), tynnom sylw at bwysigrwydd staff yn dewis testunau o ansawdd uchel oherwydd bod ansawdd iaith dysgwyr eu hunain fel arfer yn ymwneud yn uniongyrchol ag ansawdd yr hyn y maent yn ei ddarllen a'i glywed. Yn gyffredinol, mae staff yn cynllunio i ddefnyddio testunau sydd wedi'u hysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol yn dda i ddarparu modelau perthnasol i ddysgwyr ddatblygu'u medrau darllen ac ysgrifennu. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid oes cydbwysedd digon da wrth gynllunio'r cwricwlwm rhwng gwahanol fathau o destun a genres. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr yn cael profiad digonol o strwythur a gosodiad ystod eang o destunau ffuglen a ffeithiol, nac yn cael eu hamlygu'n ddigon eang i nodweddion gramadegol ac arddulliadol i gefnogi datblygu'u medrau.

67 Mae ysgolion lle mae dysgwyr yn arddangos safonau iaith a llythrennedd cyson uchel yn defnyddio ymagwedd drawsgwricwlaidd yn seiliedig ar destunau yn aml. Mae athrawon yn cynllunio datblygiad medrau yn ofalus, yn gysylltiedig â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd (Llywodraeth Cymru, 2013), i gefnogi dysgwyr wrth iddynt gymhwyso'r medrau hynny ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, yn y cyfnod sylfaen, ceir cydbwysedd da o weithgareddau â ffocws dan gyfarwyddyd oedolyn a dysgu annibynnol wedi'i ysgogi gan y plentyn. Mae athrawon yn datblygu gweithgareddau dysgu estynedig a pharhaus diddorol i gyfnerthu'r medrau hyn ymhellach, yn unol â diddordebau a galluoedd y dysgwyr yn eu dosbarth. Maent yn darparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr wneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â dysgu iaith. **Gallwch ddarllen mwy am yr ymagweddau a fabwysiadwyd gan ysgolion ar dudalennau 123 i 126.**



**Mae athrawon wedi helpu codi safonau trwy gynllunio gwell, gan ddefnyddio'r fframwaith llythrennedd ac addysgu medrau iaith a llythrennedd penodol ar wahân, gydag adnoddau da.**

Mae athrawon yn datblygu'u map cwricwlwm eu hunain gan nodi'n glir y cyfleoedd llythrennedd cyfoethog ar gyfer pob grŵp blwyddyn, er mwyn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd a dyfnhau'u dealltwriaeth o iaith yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae staff yn cydweithio'n dda i sicrhau dilyniant mewn datblygu medrau. Er enghraifft, maent yn nodi pa eirfa y dylai dysgwyr gael ei hamlygu iddi drwy genres ysgrifennu ym mhob grŵp blwyddyn ac yn adeiladu'n gadarn ar wybodaeth flaenorol dysgwyr am nodweddion mathau gwahanol o destunau.

Darllenwch fwy yma

**Mae athrawon o Ysgol Gynradd Mount Stuart ym Mae Caerdydd wedi trefnu'r cwricwlwm i sicrhau bod dysgwyr yn caffael geirfa newydd ac yn cael cyfleoedd da i ymarfer a mireinio'r defnydd ohoni mewn cyd-destunau ystyrlon.**

Maent yn cynllunio themâu ysgol gyfan, fel 'treftadaeth', ac yn defnyddio'r ardal leol yn helaeth ar gyfer teithiau ac ymweliadau sy'n galluogi dysgwyr i ehangu a gwella eu geirfa, wrth archwilio'u hardal leol. Mae manteision yr ymweliadau hyn yn amrywio o ddysgwyr iau yn deall sut i archebu pryd o fwyd mewn bwyty, i ddysgwyr hŷn yn gwella eu hysgrifennu am bwysigrwydd y dociau lleol i fasnach glo.

Darllenwch fwy yma

**Mae dysgwyr yn Ysgol Gynradd Ewloe Green yn elwa o wythnosau â ffocws sy'n cynnig cyfle iddynt ymgysylltu'n ddyfnach ag agwedd ar eu dysgu mewn iaith a llythrennedd, a thrwy weithgareddau cael profiad.**

Mae dysgwyr o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6 yn canolbwyntio ar ddatblygu'u geirfa a'u medrau ysgrifennu creadigol drwy astudiaeth fanwl o ddramâu Shakespeare a'r Mabinogion. Maent yn datblygu cymeriadau ac yn ysgrifennu sgript yn seiliedig ar y testunau hyn, y maent yn ei berfformio i'w cyfoedion. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig yn y cyfle cyffrous hwn, gan greu eu llenyddiaeth eu hunain y maent yn hapus i'w pherfformio a'i thrafod.

Darllenwch fwy yma

68 Mewn ychydig iawn o ysgolion mwyaf effeithiol, mae staff yn defnyddio llenyddiaeth fel ysgogiad ar gyfer eu testunau neu themâu cwricwlwm. Mae hyn yn helpu sicrhau bod y cynllunio ar gyfer yr holl gyfleoedd dysgu yn 'gyfoethog o ran iaith' ac yn darparu digon o gyd-destunau ystyrlon, o fewn disgyblaethau ac ar draws disgyblaethau, i ddysgwyr ddatblygu'u medrau. Yn yr ysgolion hyn, mae dysgwyr yn cyfrannu'n gryf at gynllunio ar gyfer iaith a llythrennedd. Er enghraifft, trwy ddiwrnodau 'trochi' yn seiliedig ar lenyddiaeth, maent yn ymgysylltu ag ystod eang o weithgareddau cyflwyniadol ysgogol sy'n gysylltiedig â thestun eu dosbarth, ac yna maent yn cynnig eu hawgrymiadau ynglŷn â beth a sut yr hoffent ddysgu. Caiff hyn ei gydbwyso â barn broffesiynol athrawon i sicrhau bod dysgwyr yn cwmpasu'r medrau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt, i wneud cynnydd effeithiol ym mhob agwedd ar iaith a llythrennedd.

69 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud defnydd da o ychydig o adnoddau llythrennedd cyhoeddedig adnabyddus i gefnogi'u cynllunio ar gyfer dysgu iaith, yn enwedig ar gyfer datblygu medrau darllen cynnar ac ysgrifennu dysgwyr. Yn ogystal, mae lleoliadau ac ysgolion yn defnyddio adnoddau cynllunio defnyddiol a gynhyrchwyd gan dimau llythrennedd mewn awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol, er enghraifft i gefnogi datblygu sillafu a dealltwriaeth darllen dysgwyr.

70 Lle mae'r cynllunio ar gyfer dysgu yn fwyaf effeithiol, mae lleoliadau ac ysgolion yn defnyddio adnoddau cyhoeddedig yn llwyddiannus i ddatblygu'u cynlluniau gwaith eu hunain, gan addasu'r adnoddau i fodloni anghenion eu dysgwyr. Yn yr achosion hyn, mae staff yn gwneud dewisiadau synhwyrol, sy'n adeiladu ar eu hymagweddau effeithiol presennol at ddysgu iaith, ac yn eu hategu, fel rhan o'u strategaeth addysgu a dysgu ysgol gyfan. Yn aml, maent yn defnyddio mwy nag un adnodd, gan gydnabod diffygion neu fylchau mewn rhaglenni datblygiadol unigol.

71 Yn gyffredinol, nid oes digon o ysgolion yn meddwl yn feirniadol am b'un a yw'r adnoddau a'r ymagweddau y maent yn eu defnyddio i gefnogi'u cynllunio wedi'u llywio'n ddigon da gan dystiolaeth ac ymchwil i arfer effeithiol. O ganlyniad, nid yw disgyblion oedran cynradd hŷn, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl, bob amser yn elwa o ystod addas o ymagweddau i ymestyn eu medrau darllen ac ysgrifennu.

# Addysgu ac asesu

**72** Yn y lleoliadau nas cynhelir a'r dosbarthiadau meithrin mwyaf effeithiol, mae ymarferwyr yn cyfuno datblygu medrau iaith a chyfathrebu plant trwy gydbwysedd priodol o weithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn a gweithgareddau wedi'u hysgogi gan y plentyn, gyda dealltwriaeth gryf o ddatblygiad plant. Defnyddiant y ddealltwriaeth hon i gynllunio tasgau ar lefel briodol, ac nid ydynt yn cyflwyno plant i gysyniadau iaith newydd cyn eu bod yn barod nac yn ceisio gorfodi'u dysgu, er enghraifft trwy gyflwyno plant i lythrennau drwy addysgu ffoneg cyn eu bod ar gam datblygiadol addas.

**73** Yn gynyddol, wrth ymateb i ddatblygiadau'r *Cwricwlwm i Gymru*, mae ysgolion cynradd yn defnyddio ystod eang o gyd-destunau difyr go iawn a llawn dychymyg i ddatblygu neu ehangu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr. Mae athrawon sydd â dealltwriaeth gryf o sut mae plant yn datblygu iaith yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o ddiben, cynulleidfa fwriadedig, strwythur a nodweddion iaith mathau gwahanol o destunau ysgrifenedig a lleferydd. Maent yn sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio'r ffurfiau gwahanol hyn yn eu sesiynau iaith ac yn dylunio cyfleoedd pwrpasol i ddysgwyr gymhwyso'u medrau yn annibynnol y tu allan i sesiynau iaith.

**74** Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn sicrhau bod dealltwriaeth briodol gan ddysgwyr o'r hyn y byddant yn ei ddysgu, a sut mae hyn yn cysylltu â gweithgareddau iaith a llythrennedd blaenorol. Mewn llawer o achosion, maent yn sicrhau hefyd fod dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i fod yn llwyddiannus yn eu dysgu, er enghraifft, trwy ddarparu modelau effeithiol o fathau gwahanol o ysgrifennu. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw athrawon yn holi dysgwyr yn ddigon gofalus i sgaffaldu a hyrwyddo'u medrau iaith



a llythrennedd gystal ag y gallent. Maent yn colli cyfleoedd i gynnwys dysgwyr unigol mewn deialog estynedig er mwyn ysgogi meddwl ymhellach, ac i'w cynorthwyo i ddysgu sut i resymu, trafod, dadlau, ac egluro.

75 Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn defnyddio adborth llafar ac ysgrifenedig yn dda i sicrhau bod dysgwyr yn deall eu cryfderau a sut i wella'u galluoedd iaith. Mewn mwyafrif o achosion, maent yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddysgwyr ymateb yn ystyrlon i sylwadau staff, neu gyfoedion, yn ystod gweithgareddau neu mewn gwersi dilynol. Mewn ysgolion lle mae adborth yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn datblygu technegau sy'n bwrpasol ac effeithlon, ac nad ydynt yn arwain atynt yn creu meintiau mawr o sylwadau ysgrifenedig, sy'n cael effaith gyfyngedig ar y cynnydd a wneir gan ddysgwyr. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn rhoi adborth i ddysgwyr trwy gydol y broses ysgrifennu ac yn addysgu dysgwyr sut i fonitro'u cynnydd eu hunain tuag at eu nodau dysgu yn llwyddiannus. **Gallwch ddarllen am y ffordd y mae Ysgol Gynradd Trinant yn gwneud hyn ar dudalennau 157 i 158**.

## Datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr

76 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn datblygu medrau iaith a chyfathrebu plant yn llwyddiannus trwy weithgareddau pwrpasol dan do ac yn yr awyr agored. Mae ymarferwyr yn modelu iaith mewn chwarae rôl yn dda i gefnogi lleferydd plant ac i ddatblygu sylfeini iaith, fel cystrawen a chyd-destun. **Gallwch ddarllen mwy am yr arferion hyn ar dudalennau 136 i 144.**

**Mewn un dosbarth meithrin, mae ymarferwyr yn defnyddio chwarae creadigol i gefnogi datblygiad iaith plant yn llwyddiannus.**

Maent yn modelu iaith mewn chwarae rôl wrth esgus mynd ar awyren a'i hedfan. Maent yn cyflwyno iaith gysylltiedig newydd ac yn gofyn cwestiynau sy'n annog plant i feddwl drostynt eu hunain. Maent yn asesu dealltwriaeth dysgwyr o arddodiadau cyffredin, fel on', 'under', 'front' a 'behind'. Mae plant yn dysgu i ddilyn a rhoi cyfarwyddiadau aml-gam, er enghraifft pan fydd 'y gwasanaethydd awyren' yn gofyn i deithwyr roi eu bagiau yn y cwpwrdd clo, eistedd i lawr a chau eu gwregys diogelwch.

Mae rhyngweithio ystyriol gydag oedolion yn fuddiol i fedrau cymdeithasol a chyfathrebu plant, wrth iddyn nhw ddysgu defnyddio cyswllt llygaid, cymryd eu tro a gwrando ar ei gilydd.

Darllenwch fwy yma

**Mae staff yn yr ysgol hon yn gwneud defnydd effeithiol o fodelu iaith i ddarparu cymorth dilys, ymarferol i helpu datblygu iaith lafar ac ysgrifenedig dysgwyr ifanc.**

Maent yn ffurfio perthnasoedd buddiol gyda dysgwyr ac yn eu cyflwyno'n raddol i iaith berthnasol, gan ailadrodd geiriau allweddol, fel iaith gyfarwyddol ar gyfer coginio. I wneud yn iawn am ystod gul profiadau bywyd llawer o ddysgwyr, maent yn ysgogi profiadau gwahanol, fel ymweliad â glan y môr, gan ddefnyddio amgylchedd awyr agored yr ysgol. Mae dysgwyr yn elwa ar ryngweithio un i un neu mewn grwpiau bach i ddatblygu medrau iaith derbyn a mynegiannol ac, er enghraifft, defnyddio'r profiadau ymarferol hyn i ddatblygu'u hysgrifennu disgrifiadol eu hunain am lan y môr.

Darllenwch fwy yma

**Mae athrawon yn Ysgol Gynradd Woodlands yn cydnabod nad yw medrau gwrando lleiafrif o blant wedi'u datblygu'n ddigonol pan fyddant yn dechrau'r ysgol.**

Yn aml, nid yw'r medrau gan blant i ynysu seiniau y maent yn eu clywed yn yr amgylchedd neu mewn geiriau. Maent yn canolbwyntio ar air olaf brawddeg neu gyfarwyddyd yn fynych, ac yn seilio'u hymateb ar yr un gair hwnnw'n unig. I gynorthwyo'r plant hyn, mae'r dosbarth meithrin yn canolbwyntio ar waith 'sain' rhagarweiniol, fel copïo patrymau syml gan ddefnyddio clapio ac offerynnau cerdd. Mae hyn yn helpu'r plant i ganfod seiniau a gwahaniaethu rhwng seiniau, ac yn darparu'r sylfeini ar gyfer datblygu'u lleferydd, eu hymwybyddiaeth ffonolegol a'u darllen.

Darllenwch fwy yma



77 Mewn lleoliadau ac ysgolion lle ceir arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen, mae staff yn cydnabod mai iaith drafodaethol y mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o bob cefndir yn ei chlywed yn fwy nag unrhyw fath arall o iaith gartref ac yn yr ysgol. Er enghraifft, mae oedolion yn gofyn cwestiynau iddynt fel, 'Wyt ti wedi brwsio dy ddannedd?' ac yn rhoi cyfarwyddyd fel, 'Gwisga dy esgidiau'. Maent yn sylweddoli nad yw dysgwyr, yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig, yn clywed iaith gyfoethog disgrifiadau a naratif yn ddigon aml sy'n eu cyflwyno i eiriau newydd neu batrymau brawddegau sy'n eu helpu i ddefnyddio ystod o amseroedd. Yn y lleoliadau a'r ysgolion hyn, mae oedolion yn eu cynorthwyo'n llwyddiannus i ddefnyddio rhagenwau, berfau cynorthwyol fel 'can', 'will' neu 'might', a therfynau geiriau fel yn 'I have finished my drawing'. **Gallwch gael gwybod am ymagwedd strwythuredig iawn Ysgol Heulfan at asesu a datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol ar dudalennau 141 i 142.**

## Lleferydd cyfyngedig, neu ddim lleferydd o gwbl, sydd gan gyfran uchel o ddysgwyr pan fyddant yn ymuno â'r dosbarth meithrin yn Ysgol Heulfan.

Mae'r holl staff yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio iaith arwyddion sylfaenol gyda dysgwyr trwy gydol y dydd, ac mae'r ysgol yn darparu sesiynau i rieni ar iaith arwyddion trwy brosiect Ymgysylltu â Theuluoedd a'r Gymuned sy'n eu helpu i ddeall sut i gynorthwyo'u plant yn effeithiol. Yn raddol, mae staff yn cyflwyno dysgwyr i ddiwylliant dwyieithog a phan ddaw eu lleferydd yn eglur, a phan fydd ganddynt ddealltwriaeth sicr o eirfa yn Saesneg a Chymraeg, mae staff yn rhoi'r gorau i ddefnyddio arwyddion.

Mae dysgwyr hŷn cyfnod allweddol 2 yn ymweld â'r dosbarthiadau meithrin i helpu datblygu medrau cyfathrebu dysgwyr iau. Trwy strategaethau, fel ailadrodd a modelu, a defnyddio ffurfiau cyfathrebu eraill, mae staff a dysgwyr cyfnod allweddol 2 yn cynorthwyo plant meithrin yn dda i ddod yn gyfarwydd â phatrymau a rhythmau'r ddwy iaith.

Darllenwch fwy yma

78 Un nodwedd gyffredin ymhlith lleoliadau â darpariaeth ragorol yw eu defnydd helaeth o'r gymuned leol i gefnogi dysgu iaith, trwy ymweld â mannau o ddiddordeb a gwahodd ymwelwyr i rannu profiadau gyda'r plant. **Mae'r enghreifftiau o arfer ar dudalennau 145 i 146 yn dangos sut mae lleoliadau ac ysgolion yn defnyddio'r ardal leol a'i hanes i ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn llwyddiannus.**

**Mae defnyddio'r ardal leol yn darparu cyd-destun cyfoethog ar gyfer datblygu geirfa plant ifanc, ac yn eu helpu i ehangu ystod y testunau y gallant eu trafod.**

Yn dilyn awgrym y plant y byddent yn hoffi dysgu am fôr-ladron, mae ymarferwyr mewn lleoliad nas cynhelir yn trefnu taith i'r traeth lleol lle mae'r plant yn gwisgo i fyny fel môr-ladron ac yn disgrifio'u golwg. Maent yn teithio ar y bws lleol, yn cyfarch y gyrrwr ac yn prynu'u tocynnau. Maent yn disgrifio siapiau, ansawdd a lliwiau'r cregyn y maent yn eu casglu, yn ogystal â 'cherdded y planc'! Mae'r profiadau hyn yn helpu'r plant i ddatblygu strwythur eu hiaith lafar, fel ei bod yn dechrau ymdebygu i frawddegau tebyg i oedolion.

Darllenwch fwy yma



**Mae athrawon mewn ysgol gynradd yn defnyddio hanes lleol i ddatblygu medrau gwrando, siarad ac ysgrifennu dysgwyr.**

Yn y thema 'Teithiwr Amser', mae dysgwyr Blwyddyn 5 yn teithio'n ôl 50 mlynedd i amser pan oedd trigolion lleol yn gwrthwynebu cynlluniau'r Weinyddiaeth Amddiffyn i droi traeth Cefn Sidan yn faes tanio. Mae aelodau'r gymuned leol yn ymweld â'r ysgol i siarad â dysgwyr ac i ateb eu cwestiynau ynglŷn â'r digwyddiadau hyn. Mae hyn yn rhoi cyd-destun go iawn iddynt i ddatblygu iaith rhyngweithio cymdeithasol, defnyddio confensiynau priodol wrth gyfweld, dewis geirfa i greu effaith, a darparu dadleuon argyhoeddiadol a thystiolaeth i gefnogi safbwynt wrth ysgrifennu araith brotest.

Darllenwch fwy yma



79 Mae'r ysgolion cynradd mwyaf effeithiol yn defnyddio cyd-destunau cyfoethog ac amrywiol i addysgu dysgwyr 'sut' i wrando a siarad. Maent yn cynllunio profiadau dysgu perthnasol sy'n helpu dysgwyr i feddwl yn ofalus ac yn bwyllog am y mathau o iaith y maent yn eu clywed a'u defnyddio. Maent yn cynorthwyo dysgwyr i fynegi a strwythuro'u meddyliau a'u syniadau yn effeithiol at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol, gan gynnwys wrth siarad yn gyhoeddus neu berfformio. **Ar dudalennau 147 i 148, gallwch ganfod mwy am sut mae Ysgol Gynradd Gaer yn datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr hŷn.**

**Mae staff yn Ysgol Gynradd Gaer yn cysylltu gweithgareddau gwrando a siarad â phynciau cyfoes, er enghraifft 'Brexit', i ddatblygu galluoedd dysgwyr cyfnod allweddol 2 i wrando'n barchus ar ei gilydd a datblygu'u safbwyntiau ymhellach.**

Mae dysgwyr yn archwilio sut mae siaradwyr sefydledig, fel gwleidyddion, yn gwrando ar gwestiynau ac yn ymateb iddynt, ac yn defnyddio ffeithiau a ffigurau i gefnogi'u safbwynt. Mae athrawon yn annog dysgwyr i feddwl mewn ffyrdd gwahanol, boed yn emosiynol, yn greadigol neu'n rhesymegol. Mae hyn wedi helpu dysgwyr i wella'u hysgrifennu trafodol trwy ymagwedd gytbwys ac ystyrgar, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyrau am faterion lleol.

Darllenwch fwy yma

80 Pan fydd athrawon yn darparu cyfleoedd dilys a difyr, mae dysgwyr yn dyfnhau'u dealltwriaeth o bynciau a chysyniadau trwy wrando a siarad. Maent yn dysgu trafod syniadau cymhleth, herio ac adeiladu ar feddwl ei gilydd, dadansoddi, gwerthuso a myfyrio. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn gofyn cwestiynau treiddgar, sy'n archwilio dealltwriaeth dysgwyr, ond gan eu herio ar yr un pryd i ddatblygu'u hymatebion llafar. Mewn ychydig o ysgolion lle mae addysgu yn wan, mae athrawon

yn or-ddibynnol ar gwestiynau caeedig, sy'n ddefnyddiol ar gyfer sefydlu gwybodaeth dysgwyr a'u gallu i gofio, ond nad ydynt yn cynnig cyfle digonol iddynt ddatblygu'u medrau siarad.

81 Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn elwa o ddigon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn profiadau dysgu sy'n canolbwyntio'n benodol ar siarad, er enghraifft i wella eu gallu i holi, herio ac adeiladu ar gyfraniadau dysgwyr eraill trwy drafod. Mae hyn yn aml oherwydd, mewn ysgolion llai effeithiol, mae gwrando a siarad yn cael eu hystyried yn fedrau sy'n cefnogi dysgu ac ysgrifennu, yn hytrach nag fel medrau y mae angen eu datblygu ynddynt eu hunain. Yn aml, mae ymyriadau a sylwadau athrawon yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar yr hyn y mae dysgwyr yn siarad amdano yn hytrach nag ar y modd y maent yn ei ddweud hefyd. Yn ddiweddar, gyda chymorth gan eu consortiwm rhanbarthol, er enghraifft, mae mwy o ysgolion yn dechrau ystyried sut gallant wella'u darpariaeth ar gyfer datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr.

## Datblygu medrau darllen dysgwyr

82 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir ac ysgolion meithrin yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu medrau cyn-ddarllen plant, gan gynnwys eu hymwybyddiaeth ffonolegol, trwy ganeuon, rhigymau a cherddoriaeth. Maent yn trochi plant mewn amgylcheddau cyfoethog o ran iaith, dan do ac yn yr awyr agored, lle mae plant yn archwilio seiniau, print a storïau. Yn y lleoliadau mwyaf effeithiol, caiff plant fynediad parhaus at lyfrau ym mhob maes darpariaeth. Mae staff yn cynnig cyfleoedd strwythuredig yn ddyddiol i blant glywed storïau ac maent yn modelu sut i drin llyfrau. Maent yn defnyddio propiau i annog plant i ailadrodd ac ail-greu chwedlau traddodiadol a hwiangerddi. Dim ond pan fydd plant unigol yn barod yn ddatblygiadol y maent yn cyflwyno addysgu cyfatebiaeth llythrennau-sain.

83 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn cynllunio'n briodol ar gyfer dilyniant mewn datblygiad darllen dysgwyr ar draws yr ysgol. Maent yn datblygu medrau darllen cynnar dysgwyr yn llwyddiannus, gan gydbwyso datblygu ymwybyddiaeth ffonemig a medrau dealltwriaeth wrth iddynt symud drwy'r cyfnod sylfaen fel bod llawer o ddysgwyr, erbyn diwedd Blwyddyn 2, yn cyflawni rhuglder a chywirdeb priodol yn eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu deiet darllen i ddisgyblion sy'n helpu i hyrwyddo'u dealltwriaeth darllen a datblygu'u medrau ymchwil yn addas. Mewn ychydig o ysgolion lle nad yw dysgwyr yn gwella'u medrau darllen yn ddigon da o flwyddyn i flwyddyn, mae hyn yn aml oherwydd nad oes ymagwedd ysgol gyfan at ddatblygu'u medrau datgodio, eu gwybodaeth am eirfa a'u hymateb i'r hyn maent yn ei ddarllen.

84 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae eu hymagwedd systematig a chyson at addysgu ffoneg wedi gwreiddio'n dda ac yn cael ei chynnal dros gyfnod. Yn ogystal, mae staff yn talu sylw priodol i ddatblygu geirfa gweld dysgwyr a'u gallu i adnabod geiriau sy'n digwydd yn fynych, er mwyn gwella'u medrau datgodio a'u rhuglder darllen. Yn yr ysgolion hyn, mae arbenigedd cryf gan gynorthwywyr cymorth dysgu mewn addysgu gwybodaeth ffonemig dysgwyr. Maent yn cefnogi dysgwyr yn dda drwy ymyriadau, lle maent yn ymarfer strategaethau darllen pwysig gyda dysgwyr, fel segmentu ffonemau a defnyddio'r cyd-destun i ragfynegi geiriau dieithr. Maent yn monitro cynnydd darllen dysgwyr yn fanwl ac yn addasu'u haddysgu yn addas wrth ymateb i anghenion unigol dysgwyr.

85 Mae bron yr holl ysgolion cynradd yn defnyddio cynlluniau cyhoeddedig i gefnogi'u haddysgu mewn ffoneg, ac mae llawer yn gwneud hynny'n llwyddiannus. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw staff yn rhoi digon o ystyriaeth i gamau datblygiadol dysgwyr cyn cyflwyno addysgu ffoneg yn ffurfiol. Mae hyn yn golygu, o ran dysgwyr â medrau iaith a chyfathrebu sydd heb eu datblygu'n ddigonol, fel ymwybyddiaeth wael o ffonoleg, eu bod yn cael anhawster gwneud y cysylltiad rhwng llythrennau a seiniau. Mae hyn

yn digwydd yn llai mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion meithrin, nag mewn dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd.

86 Mae'n gyffredin i'r ysgolion mwyaf effeithiol fod â strategaeth wedi'i diffinio'n glir sy'n cynnwys trefniadau ysgol gyfan 'nad ydynt yn agored i drafodaeth' sy'n pennu sut a phryd yr addysgir darllen i ddysgwyr, a'r profiadau y dylent eu cael. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu darllen dysgwyr ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus iawn. Maent yn addysgu ystod eang o strategaethau darllen mewn gwersi iaith a llythrennedd ar wahân, ac yna'n cynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer y strategaethau hyn a chymhwyso'u medrau darllen i gael gwybodaeth drwy eu gwaith testun.

87 Mae ysgolion sy'n datblygu darllen yn llwyddiannus yn ei addysgu'n llwyddiannus yn ddyddiol. Lle ceir safonau da neu well, mae ysgolion yn defnyddio cyfuniad o arferion darllen, rhai wedi'u modelu, rhai dan arweiniad a rhai annibynnol yn effeithiol i addysgu darllen. Er enghraifft, mae staff yn darparu mewnbynnau addysgu â ffocws i grwpiau o ddysgwyr, wedi'u trefnu yn ôl gallu i ddarllen fel arfer. Yn yr enghreifftiau gorau, ceir carwselau o weithgareddau'n seiliedig ar ddarllen sydd wedi'u cynllunio'n dda i hyrwyddo rhuglder a chywirdeb darllen dysgwyr a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o destun. **Gallwch ddarllen enghraifft o sut mae ysgol yn defnyddio'r ymagwedd hon ar dudalennau 149 i 150**. Mae'r addysgu mwyaf effeithiol yn cynnwys 'nodweddion meddwl ar goedd', lle mae staff yn modelu strategaethau darllen yn fedrus i ddysgwyr. Mae hyn yn eu helpu i ddeall, er enghraifft, sut mae darllenydd yn mynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd neu'n ail-ganfod ystyr pan fydd wedi'i golli, a sut i ddefnyddio cliwiau mewn testun i gasglu'r ystyr neu gasglu gwybodaeth yn effeithlon. **Mae'r enghreifftiau o arfer effeithiol ar dudalennau 151 i 153 yn rhoi mwy o wybodaeth am sut mae athrawon yn gwneud hyn.**

**Ddwywaith yr wythnos, mae dysgwyr cyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan mewn carwsél o weithgareddau iaith a llythrenedd I wella'u medrau llythrennedd, gan gynnwys eu dealltwriaeth darllen a'u defnydd o strategaethau darllen, medrau adeiladu brawddegau a golygu.**

Yn eu tro, mae grwpiau unigol yn elwa ar addysgu uniongyrchol, tra bod eu cyfoedion yn gweithio'n annibynnol i ymarfer a chyfnerthu'u medrau. Mae athrawon yn modelu cwestiynau gwahaniaethol gyda'r bwriad o ddatblygu medrau ymresymu, gwerthuso a gwerthfawrogi fel bod dysgwyr yn gallu'u defnyddio'n annibynnol a gyda'i gilydd. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'u dealltwriaeth drwy ymatebion llafar, yn hytrach na thrwy atebion ysgrifenedig. Mae dysgwyr yn datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol ar lefel heriol briodol. Mae athrawon yn nodi'n union y medrau y mae ar ddysgwyr eu hangen i wella a mynd i'r afael â bylchau yn eu gwybodaeth a dealltwriaeth.

Darllenwch fwy yma

**Mewn ymagwedd ysgol gyfan, mae athrawon mewn ysgol gynradd yn adeiladu 'nodweddion meddwl ar goedd' (Harvey a Goudvis, 2013) yn y gweithgareddau addysgu a dysgu bob dydd.**

Mae hyn yn eu galluogi i nodi'n eglur a modelu i ddysgwyr sydd ar gamau gwahanol o ran rhuglder a dealltwriaeth darllen, y medrau y mae darllenwyr effeithiol yn eu cymhwyso pan fyddant yn darllen. Mae modelu prosesau meddwl yn helpu dysgwyr i gymhwyso ystod eang o strategaethau darllen pan fyddant yn darllen testunau yn annibynnol, er enghraifft, sut i ddefnyddio cliwiau i wneud synnwyr o'r hyn maent yn ei ddarllen. Mae hefyd yn eu galluogi i fonitro'u dealltwriaeth o destun wrth iddynt ddarllen, a dod yn ddarllenwyr beirniadol a chraff.

Darllenwch fwy yma

88 Yn ychwanegol at ymagweddau darllen dan arweiniad, mae ysgolion effeithiol iawn yn ymgorffori datblygu medrau darllen penodol, fel gwerthfawrogi a chyfosod, i addysgu llythrennedd ysgol gyfan yng nghyfnod allweddol 2. O ganlyniad, mae dysgwyr yn cymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft dod o hyd i wybodaeth, ei had-drefnu a'i chyflwyno ar ffurf siart llif i egluro sut mae llosgfynydd yn ffrwydro.

89 Yn yr addysgu gorau, mae staff yn datblygu dealltwriaeth ac ymateb dysgwyr i destunau trwy dechneg holi fedrus sy'n briodol i'r testun, ac oedran a cham datblygiad dysgwyr. Lle mae addysgu yn gyson dda neu'n well, mae staff fel arfer yn canolbwyntio mwy ar drafod testunau gyda dysgwyr yn fanwl trwy brofiadau darllen a rennir gyda llyfrau darluniau, 'llyfrau mawr' neu destunau ar sgrin. Mae staff yn yr ysgolion hyn yn datblygu'r medrau darllen dealltwriaeth lythrennol, ymresymu a dod i gasgliad, ad-drefnu, gwerthuso a gwerthfawrogi, ym mhob cam o'r daith ddysgu ac nid pan fydd dysgwyr yn cyrraedd Blynyddoedd 5 a 6 yn unig.

90 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ymarferion dealltwriaeth ysgrifenedig y mae dysgwyr o bob oed yn eu cwblhau mewn gwahanol feysydd o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae ansawdd a defnyddioldeb y gweithgareddau hyn o ran cefnogi datblygiad darllen yn rhy amrywiol. Lle mae darpariaeth yn fwyaf effeithiol, mae tasgau darllen yn annog dysgwyr i ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad blaenorol ac i ryngweithio gyda thestun neu ddehongli testun. Er enghraifft, maent yn ystyried mathau gwahanol o gwestiynau, a fydd yn ysgogi dyfnder dealltwriaeth ac yn galluogi asesu ystod o fedrau darllen yn ystyrlon. Mae'r ysgolion gorau yn cydnabod nad yr 'ymarferiad' darllen a deall yw'r ffordd orau o angenrheidrwydd i sicrhau dealltwriaeth dysgwyr o destun ac nid yw bob amser yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu 'gweithredol', fel darllen ar y cyd a darparu tasgau pwrpasol i ddysgwyr, i'w helpu i ddarllen er mwyn dysgu. **Mae'r astudiaeth achos ar dudalennau 154 i 156 yn dangos sut mae Ysgol Gynradd Tywyn yn annog dysgwyr i ryngweithio â thestunau er mwyn datblygu'u medrau darllen a siarad.**

**Mae athrawon yn Ysgol Gynradd Tywyn yn gwneud defnydd effeithiol o farddoniaeth i ddatblygu medrau darllen a siarad dysgwyr ym Mlynyddoedd 5 a 6.**

Maent yn defnyddio'r faled 'Timothy Winters' gan Charles Causley i ddatblygu medrau darllen datblygedig dysgwyr, sef ymresymu, dod i gasgliad, gwerthuso a gwerthfawrogi. Mae cwestiynau perthnasol a thrafod yn ehangach yn helpu dysgwyr i ddeall a chynnig sylwadau ar gymeriadau a themâu sylfaenol heriol y gerdd. Hefyd, caiff dysgwyr gyfle i weld fersiynau wedi'u hanimeiddio o'r testun a thrafod delweddau, cerddoriaeth, effeithiau sain a distawrwydd. Yna, mae athrawon yn herio dysgwyr i ymgymryd â rôl cymeriad a chydweithio i greu eu meini prawf llwyddo eu hunain ar gyfer her drama grŵp. Mae dysgwyr yn defnyddio'r meini prawf llwyddo yn bwrpasol i ddarparu beirniadaeth adeiladol i'w gilydd yn ystod eu hymarferion ac ar ôl eu perfformiadau terfynol.

Darllenwch fwy yma

91 Lle mae ysgolion cynradd yn creu diwylliant darllen yn llwyddiannus, mae'n seiliedig ar y gred bod gallu darllen yn dda yn fedr bywyd allweddol i blant, beth bynnag yw eu cefndir. Cred yr ysgolion hyn y gall pob plentyn ddysgu darllen gyda'r addysgu a'r cymorth iawn, gan gydnabod na fydd pob plentyn wedi cael y cyfle i ddatblygu hoffter o ddarllen gartref. Felly, mae'n rhaid ei addysgu a'i annog yn yr ysgol – fel unrhyw faes arall o'r cwricwlwm. Yn aml, mae'r ysgolion hyn yn datblygu strategaeth ysgol gyfan ar gyfer hyrwyddo darllen er pleser, ac yn adeiladu amser i'r holl blant, gan gynnwys darllenwyr amharod, i ddarllen yn annibynnol, darllen ar goedd a chael rhywun i ddarllen iddynt yn ystod y diwrnod ysgol. **Rydym yn archwilio sut mae ysgolion yn datblygu diwylliant darllen, yn fanylach, ar dudalennau 91 i 100.**

## Datblygu medrau ysgrifennu dysgwyr

92 Yn gyffredinol, gwnaed gwelliannau i addysgu agweddau ar ysgrifennu mewn ysgolion cynradd dros y blynyddoedd diwethaf, gydag addysgu mwy penodol o'r wybodaeth y mae ei hangen ar ddysgwyr i gyfansoddi eu testunau eu hunain at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol. Mae gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda yn ennyn brwdfrydedd ac yn cymell dysgwyr ac yn bodloni'u hanghenion dysgu. Yn aml, caiff yr ysgrifennu gorau ei ysgogi drwy fod dysgwyr yn ymwneud yn fanwl â dewis eu testun ar gyfer ysgrifennu, cael profiad go iawn, ymgysylltu â llenyddiaeth gyffrous ac ymateb i ddigwyddiadau digymell, sy'n cipio'u diddordeb a'u dychymyg. Mae'r athrawon gorau yn gwneud defnydd medrus o ddulliau, fel modelu, i ddatblygu medrau ysgrifennu dysgwyr. Yn yr ychydig iawn o ysgolion mwyaf effeithiol, mae athrawon yn cytuno sut i addysgu sillafu, adeiladu brawddegau, atalnodi a gramadeg, mewn ffyrdd sy'n briodol i ddysgwyr ar gamau gwahanol o ddatblygu ysgrifennu. Mae ychydig iawn o ysgolion yn defnyddio dyfeisiau electronig fel gliniaduron, byrddau gwyn rhyngweithiol a llechi yn arbennig o effeithiol, i ddatblygu a gwella galluoedd ysgrifennu dysgwyr. **Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am hyn ar dudalennau 157 i 158.**

**Yn Ysgol Gynradd Trinant, mae athrawon yn darparu adborth llafar effeithiol i ddysgwyr yn hytrach nag adborth ysgrifenedig hir, sy'n eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am nodi a gwneud gwelliannau i'w hysgrifennu.**

Mae athrawon yn nodi agweddau penodol ar ysgrifennu llwyddianus ac yn herio dysgwyr i adolygu'u gwaith wrth fynd ymlaen. Mae'r defnydd effeithiol o ddelweddwr i rannu gwaith dysgwyr yn cefnogi myfyrio 'ar y pryd' a gwelliant dilynol. Mae dysgwyr yn myfyrio'n bwrpasol ar eu gwaith ac yn cael amser i ailddrafftio a mireinio'u hysgrifennu yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth dda o ysgrifennu 'fel proses' a pham y mae'n bwysig gwneud newidiadau er mwyn ei wella.

Darllenwch fwy yma

**93** Mewn lleoliadau a dosbarthiadau meithrin lle mae darpariaeth ar gyfer datblygu ysgrifennu plant yn effeithiol, mae dealltwriaeth gryf gan ymarferwyr o sut i gefnogi ysgrifennu ymddangosol. Er enghraifft, maent yn annog plant i ailadrodd stori, fel Little Red Hen, gan ddefnyddio ystod o offer i wneud marciau a darluniau. Mae plant yn mwynhau'r cyfle i 'ddarllen' ar goedd yr 'ysgrifennu' y maent wedi'i greu. Yn y lleoliadau a'r dosbarthiadau meithrin hyn, mae ymarferwyr yn cynnig ystod o gyfleoedd cyffrous i blant ddatblygu'u dealltwriaeth o ysgrifennu at ddibenion gwahanol mewn cyd-destunau go iawn neu ddychmygus, fel wrth ysgrifennu labeli ar gyfer bylbiau cennin Pedr y maent yn eu plannu, neu wrth gofnodi'u rysáit ar gyfer pei pwmpen mewn cegin fwd.

**94** Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn defnyddio dulliau priodol i gynorthwyo dysgwyr iau i ffurfio llythrennau'n gywir, fel y sail ar gyfer datblygu arddull llawysgrifen rugl. Maent yn darparu gweithgareddau pwrpasol yn rheolaidd i ddysgwyr ymarfer y medrau hanfodol hyn ac yn cynnig adborth effeithiol, gan dynnu sylw dysgwyr at yr agweddau penodol ar eu hysgrifennu y maent wedi'u gwella, er enghraifft, 'Fe wnes di gofio croesi dy lythyren 't' y tro hwn'. Yn bwysig, maent yn annog ac yn cefnogi ymdrech bellach ac yn darparu arweiniad manwl gywir ar sut i wella'r tro nesaf.

**95** Mae ysgolion sy'n addysgu ysgrifennu yn effeithiol, yn addysgu sillafu yn benodol. Mewn lleiafrif o ysgolion lle nad yw addysgu ysgrifennu wedi'i ddatblygu'n ddigonol, mae athrawon yn aml yn 'cynnal prawf' ar sillafu dysgwyr ond nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd iddynt ddysgu am batrymau geiriau a strategaethau sillafu. Yn fynych, mae hyn oherwydd bod bylchau yng ngwybodaeth athrawon eu hunain am sut y mae'r system sillafu Saesneg yn gweithio, ac yn benodol, eu dealltwriaeth o sut y gall morffoleg a geirdarddiad gynorthwyo datblygiad sillafu dysgwyr. **Ar dudalennau 159 i 163, rydym yn darparu enghreifftiau o'r modd y mae ysgolion yn defnyddio gweithgareddau dysgu proffesiynol i wella addysgu sillafu.**

**Mae un ysgol wedi rhoi blaenoriaeth i sillafu dysgwyr yn ei chynllun gwella.**

Mae staff yn elwa o sesiynau dysgu proffesiynol wythnosol i drafod ymchwil i ddatblygiad sillafu. Mae gwella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sillafu yn yr iaith Saesneg, a'i chymhlethdod, yn eu helpu i ddatblygu ymagweddau addysgu a dysgu effeithiol i wella sillafu dysgwyr, fel agwedd benodol ar eu datblygiad ysgrifennu. Drwy ystyried dulliau addysgu yn ofalus, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar sillafu sy'n mynnu bod dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth ffonolegol, orthograffig a morffolegol, mae ymarferwyr wedi nodi'r angen i dreulio mwy o amser yn addysgu dysgwyr am ragddodiaid, ôl-ddodiaid a gwraidd geiriau.

Darllenwch fwy yma

**Mewn un ysgol plant iau, mae staff yn canolbwyntio ar wella'u gwybodaeth am sut y mae'r system sillafu yn gweithio drwy ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol.**


Maent yn datblygu hyder i ddadansoddi gwallau sillafu dysgwyr ac ystyried beth mae'r gwallau hynny'n dweud wrthynt am gam datblygu sillafu dysgwyr. Maent yn dadansoddi sillafu ar draws grwpiau o ddysgwyr yn eu dosbarthiadau, gan nodi gwallau cyffredin a phatrymau camsillafu sy'n llywio'u haddysgu sillafu ar ôl hynny am hanner tymor ym mhynciau'r cwricwlwm presennol a thestunau a rennir. Mae dysgwyr yn adolygu ac yn nodi ble maent wedi sillafu geiriau yn gywir, lle'r oeddent wedi gwneud camgymeriadau o'r blaen ac yn defnyddio'u gwybodaeth o'r sesiynau addysgu i gywiro'u camsillafu. Maent yn dod yn fwy hyderus yn eu gwybodaeth am berthnasoedd rhwng llythrennau a seiniau, rhannau geiriau, patrymau llythrennau a tharddiadau geiriau i 'roi cynnig arni' a monitro'u sillafu eu hunain.

Darllenwch fwy yma

**Mae ysgol arall wedi archwilio ffyrdd i helpu dysgwyr drosglwyddo'u gwybodaeth am sillafiadau a ddysgwyd i'w hysgrifennu annibynnol.**

Bob wythnos, mae athrawon yn dewis deg gair, sy'n cyfateb yn dda i allu sillafu presennol dysgwyr, iddyn nhw eu dysgu. Maent yn darparu gweithdai sillafu ar gyfer rhieni, i ddangos strategaethau gwahanol i helpu dysgwyr ymarfer a dysgu sillafiadau. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau fel creu croeseiriau a rhigymau sillafu sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn effeithiol ac yn helpu meithrin chwilfrydedd mewn geiriau ac ysgrifennu. Drwy weithio'n agos â rhieni, mae staff yn helpu datblygu addysgeg sillafu effeithiol yn yr ysgol a gartref, ac yn mynd i'r afael â chamsyniadau ynghylch sillafu.

Darllenwch fwy yma



96 Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd priodol o gynlluniau masnachol i helpu dysgwyr ddatblygu medrau adeiladu brawddegau a chyflawni safonau atalnodi a gramadeg sy'n addas i'w hoedran. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae athrawon yn integreiddio syniadau o'r adnoddau hyn gyda'u gwybodaeth am y ffordd orau i gael dysgwyr i ymgysylltu'n llwyddiannus. Yn aml, mae hyn yn gweithio orau pan fydd yr addysgu'n rhyngweithiol, yn ymwneud â'r testun a'r math o destun y mae dysgwyr yn eu hastudio ar y pryd, a phan fydd dysgwyr yn cael cyfleoedd pwrpasol a rheolaidd i ddefnyddio a chymhwyso'r medrau 'sydd wrthi'n cael eu datblygu'. Mae addysgu'n llai effeithiol pan fydd medrau ar lefel brawddegau yn cael eu haddysgu ar wahân ac nid yw dysgwyr yn cael digon o amser i'w hymarfer mewn ffyrdd ystyrlon.

**Gallwch ddarllen am sut mae Ysgol Gynradd Gaer yn defnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth yn llwyddiannus i ddatblygu medrau cyfansoddi a thrawsgrifio dysgwyr ar dudalennau 164 i 165.**

## Mae athrawon yn Ysgol Gynradd Gaer yn defnyddio cyfuniad o ddulliau'n seiliedig ar dystiolaeth i wella medrau cyfansoddi a thrawsgrifio dysgwyr.

Mae'r holl dasgau iaith a llythrennedd wedi'u seilio ar destun (ysgrifenedig neu weledol) neu arteffact. Mae'r dewisiadau hyn, sy'n anarferol yn aml, yn ennyn ac yn ysgogi diddordebau dysgwyr. Mae dysgwyr yn cael profiad o fodelau ysgrifennu ac yn archwilio'u strwythur, trefniant a nodweddion iaith. Mae hyn yn helpu sefydlu disgwyliadau uchel priodol ar gyfer ysgrifennu dysgwyr eu hunain. Mae'r defnydd o 'fapiau meddwl' yn cynorthwyo dysgwyr i strwythuro'u syniadau, ystyried adeiladwaith brawddegau a datblygu'u geirfa. Mae adborth gan athrawon ac asesiadau cyfoedion yn erbyn meini prawf llwyddiant manwl yn helpu dysgwyr i adolygu a mireinio'u hysgrifennu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu'n ysgrifenwyr hyderus, cymwys ac annibynnol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Darllenwch fwy yma

**97** Mae gwybodaeth gadarn gan y rhan fwyaf o athrawon am wahanol fathau o destun llenyddol ac anllenyddol. Mewn llawer o ysgolion, lle mae safonau addysgu yn dda, mae staff yn addysgu nodweddon a chonfensiynau ffurfiau a genres yn effeithiol. Yn gynyddol, wrth iddynt ystyried y cwricwlwm newydd, mae athrawon yn darparu rheswm gwirioneddol i ddysgwyr ysgrifennu a chynulleidfa i ysgrifennu ar ei chyfer, er enghraifft, trwy ddefnyddio materion cyfoes, trefnu ymweliadau â mannau o ddiddordeb, gwahodd ymwelwyr i'r ysgol a chael ffocws ysgol gyfan. **Mae'r astudiaeth achos ar dudalennau 134 i 135 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y modd y mae Ysgol Gynradd Ewloe yn darparu diben clir i ddysgwyr ar gyfer datblygu'u medrau ysgrifennu.**

**98** Lle ceir diffygion wrth wneud cynnydd â medrau ysgrifennu dysgwyr, nid oes digon o ymwybyddiaeth gan athrawon bob amser o'r cyfleoedd y mae dysgwyr wedi'u cael i ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol mewn blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, nid yw athrawon bob amser yn adeiladu'n ddigon da ar wybodaeth bresennol dysgwyr am strwythur, trefniant a nodweddion mathau penodol o destun ac yn treulio gormod o amser yn cyfnerthu'r hyn y mae dysgwyr eisoes yn ei wybod. Yn rhy aml, yn y sefyllfaoedd hyn, mae eu disgwyliadau o ysgrifennu dysgwyr, yn enwedig y rheini sy'n fwy abl, yn rhy isel. Nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n rhydd gan ddefnyddio'r ystod o fedrau ysgrifennu sydd ganddynt yn barod, ac mae hyn yn arafu'u cynnydd. Mae'r addysgu yn rhy gyfarwyddol yn aml, hyd yn oed lle bydd gan ddysgwyr dealltwriaeth ddigon da o'r ffurf eisoes i ysgrifennu ar eu pennau'u hunain. I'r gwrthwynebu, nid yw athrawon bob amser yn darparu sgaffaldu digonol am gyfnod ddigon hir ar gyfer ysgrifenwyr gwannach ychwaith.

**99** Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig nawr nag oeddent yn y cylch arolygu diwethaf. Mae llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddysgwyr o bob oed feddwl am syniadau, a'u cynllunio a'u trefnu, gan ddefnyddio ystod o awgrymiadau a threfnyddion defnyddiol, cyn ysgrifennu. Pan fydd yr addysgu'n fwyaf effeithiol, mae dysgwyr yn deall ysgrifennu fel proses. Mae athrawon

yn eu helpu i ddatblygu ystod o strategaethau i ddrafftio, gwerthuso a mireinio'u hysgrifennu yn llwyddiannus.

100 Mae ansawdd cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig a'r disgwyliad i ddysgwyr wirio, cywiro ac ailddrafftio'u gwaith, yn llawer rhy amrywiol o hyd. Hyd yn oed mewn lleiafrif o ysgolion cynradd lle mae dysgwyr yn datblygu medru golygu defnyddiol i wirio a gwella cywirdeb eu hysgrifennu, ychydig o athrawon sy'n helpu dysgwyr i wella cynnwys a strwythur eu hysgrifennu yn ddigon da. Lle ceir diffygion yn yr addysgu, nid yw athrawon yn nodi'r gwendidau yn ysgrifennu dysgwyr yn fanwl. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r athro benderfynu beth yw'r camau nesaf gorau i ddysgwyr, ac i ddysgwyr wybod ble i ganolbwyntio'u hymdrechion er mwyn gwella'u medrau ysgrifennu.

## Datblygu geirfa dysgwyr

101 Mewn llawer o ysgolion, lle mae datblygiad geirfa dysgwyr yn dda yn gyffredinol, mae staff yn trochi dysgwyr mewn amgylcheddau dysgu sy'n gyfoethog o ran iaith. Er enghraifft, maent yn creu waliau neu arddangosfeydd gweithio rhyngweithiol i gefnogi defnydd dysgwyr o eirfa a darparu cyfleoedd i ddysgwyr archwilio geiriau ac ehangu'u geirfa trwy chwarae rôl, trafodaeth a drama.

102 Lle ceir darpariaeth gref, mae disgwyliadau uchel gan staff ar gyfer datblygu geirfa dysgwyr, ac maent yn deall eu rôl i hwyluso hyn. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn ymdrechu i gyflwyno dysgwyr o bob gallu ac oed i eirfa newydd drwy eu dewis eu hunain o eirfa. Mae eu hiaith lafar ac ysgrifenedig eu hunain yn gweithredu fel model effeithiol i ddysgwyr mewn ystod eang o gyd-destunau.

103 Mewn lleoliadau ac ysgolion effeithiol, mae ymarferwyr yn defnyddio cyfuniad o gyfleoedd wedi'u cynllunio a chyfleoedd digwyddol i helpu dysgwyr gaffael a defnyddio geiriau newydd. Maent yn darparu ystod o destunau o ansawdd uchel a chyd-destunau cyffrous ar gyfer dysgu, sy'n deillio o ddiddordebau ac anghenion dysgwyr. Mae hyn yn helpu ysgogi ymateb cyfoethog yn iaith lafar ac ysgrifennu dysgwyr. Yn aml, mae athrawon yn defnyddio nofel dosbarth i ymestyn a chyflwyno dysgwyr i eirfa newydd. Yn

yr addysgu gorau, maent yn archwilio dealltwriaeth dysgwyr o eirfa trwy dechneg holi fedrus yn ystod sesiynau darllen ar y cyd a dan arweiniad. Maent yn darparu adborth gwerthfawr i ddysgwyr ar eu hysgrifennu, i'w cynorthwyo i wneud dewisiadau gwell o ran geiriau.

**104** Lle mae gwybodaeth ymarferwyr am alluoedd iaith derbyn a mynegiannol dysgwyr unigol yn gryf, maent yn teilwra'u dulliau i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Er enghraifft, maent yn defnyddio delweddau, ystumiau ac iaith arwyddion i gynorthwyo dysgu geiriau newydd. Maent hefyd yn osgoi'r temtasiwn i orsymleiddio iaith pan fydd lefel ddigonol o ddealltwriaeth gan ddysgwyr i brosesu geiriau mwy soffistigedig.

**105** Mewn ychydig iawn o ysgolion, lle mae addysgu iaith yn llwyddiannus iawn, mae athrawon yn cynllunio'n benodol ar gyfer gwybodaeth dysgwyr am eirfa, fel agwedd nodedig ar ddysgu iaith. Maent yn ystyried yn ofalus pa eirfa darged allweddol sydd ei hangen arnynt i addysgu dysgwyr i'w deall a'i defnyddio, fel eu bod yn gwrando ac yn siarad yn briodol mewn cyd-destunau gwahanol, yn gwneud ystyr wrth ddarllen ac yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ystod eang o ddibenion. Maent yn ystyried y ffordd orau i integreiddio detholiad gofalus o eiriau priodol i'r addysgu a'r dysgu, fel bod dysgwyr yn datblygu, cyfnerthu a chymhwyso'u gwybodaeth am eiriau mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws y cwricwlwm. Yn yr ychydig iawn o ysgolion effeithiol iawn hyn, mae athrawon yn defnyddio dulliau wedi'u llywio gan ymchwil i addysgu geirfa, fel:

- addysgu geiriau nad ydynt yn rhan o sgyrsiau bob dydd neu brofiadau darllen dysgwyr
- egluro ystyron geiriau a helpu disgyblion i wneud cysylltiadau â'r hyn maen nhw'n ei wybod yn barod
- darparu cyfleoedd dilys i amlygu dysgwyr yn fynych i air newydd drwy iaith lafar ac ysgrifenedig fel bod y gair hwnnw 'wedi'i ddysgu'

- cynyddu ymwybyddiaeth, a diddordeb yn nodweddion arbennig geiriau, fel rhannau o eiriau (morffoleg) a'u tarddiadau (geirdarddiad)
- addysgu strategaethau i ddysgwyr y gallant eu cymhwyso'n annibynnol i weithio allan ystyr geiriau sy'n newydd iddyn nhw (Beck, McKeown a Kucan, 2013).

106 Mae ysgolion sy'n datblygu geirfa dysgwyr yn llwyddiannus iawn yn meddwl am nifer y geiriau y mae dysgwyr yn eu gwybod, ond hefyd pa mor dda y maen nhw'n gwybod y geiriau hynny (Dale, 1965; Beck, McKeown a Kucan, 2013). Maent yn eu helpu i ddatblygu 'dyfnder' gwybodaeth am eiriau trwy weithgareddau darllen, siarad ac ysgrifennu wedi'u cynllunio'n ofalus. O ganlyniad, mae dysgwyr yn adnabod ac yn deall y geiriau newydd a'u hystod ystyron posibl mewn cyd-destunau cyfarwydd. Wedyn, maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gasglu beth yw eu hystyr mewn cyd-destunau newydd. **Gallwch ddarllen am yr ymagweddau y mae ysgolion yn eu defnyddio i addysgu geirfa yn llwyddiannus ar dudalennau 166 i 172.**

**Mewn lleoliad nas cynhelir, mae staff yn tynnu lluniau o blant yn ystod y dydd i greu llyfr meithrin a ddefnyddir i helpu plant gofio a siarad am beth maen nhw wedi'i wneud yn ystod y dydd.**

Lle bo'n berthnasol, mae oedolion yn helpu modelu geirfa benodol, gan gynnwys geirfa fathemategol, fel 'trwm ac ysgafn' a 'llawn a gwag'.

Darllenwch fwy yma

**Mewn ysgol feithrin, mae ymarferwyr yn monitro dealltwriaeth dysgwyr a'u defnydd o erifa yn fanwl yn y caffi chwarae rôl.**

Maent yn ymarfer geiriau a phatrymau iaith gyda'r plant cyn ymweld â chaffis yn y gymuned, lle maent yn defnyddio ac yn cymhwyso'u medrau mewn cyd-destun go iawn i archebu bwyd a diodydd.



Darllenwch fwy yma

**Mewn dosbarth derbyn, mae'r athro yn gofyn i ddysgwyr rannu - 'give out' - byrbrydau iach ac wedyn mae'n diolch iddyn nhw am eu dosbarthu'n synhwyrol, gan gysylltu'r geiriau am ychydig ddiwrnodau hyd nes bod yr holl ddysgwyr yn deall ystyr 'distribute'.**

Darllenwch fwy yma

**Mae dysgwyr mewn dosbarth Blwyddyn 1 yn darllen The Tiger Who Lost His Stripes gan Anthony Paul.**

Mae'r athro'n archwilio geiriau targed fel 'stately', 'dignified', 'splendid' a 'pally' gyda dysgwyr er mwyn ehangu'u gwybodaeth am grwpiau o eiriau cysylltiedig. Mae athrawon yn herio dysgwyr mwy abl drwy ofyn, er enghraifft, pa air fyddai'r dewis mwyaf priodol efallai, ac egluro pam.

Darllenwch fwy yma

**Wrth gynllunio dysgu, mae athrawon yn nodi'n ofalus pa eirfa penodol i destun y byddant yn ei chyflwyno i ddysgwyr ar draws meysydd dysgu.**

Maent yn manteisio ar gyfleoedd dilys i ddatblygu gwybodaeth dysgwyr am eiriau ac ieithoedd. Er enghraifft, mae eu testun 'cestyll' yn tanio brwdfrydedd dysgwyr Blwyddyn 2, ac maent yn defnyddio termau fel 'portcullis' a 'moat', yn hyderus yn eu siarad a'u hysgrifennu.

Mae eu hathro'n eu cyflwyno i eirfa dechnegol fwy datblygedig i ddisgrifio nodweddion y cestyll, fel 'bastion' a 'trebuchet'. Mae hyn yn arwain dysgwyr i ofyn cwestiynau am hanes a tharddiad y geiriau hyn o'r Oesoedd Canol. Mae dysgwyr mwy abl yn eu cysylltu â geiriau y maent yn eu gwybod yn barod, er enghraifft gwneud cysylltiadau rhwng dyluniad y 'trebuchet' a'r gair 'bucket'.

Darllenwch fwy yma

**Yn yr ysgol hon, mae athro Blwyddyn 5 yn mabwysiadu ymagwedd uniongyrchol at addysgu geirfa mewn cyd-destun dilys sy'n annog dysgwyr i wneud dewisiadau iaith mwy soffistigedig ac ysgrifennu llythyrau darbwyllol.**

I gefnogi'r ymagwedd hon, mae'r athro yn rhoi ystyriaeth dda i brofiadau blaenorol dysgwyr o siarad ac ysgrifennu i ddarbwyllo. Nid yw dysgwyr o bob gallu, gan gynnwys y rhai mwy abl, yn defnyddio geirfa ddigon eang wrth ysgrifenny darnau estynedig. Felly, mae'r athro yn nodi geiriau 'targed' allweddol ar gyfer addysgu ac yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddysgwyr siarad am ystyron y geiriau hyn. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu'u 'hymwybyddiaeth o eiriau', ac yn eu hannog i ehangu eu geirfa, ac mae'n gwella eu gallu i gyflwyno achosion mwy grymus i ddarbwyllo.

Darllenwch fwy yma

107 Lle nad yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu geirfa dysgwyr mor gryf, nid oes cydbwysedd digon da rhwng yr agweddau ffurfiol ar addysgu geirfa a chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio'u gwybodaeth am eiriau yn annibynnol mewn cyd-destunau perthnasol. Yn rhy aml, caiff geirfa ei haddysgu ar wahân, sy'n cyfyngu ar allu dysgwyr i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol mewn dysgu yn y dyfodol.

108 Nid yw lleiafrif o ysgolion yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu geirfa dysgwyr, yn enwedig y dysgwyr hynny â geirfa gyfyngedig nad ydynt yn cael profiadau cyfoethog o ran iaith y tu allan i'r ysgol.

109 Yn gyffredinol, nid oes dealltwriaeth ddigon sicr gan staff yn yr ysgolion hyn o bwysigrwydd addysgu gwybodaeth am eirfa i ddysgwyr a'r effaith a gaiff ar gynnydd darllen.

# Meithrin diwylliant o ddarllen

**110** Mae llawer o leoliadau ac ysgolion yn rhoi sylw da i ddarparu llyfrgelloedd ysgol ac ardaloedd darllen mewn ystafelloedd dosbarth sy'n ddeniadol ac yn ddifyr. Yn aml, caiff y rhain eu datblygu fel 'mannau arbennig', y mae dysgwyr yn eu gwerthfawrogi. Mae llyfrgelloedd yn cynnwys stociau da gydag ystod eang o destunau ffuglen a ffeithiol o ansawdd uchel, barddoniaeth, llyfrau lluniau, nofelau graffig, yn ogystal â chyfryngau eraill, fel cylchgronau a llyfrau llafar. Yn yr enghreifftiau gorau, ceir buddsoddiad mewn llenyddiaeth gyfoes a chlasurol i blant, ac mae dysgwyr yn cael eu cynnwys wrth brynu cyhoeddiadau newydd.

**111** Mae ysgolion da yn defnyddio arddangosfeydd i hyrwyddo llenyddiaeth a hoffter o ddarllen. Maent yn cyflwyno gwaith dysgwyr yn ymwneud â thestunau a rennir yn y dosbarth yn effeithiol, fel adolygiadau o lyfrau, portreadau o gymeriadau a gwaith celf wedi'i ysbrydoli gan naratifau a cherddi. Mae ychydig o ysgolion yn adnabod y berthynas rhwng darllen a datblygu geirfa, ac maent yn defnyddio arddangosfeydd yn bwrpasol i ehangu a datblygu geirfa disgyblion mewn cyd-destunau llenyddiaeth cyfoethog.

**112** Mae bron yr holl leoliadau, ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd yn rhoi cyfleoedd buddiol hanfodol i blant ryngweithio â llyfrau, storïau a rhigymau pan fyddant yn dechrau mewn dosbarthiadau meithrin. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr yn adeiladu'n dda ar brofiadau darllen cynnar plant o Dechrau'n Deg a lleoliadau nas cynhelir, yn enwedig o ran sut maent yn cynnwys rhieni a gofalwyr mewn gweithgareddau darllen er mwynhad.



**Mae staff ym Meithrinfa Little Stars ym Mhont-y-pŵl yn trochi plant mewn storïau a rhigymau traddodiadol i adeiladu'u medrau adrodd stori a'u mwynhad o lyfrau.**

Mae darllen gyda'i gilydd yn gyson a rhannu storïau yn yr ysgol a gartref yn helpu meithrin y mwynhad hwn o lyfrau yn ifanc. Mae oedolion yn addysgu ac yn rhannu ystod eang o storïau a rhigymau gyda'r plant. Maent yn datod themâu syml ac yn siarad am y cymeriadau. Caiff y plant y cyfle i ail-greu'r storïau a'r rhigymau, gan ychwanegu eu cymeriadau neu brofiadau eu hunain weithiau, gyda phropiau a phypedau yn y lleoliad a gartref. Mae'r lleoliad yn annog rhieni i fenthyg llyfrau i rannu gyda'u plant gartref ac yn cynnal gweithdai i egluro sut i ddefnyddio'r propiau a'r adnoddau.

Darllenwch fwy yma

113 Mae rhannu llyfrau a darllen ar goedd i ddysgwyr yn nosbarthiadau'r cyfnod sylfaen yn nodweddion rheolaidd ym mron yr holl leoliadau ac ysgolion. Mae llawer o ysgolion yn elwa o gymorth rhieni a gwirfoddolwyr eraill sy'n oedolion, sydd yn gwrando ar blant yn darllen.

114 Rydym yn gwybod ei bod yn bwysig darllen i blant yn aml a bod gwneud hynny'n annog darllen annibynnol. Yn gyffredinol, wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2, mae dysgwyr yn cael llai o gyfleoedd i glywed athrawon yn darllen storïau a cherddi ar goedd, yn enwedig fel gweithgaredd i'w fwynhau'n gymdeithasol.

115 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae plant yn derbyn deiet darllen priodol o ffuglen a ffeithlen, sy'n cynnwys eu diddordebau. Mae llawer o ddysgwyr yn mynd ag ystod o lyfrau gartref i'w mwynhau'n annibynnol neu gyda'u teulu. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ysgolion yn archwilio ystod ddigon eang o strategaethau i gefnogi dysgwyr difreintiedig a'u teuluoedd i gael cyfleoedd darllen ac i annog mwynhad o ddarllen. **Gallwch ddarllen am y modd y bu Ysgol Gynradd Trinant yn llwyddiannus wrth feithrin diwylliant darllen ar y cyd gyda rhieni ar dudalennau 175 i 176.**

**Mae meithrin diwylliant darllen ar y cyd rhwng dysgwyr, rhieni a staff, a datblygu awydd pawb i ddarllen er pleser, yn flaenoriaeth wella yn Ysgol Gynradd Trinant.**

Mae brwdfrydedd athrawon dros ddarllen yn ffactor allweddol yn hyn. Er nad oes llyfrgell gymunedol, mae partneriaeth fuddiol gydag Ysgol Uwchradd Islwyn, a rhodd o lyfrau gan ei hadran Saesneg, wedi galluog'r ysgol i sefydlu llyfrgell fenthyg gydag 'elfen wahanol' i rieni a theuluoedd. Mae athrawon yn darllen ac yn dosbarthu'r llyfrau yn ôl genre ac yn rhoi graddfeydd mwynhau. Mae lefel ymgysylltiad a chymorth gan rieni ar gyfer darllen plant wedi cynyddu'n sylweddol. Mae plant yn gweld eu rhieni, yn ogystal â'u hathrawon, fel 'darllenwyr' ac mae hyn wedi helpu codi statws darllen er pleser yn y gymuned. Mae hefyd wedi cynyddu ymgysylltiad dysgwyr â llyfrau, yn enwedig y dysgwyr hynny o gefndiroedd difreintiedig.

Darllenwch fwy yma

116 Mae ychydig iawn o ysgolion yn meithrin mwynhad dysgwyr o ddarllen mewn ystod ehangach o gyfryngau, er enghraifft, i ddatblygu'u gallu i ddarllen delweddau (heb destun neu mewn cyfuniad â thestun) mewn llyfrau lluniau, animeiddiadau a ffilmiau. Mae hyn yn ehangu'u barn am beth yw 'darllen' ac mae'n eu cymell i archwilio mathau ac arddulliau gwahanol o destun.

**Mae Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw yn defnyddio ffilm i ddatblygu medrau llythrennedd a medrau digidol dysgwyr.**

Mae'r ysgol yn mabwysiadu dull saith cam o gynllunio gweithgareddau addysgu a dysgu, sy'n datblygu medraudysgwyr o ran rhagweld, ymresymu a dod i gasgliad, dealltwriaeth, ysgrifennu, cynllunio a chyflwyno a gwneud ffilmiau, ac mae'n arwain at ddathliad ysgol gyfan. Gwahoddir rhieni a gofalwyr i fynychu gŵyl ffilm yr ysgol, ac mae dysgwyr yn mwynhau gwylio 'premières' bob ffilm. Mae effaith yr ymagwedd hon yn cynnwys dysgwyr yn datblygu'n siaradwyr gwell, mwy hyderus. Maent yn darllen delweddau a thestun gyda mwy o ddealltwriaeth, ac yn defnyddio geirfa fwy disgrifiadol, amrywiol a chyffrous yn eu hysgrifennu. Mae tasgau gwneud ffilm yn cynorthwyo dysgwyr i negodi a meithrin cytundeb i weithio tuag at nod cyffredinol.
Maent yn cymryd cyfrifoldeb am drefnu'u syniadau ac yn mabwysiadu rolau penodol. Mae hyn yn helpu cynyddu hunan-barch dysgwyr ac yn datblygu'u hyder.

Darllenwch fwy yma



**117** Mae lleoliadau ac ysgolion sy'n fwyaf llwyddiannus wrth ddatblygu diwylliant darllen ffyniannus yn rhannu'r nodweddion canlynol:

### Creu gweledigaeth a rennir

Mae arweinwyr a staff yn deall effaith darllen ar ddeilliannau a lles dysgwyr. Maent yn gwybod pam y mae diwylliant darllen yn bwysig a sut beth yw darllenydd ymgysylltiedig. Maent yn rhoi darllen a llenyddiaeth wrth wraidd gweithgarwch yr ysgol. Mae'r lleoliadau a'r ysgolion hyn yn teimlo 'yn fyw' gyda 'chyffro ynghylch llyfrau'. Ym mhob achos, arweinwyr sy'n ysgogi'r ethos hwn.

### Datblygu'r amgylchedd

Mae staff mewn lleoliadau ac ysgolion effeithiol yn deall y rôl sydd gan yr amgylchedd ffisegol i feithrin hoffter o ddarllen a datblygu dysgwyr yn 'ddarllenwyr'. Maent yn darparu mannau cymunedol dengar i archwilio testunau, fel llyfrgelloedd, ardaloedd llyfrau ac arddangosiadau. Yn ogystal â mannau dan do, maent yn gwneud defnydd creadigol o'r amgylchedd awyr agored i hybu darllen.

### Darllen ar goedd



Mae arweinwyr yn deall manteision oedolion yn darllen ar goedd i ddysgwyr o bob oed. Maent yn creu amser a lle trwy gydol y diwrnod ysgol i staff a gwirfoddolwyr ddiddori dysgwyr o bob oed mewn storïau, cerddi neu destunau ffeithiol. Mae oedolion yn darparu model gwerthfawr ar gyfer darllen llawn mynegiant ar gyfer dysgwyr, ac mae hyn yn eu galluogi i ddarllen testunau mwy heriol nag y byddent yn gallu'u darllen ar eu pennau'u hunain. Yn hanfodol, mae'n gyfle i blant ac oedolion rannu'r hoffter o lyfrau ac i ddarllen, a gwrando, er pleser.

### Ymgysylltu â rhieni

Mae meithrin ymgysylltiad ac ymrwymiad rhieni i greu diwylliant darllen sy'n ymestyn i'r cartref yn ffocws parhaus i ddarparwyr effeithiol. Maent yn gweithio'n galed i gyrraedd pob teulu. Maent yn cynnwys rhieni yn narllen eu plant trwy gymorth anfygythiol a syniadau ymarferol i annog darllen er pleser yn y cartref.

Maent yn gwahodd rhieni i rannu digwyddiadau darllen arbennig, fel ymweliadau gan awduron a darlunwyr.

### Darllen gyda rhai eraill

Mae rhieni, gofalwyr, teidiau/neiniau, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr o'r gymuned leol yn ymweld â lleoliadau ac ysgolion yn aml i ddarllen gyda dysgwyr. Mae dysgwyr o oedrannau gwahanol yn darllen gyda'i gilydd fel 'bydis'. Mae darllenwyr hŷn yn mwynhau bod yn ddelfrydau ymddwyn ar gyfer dysgwyr sy'n dechrau darllen. Mae dysgwyr iau, nad ydynt yn rhugl yn eu darllen eto, yn elwa o'u 'mentoriaid' darllen sy'n eu cynorthwyo a'u hannog.

### Datblygu partneriaethau ehangach

Mae lleoliadau ac ysgolion effeithiol yn ffurfio partneriaethau buddiol o fewn y gymuned a thu hwnt i hyrwyddo diwylliant o ddarllen. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau gyda llyfrgelloedd lleol a hybiau cymunedol, prifysgolion a sefydliadau cenedlaethol, fel yr United Kingdom Literacy Association, Book Trust Cymru, Llenyddiaeth Cymru a'r Sefydliad Ffilm Prydeinig.



### Dathlu darllen

Mae staff yn dathlu a hyrwyddo darllen bob dydd, nid ar achlysuron arbennig yn unig. Maent yn siarad am ystod eang o destunau o fathau a genres gwahanol, ac yn eu hyrwyddo. Mae oedolion yn rhannu'u brwdfrydedd am destunau llenyddol ac anllenyddol trwy wasanaethau ysgol, clybiau llyfrau ac yn ystod dathliadau, fel Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth a Diwrnod Cenedlaethol y Llyfr. Maent yn darparu cymhellion yn gysylltiedig â darllen ar gyfer dysgwyr, fel gwobrau llyfrau am bresenoldeb da. Maent yn defnyddio 'heriau' fel 'darllen miliwn o eiriau' i gymell dysgwyr a hybu arferion darllen cadarnhaol.

### Cynllunio'r cwricwlwm

Mae ysgolion sy'n effeithiol iawn wrth feithrin diwylliant o ddarllen yn cynllunio'u testunau a themâu cwricwlwm o amgylch llenyddiaeth o ansawdd uchel a genres penodol. Mae dysgwyr yn cymryd rhan weithgar yn y broses gynllunio hon.

Mae athrawon yn dewis testunau sy'n cynnwys themâu addas o heriol, sydd yn gyfoethog yn eu defnydd o iaith. Mae hyn yn helpu i ddarparu cyfle i ddysgwyr o bob cefndir i drafod syniadau, pobl, amseroedd a lleoedd y tu allan i'w profiad uniongyrchol, ac i wella'u geirfa.

Mae ysgolion yn trefnu ymweliadau mynych â'r theatr i ddysgwyr o bob oed, ac yn gwahodd awduron i'r ysgol. Mae staff yn cynllunio'r profiadau hyn yn ofalus fel rhan o'u testunau cwricwlwm sy'n seiliedig ar destun. Maent yn cydnabod bod y profiadau cyfoethogi ehangach hyn yn rhan bwysig o feithrin hoffter o lenyddiaeth i ddysgwyr, yn enwedig i'r rheini o gefndiroedd difreintiedig.

### Dewis adnoddau

Mae arweinwyr yn buddsoddi mewn darllen. Maent yn gwario arian ac yn treulio amser yn prynu deunyddiau darllen ac yn datblygu amgylcheddau dysgu sy'n cyffroi ac yn cymell dysgwyr. Mae staff yn cydnabod pwysigrwydd rhoi dewis o ddarllen i ddysgwyr. Maent yn annog dysgwyr i ddewis beth maent yn ei ddarllen, yn darparu arweiniad yn sensitif i ddarllenwyr sy'n ei chael hi'n anodd ac yn parchu dewisiadau dysgwyr. Maent yn cynnwys dysgwyr wrth ddewis llyfrau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a llyfrgelloedd ysgol, ac yn rhoi cyfrifoldebau iddynt ar gyfer rheoli'r adnoddau.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn ystyried amrywiaeth yn ofalus wrth ddewis adnoddau darllen, er mwyn adlewyrchu cymuned yr ysgol a'r gymdeithas ehangach yn gyffredinol, ac i osgoi stereoteipiau, lle bynnag y bo modd.

### Addysgu ac asesu darllen yn effeithiol

Mae ysgolion cynradd effeithiol yn systematig yn eu hymagwedd at addysgu ac asesu darllen er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu medrau darllen geiriau craidd a dealltwriaeth. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau yn fedrus, er enghraifft addysgu uniongyrchol, a darllen ar y cyd, dan arweiniad ac yn annibynnol,

Mae staff yn achub ar bob cyfle a gynigir gan y cwricwlwm i addysgu dysgwyr i fod yn ddarllenwyr gydol oes. Mae hyn yn golygu eu bod yn addysgu gwybodaeth am awduron, beirdd a gwahanol fathau o destun i ddysgwyr, a sut i ddewis llyfrau er pleser a chefnogi'u dysgu. Maent yn eu helpu i ddatblygu stamina darllen, fel eu bod yn mwynhau darllen testunau hwy, mwy cymhleth ac yn canolbwyntio wrth ddarllen am gyfnodau cynaledig.

### Bod yn athrawon 'sy'n darllen'

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae ymarferwyr yn arddangos arferion modelu rhagorol ar gyfer darllen. Mae athrawon yn glir ynghylch bod yn ddarllenwyr eu hunain a'r pleser y mae'n ei roi. Maent yn trafod llyfrau'n rheolaidd gyda'u dysgwyr a gyda rhieni. Mae gwybodaeth eang gan ymarferwyr am lenyddiaeth plant o ansawdd uchel, gan gynnwys testunau cyfoes. Maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau newydd, er enghraifft drwy'r cyfryngau cymdeithasol a sefydliadau llenyddol. O ganlyniad, gallant rannu'u barn gyda dysgwyr am y llyfrau y maen nhw wedi'u darllen, gwneud argymhellion i gefnogi anghenion gwahanol dysgwyr ac annog eu diddordebau darllen.

### Cefnogi datblygiad proffesiynol staff



Mae arweinwyr yn cydnabod mai'r ffactorau allweddol i alluogi plant i ymgysylltu'n gadarnhaol â darllen, yw medrau, gwybodaeth a brwdfrydedd y staff sy'n eu haddysgu. Maent yn sicrhau bod staff yn cael mynediad at ystod o ddatblygiad proffesiynol o ansawdd uchel sy'n eu cynorthwyo i ddatblygu ymddygiadau darllen dysgwyr a'u hagweddau at ddarllen, yn ogystal â'u medrau darllen.

**Mae Ysgol Gynradd Cogan wedi defnyddio ystod eang o bartneriaethau'n gysylltiedig ag iaith a llythrennedd i sefydlu gwobr lyfrau ysgol i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant trwy lenyddiaeth plant.**

Roedd diwylliant darllen cryf yn yr ysgol yn barod, lle mae mynediad at lenyddiaeth gyfoethog yn hawl i bob dysgwr. Cryfhaodd y fenter hon ddiddordeb dysgwyr a'r gymuned ehangach mewn darllen, a'u brwdfrydedd. Mae rôl y cydlynydd anghenion addysgol arbennig, gan weithio'n agos â dysgwyr cyfnod allweddol 2, a chymorth gan y gymdeithas rhieni ac athrawon, wedi bod yn ganolog i lwyddiant y prosiect hwn. Bu dysgwyr yn adolygu'r llyfrau yr oedd cyhoeddwyr wedi'u cyflwyno i'w hystyried yn ofalus.

Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig bod y cynnwys yn amrywiol yn ethnig a/neu'n ddiwylliannol, a'u bod yn cynnwys cymeriadau anystrydebol neu gymeriadau ag anableddau. Denodd y fenter sylw a chefnogaeth gan awduron plant adnabyddus, fel Michael Rosen. Ym Mai 2019, cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru enillydd Gwobr Cogan ar gyfer Amrywiaeth mewn Llyfrau Lluniau 2019 ar ei wefan.

Darllenwch fwy yma

**'Pan fydd athro yn darllen i ddisgyblion mae'n creu profiad o ymgysylltu. Mae hyn yn bwysig ar gyfer datblygu perthnasoedd da'**

Disgybl Blwyddyn 6, Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw

**'Mae athrawon yn meddwl ei bod hi'n bwysig i ni ddarllen llyfrau gartref am mai dyfeisiau sy'n mynd â bryd pawb nawr. Maent yn ein hannog i ddarllen llawer o lyfrau.'**

Disgybl Blwyddyn 5, Ysgol Gynradd Cogan

# Cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd

**118** Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn defnyddio ystod addas o asesiadau i olrhain a monitro cynnydd dysgwyr mewn iaith a llythrennedd dros gyfnod. Mae hyn yn eu helpu i nodi ble mae dysgwyr ar y continwwm iaith, a gosod targedau priodol ar eu cyfer, gan gynnwys gwella'r medrau y mae eu hangen arnynt fwyaf i ddatblygu. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r deilliannau o offer sgrinio iaith a'r proffil cyfnod sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2017) yn briodol i amlygu ble gallai fod anghenion dysgu ychwanegol gan ddysgwyr mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn, neu oedi datblygiadol posibl yn un neu fwy o agweddau ar iaith. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn dadansoddi'r wybodaeth hon yn drylwyr i gynllunio faint o ymyrraeth, a'r math o ymyrraeth i'w rhoi ar waith.

**Mae'r ysgol hon yn gwneud defnydd effeithiol o offeryn sgrinio iaith sy'n helpu athrawon i fonitro cynnydd yr holl ddysgwyr yn fanwl yn erbyn pob agwedd ar iaith yn eu blynyddoedd cynnar yn yr ysgol.**

O'i ddefnyddio'n ddoeth, mae'n galluogi athrawon i osod targedau priodol a dylunio cynlluniau dysgu teilwredig i fodloni anghenion unigol dysgwyr. Hefyd, mae'r offeryn asesu a'r adnodd addysgu sy'n cyd-fynd ag ef yn helpu athrawon i farnu'n effeithiol pa bryd i ddechrau addysgu ffoneg a geiriau sy'n codi'n aml i ddysgwyr unigol.

Darllenwch fwy yma



**Mae gan yr holl ddysgwyr mewn ysgol gynradd 'broffiliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' i werthfawrogi a chefnogi'u datblygiad iaith.**

Mae'r proffiliau hyn, sy'n cael eu darllen gan staff newydd neu staff dros dro yn yr ysgol hefyd cyn cyfarfod dysgwyr am y tro cyntaf, yn helpu lleihau risg rhwystredigaeth neu gamddealltwriaeth i ddysgwyr wrth iddynt ddatblygu'u medrau cyfathrebu. Mae'r ysgol yn annog oedolion a phlant i werthfawrogi mathau gwahanol o gyfathrebu ac ieithoedd gwahanol, am fod hyn yn bwysig i ddysgwyr y mae eu hiaith gartref yn wahanol i iaith eu hathrawon, neu i ddysgwyr sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith, neu anawsterau clywed.

Darllenwch fwy yma

119 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod o ymyriadau yn dda i gynorthwyo dysgwyr o bob oed sy'n cael anhawster caffael medrau sylfaenol mewn darllen a sillafu. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn gwneud dewisiadau doeth ynglŷn â'r ymyriadau y maent yn eu defnyddio, ac yn adolygu'r rhain yn ofalus yn gyson. Yn yr ysgolion hyn, mae ymarferwyr tra hyfforddedig yn cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Er enghraifft, maent yn darparu ymyriadau mewn ffyrdd sy'n cefnogi medrau meddwl a medrau dysgu annibynnol dysgwyr, ochr yn ochr â'u datblygiad iaith.

**Mae athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio sesiwn ugain munud cyn gwers llythrennedd y dosbarth i addysgu gwybodaeth hanfodol ymlaen llaw i gynorthwyo dysgwyr y nodwyd bod ganddynt fedrau iaith sydd heb eu datblygu'n ddigonol.**

Maent yn defnyddio'r amser hwn i fynd i'r afael ag agweddau fel geirfa fwy heriol a allai achosi problemau i ddysgwyr yn y wers pe gofynnwyd iddynt, er enghraifft i ddarllen naratif yn annibynnol a deall cymeriadau ynddo. Mae'r athro yn ymarfer gwybodaeth flaenorol dysgwyr am strategaethau darllen y gallant eu defnyddio i'w helpu caffael ystyr o destun anghyfarwydd. Drwy weithgareddau rhyngweithiol, mae dysgwyr yn archwilio ystyr y geiriau a nodwyd, ac yn eu defnyddio mewn cyd-destun. Mae'r ymagwedd hon yn cymell dysgwyr ac yn cynyddu'u hyder i ymateb yn frwdfrydig i'w gwaith.

Darllenwch fwy yma

**Mae ymweliad wythnosol gan Cariad 'y ci darllen' yn helpu dysgwyr sy'n agored i niwed i ddatblygu'u medrau darllen ac yn cefnogi'u lles yn effeithiol.**

Mae nodi'n ofalus y rheini sy'n fwyaf tebygol o elwa, a'r dewisiadau o lyfrau am faterion neu brofiadau sy'n ymwneud â'u hamgylchiadau personol, yn allweddol. Mae'r ymagwedd hon yn helpu dysgwyr i ddefnyddio strategaethau i gefnogi'u darllen, er enghraifft trwy drafod ffyrdd o geisio darllen geiriau newydd neu ffyrdd o gofio geiriau anodd. Mae presenoldeb tawelol y ci yn helpu dysgwyr sy'n agored i niwed i ymlacio wrth ddarllen ac mae'n cynyddu'u hunan-barch gan eu hannog i ddelio'n well â materion personol.

Darllenwch fwy yma

120 Wrth gynllunio cymorth ychwanegol ar gyfer datblygiad iaith a llythrennedd dysgwyr, nid yw ychydig o ysgolion bob amser yn gwneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'r canlynol:

- p'un a oes angen rhaglenni arbenigol ar unigolion neu grwpiau o ddysgwyr (y mae ymarferwyr yn eu darparu'n ffyddlon yn unol â'r bwriad) neu p'un a fyddai ymagweddau addysgu a dysgu gwahanol yn fwy priodol
- pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r ymyrraeth neu ymagwedd addysgu
- ble ddylai'r ymyrraeth ddigwydd (er enghraifft, gartref yn ogystal ag yn y lleoliad neu'r ysgol)
- pa mor aml neu am ba hyd y dylid defnyddio'r ymyrraeth neu'r ymagwedd
- beth mae'r ymchwil yn ei ddweud am effeithiolrwydd yr ymyrraeth neu'r ymagwedd addysgu

- pryd a sut i adolygu cynnydd dysgwyr a beth allai strategaeth 'ymadael' briodol o ymyrraeth fod
- sut bydd ymarferwyr yn cynorthwyo dysgwyr i drosglwyddo'u dysgu o ymyriadau un i un i ymyriadau grŵp bach i ddysgu yn yr ystafell ddosbarth

Mae hyn yn golygu nad yw ysgolion bob amser yn targedu'u hadnoddau yn ddigon da i gynorthwyo dysgwyr â medrau iaith gwan, anghenion dysgu ychwanegol neu'r rheini â bylchau yn eu profiadau dysgu. O ganlyniad, nid yw'r dysgwyr hyn yn gwneud gymaint o gynnydd ag y gallent ei wneud mewn iaith a llythrennedd.



121 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i gael cymorth neu arweiniad i wella iaith a llythrennedd dysgwyr sy'n agored i niwed neu ddysgwyr difreintiedig. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau arbenigol, fel therapyddion lleferydd ac iaith, a chymorth i ddysgwyr ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu, y mae angen ymyriadau personoledig iawn arnynt i fodloni'u hanghenion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae arbenigwyr yn darparu cyngor a hyfforddiant i ymarferwyr a rhieni ar feysydd penodol o ddatblygu iaith, er enghraifft defnyddio systemau cyfathrebu amgen a chynyddol. Mae hyfforddiant effeithiol i staff a defnyddio arweiniad gan ymarferwyr arbenigol yn ofalus yn cael dylanwad cryf ar ba mor llwyddiannus yw ymyriadau o ran gwella medrau dysgwyr.

**Mae awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yn darparu ymagwedd traws-gyfarwyddiaeth i gefnogi ymyrraeth iaith gynnar i blant y nodwyd bod oedi o ran eu datblygiad iaith, gan helpu hwyluso'u pontio i leoliadau nas cynhelir a darpariaeth feithrin yn yr ysgol.**

Cyflawnir y cymorth un i un hwn drwy'r Gwasanaeth Teuluoedd Gwydn ac mae'n cynnwys cydweithio agos rhwng therapyddion lleferydd ac iaith, gweithwyr rhianta, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth 'siarad a chwarae' a phartneriaid amlasiantaeth eraill. Dilynir asesiadau sgrinio lleferydd a chyfathrebu effeithiol gan becynnau cymorth teilwredig ar gyfer teuluoedd unigol sy'n cael eu monitro'n ofalus i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol. Mae'r ymagwedd gydlynus hon yn helpu nodi plant nad ydynt yn gwneud cynnydd disgwyliedig ar draws yr awdurdod lleol, ac yn darparu parhad cymorth iddynt nhw a'u teuluoedd o'r blynyddoedd cynnar i addysg a ariennir.

Darllenwch fwy yma

122 Yn y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir ac ysgolion meithrin, ac mewn llawer o ysgolion cynradd, mae gweithio mewn partneriaeth yn cynorthwyo dysgwyr yn effeithiol fel eu bod yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith a lleferydd. Mae perthnasoedd gyda rhieni a gofalwyr yn gadarnhaol fel arfer ac yn gwella brwdfrydedd dysgwyr ymhellach ar gyfer dysgu iaith. Nid yw ychydig o ysgolion yn canolbwyntio'n ddigon da ar nodi ffyrdd o gynorthwyo rhieni i leihau'r rhwystrau yn sgil tlodi rhag datblygu iaith dysgwyr.

**Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands yn adnabod yn glir y cysylltiad pwysig rhwng datblygiad iaith plant a'u hiechyd a'u llwyddiant gydol bywyd.**

O ganlyniad, mae'n gweithio'n effeithiol gydag eraill, gan gynnwys 'Tîm Iaith Gynnar' awdurdod lleol Torfaen, ymwelwyr iechyd a'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg i gynorthwyo rhieni i ddarparu'r amgylchedd o'u geni hyd at bump oed, y mae ei angen ar blant er mwyn i'w datblygiad iaith ffynnu. Drwy weithio'n agos gyda'r ysgol, mae rhieni'n datblygu'u dealltwriaeth o'r modd y gallant gefnogi medrau iaith eu plant a pham y mae hyn mor bwysig ar gyfer eu deilliannau addysgol a'u cyfleoedd mewn bywyd.

Darllenwch fwy yma

**123** Mewn ychydig iawn o leoliadau ac ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardaloedd sydd dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf yng Nghymru, mae'r cymorth ac arweiniad ar gyfer datblygiad iaith a llythrennedd dysgwyr yn rhagorol. Mae'r ymgysylltiad cadarnhaol rhwng ysgolion, teuluoedd a chymunedau yn elfen allweddol o'r rhagoriaeth hon yn aml.

**Mae'r ychydig iawn o leoliadau ac ysgolion hyn yn rhannu'r nodweddion canlynol:**

- maent yn adnabod y berthynas bwysig rhwng datblygiad iaith dysgwyr a'u lles, ac yn cynorthwyo i ddatblygu'r ddau yn effeithiol
- maent yn llunio partneriaethau amlasiantaeth cryf gyda sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a sefydliadau cymunedol er lles dysgwyr a'u teuluoedd
- maent yn darparu mynediad i wasanaethau, cyngor ac adnoddau na fyddai modd i deuluoedd eu cael fel arall efallai, gan gynnwys ar adegau pan fo angen cymorth arnynt fwyaf
- maent yn rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â rhieni plant â medrau iaith gwael, a'u cynorthwyo, fel eu bod yn teimlo'n barod i weithio, ac yn gallu gweithio gyda'r ysgol i'w helpu i wneud cynnydd addas
- mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r gwendidau a'r bylchau ym medrau dysgwyr, ac yn gwybod beth yw'r ffordd orau i fynd i'r afael â'r rhain

- maent yn sicrhau'r 'llif' gwybodaeth a chymorth wrth i blant symud o ofal plant a lleoliadau cyn-ysgol i addysg ysgol gynradd (er enghraifft, o leoliadau Dechrau'n Deg i ddosbarthiadau meithrin)

- maent yn darparu addysgu, dysgu ac asesu o ansawdd uchel i fodloni anghenion dysgwyr unigol ym mhob agwedd ar ddatblygu iaith a llythrennedd

- mae ganddynt ddisgwyliadau a dyheadau uchel ar gyfer beth gall dysgwyr ei gyflawni





**Mae Ysgol Feithrin Tremorfa wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â theuluoedd i gefnogi medrau iaith dysgwyr.**

Cyflawnir yr ymgysylltiad hwn drwy ystod o ymagweddau, gan gynnwys swyddog cymorth cymunedol sy'n gweithio'n fuddiol gyda grwpiau gwahanol o rieni bob bore. Mae sesiynau 'galw heibio' wythnosol, yn cael eu harwain gan ymwelwyr iechyd, yn cynnig cymorth i deuluoedd y mae anghenion addysgol arbennig gan eu plant. Hefyd, mae'r ysgol yn cynnig rhaglen chwe wythnos i'r holl rieni a phlant cyn i'r plant ddechrau'r ysgol.

Yn ystod sesiynau 'aros a chwarae' bob hanner tymor, mae rhieni'n treulio bore neu brynhawn yn y feithrinfa, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau iaith gyda'u plant. Mae ymgysylltu â theuluoedd yn gryfder yn yr ysgol ac mae'n cefnogi rhieni â medrau iaith gwan yn dda.

Darllenwch fwy yma

**Mae'r ysgol hon wedi meithrin amgylchedd 'bygythiad isel-cymorth uchel' sy'n annog y rhan fwyaf o rieni i ymgysylltu'n dda â staff i gynorthwyo datblygiad iaith eu plant gartref.**

Er enghraifft, mae gan bob dysgwr yn y cyfnod sylfaen fag llyfrau cartref-ysgol y mae dysgwyr yn mynd ag ef adref bob wythnos. Mae hwn yn cynnwys gweithgaredd iaith sy'n hwyl i rieni ei fwynhau gyda'u plant, er enghraifft, rhigwm i'w ddysgu, llyfr lluniau i'w ddarllen neu gêm iaith i'w chwarae.

Bob mis, mae cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn cynnal sesiynau 'cyngor, cefnogaeth a help ar ddydd Llun' ('Monday advice, support and help') i rieni, a elwir yn 'Mash'. Mae helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi gwrando, siarad a darllen cynnar eu plant yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd gwell wrth ddatblygu'u medrau, er enghraifft cyfuno ffonemau i ddarllen geiriau syml.

Darllenwch fwy yma

124 Ar hyn o bryd, dim ond lleiafrif o ysgolion sydd â strategaeth ysgol gyfan ddigon cadarn i fynd i'r afael ag effaith anfantais gymdeithasol ar gynnydd a chyflawniadau dysgwyr mewn iaith a llythrennedd.

125 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn defnyddio cyllid grant, fel y grant datblygu'r blynyddoedd cynnar a'r grant datblygu disgyblion, i ddarparu prosiectau llythrennedd ac ymyriadau i gefnogi dysgwyr cymwys. Roedd ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn Chwefror 2020, **'Cymorth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed – astudiaethau achos arfer dda'** (Estyn, 2020c, tud.43) yn nodi bod effaith y grant yn rhy amrywiol yn gyffredinol. Mae cyfran yr ysgolion sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r GDD wedi parhau ar oddeutu dwy ran o dair o ysgolion cynradd.



# Arweinyddiaeth

# Datblygu darpariaeth a chodi safonau

**126** Mae bron yr holl leoliadau ac ysgolion yn nodi datblygu iaith a llythrennedd dysgwyr fel nod strategol craidd ac yn adlewyrchu hyn yn addas yn eu prosesau cynlluniau gwelliant a hunanwerthuso. Mae strwythurau arwain priodol gan y rhan fwyaf o ysgolion ar waith i gefnogi cydlynu a datblygu'u darpariaeth ar gyfer iaith a llythrennedd, er enghraifft trwy dîm cwricwlwm, dan arweiniad uwch arweinydd.

**127** Mewn lleoliadau ac  ysgolion sy'n fwyaf llwyddiannus wrth ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr, mae strategaeth gydlynus ar waith, sy'n rhwydd i'w ddeall, ar gyfer gwneud hynny. Mae'r ysgolion hyn wedi datblygu ymagweddau llwyddiannus iawn lle ceir ffocws cynaledig ar gyflymu cynnydd dysgwyr o'u mannau cychwyn, fel bod dysgwyr, yn aml, yn cyrraedd safonau uwchlaw'r disgwyl erbyn diwedd yr ysgol gynradd. Mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n fwyaf effeithiol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iaith a llythrennedd, mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn darparu addysgu a dysgu eithriadol sy'n bodloni anghenion dysgwyr unigol. O ganlyniad, mae'r ysgolion hyn yn herio ac yn meithrin datblygiad iaith dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a dysgwyr mwy abl yn effeithiol iawn.

**128** Mewn ychydig o ysgolion, lle nad eir i'r afael yn ddigon da â diffygion yn iaith a llythrennedd dysgwyr, y rheswm am hyn yn aml yw nad yw arweinwyr yn ysgogi ymagwedd gydlynus at ddatblygu medrau dysgwyr ym mhob agwedd ar iaith a llythrennedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn anghyson ac nid yw athrawon yn adeiladu ar beth mae dysgwr wedi'i gyflawni'n flaenorol i gynllunio gweithgareddau sy'n herio'r dysgwr i ddatblygu'r medr ymhellach neu i gymhwyso'r medr mewn cyd-destun gwahanol.



129 Mae lleoliadau ac ysgolion sy'n cael eu harwain yn dda, gyda darpariaeth effeithiol iawn ar gyfer iaith a llythrennedd dysgwyr, yn rhannu'r nodweddion cyffredin canlynol:

### Gweledigaeth a strategaeth

Mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd lle mae safonau iaith a llythrennedd yn uchel ar gyfer yr holl grwpiau dysgwyr, mae arweinwyr yn sefydlu gweledigaeth glir ac ymagwedd strategol at ddatblygu iaith a llythrennedd dysgwyr. Mae hyn yn deillio o'r pwysigrwydd y mae arweinwyr yn ei briodoli i ddatblygiad cynyddol medrau a gwybodaeth dysgwyr, a'u hymdrech a'u hymrwymiad i wella eu cyfleoedd mewn bywyd. Yn ogystal, mae'r weledigaeth hon, yn aml, yn adlewyrchu cyd-destun yr ysgol, a'r ffactorau a allai effeithio ar allu dysgwyr i gaffael iaith yn llwyddiannus.

### Diwylliant dyheadol

Trwy eu gweledigaeth strategol, mae arweinwyr ysgol hynod effeithiol yn hyrwyddo diwylliant ysgol gyfan dyheadol sy'n ymroi i gyflawni'u diben i wella iaith a llythrennedd dysgwyr. Maent yn cyfleu'r diben hwn yn llwyddiannus i ddysgwyr, staff, llywodraethwyr, rhieni ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol. Maent yn sicrhau bod pawb yn deall y rhan y maen nhw'n ei chwarae i gyflawni'r nod hwn, a pham ei bod yn agwedd mor bwysig ar waith yr ysgol.

### Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol

Mae lleoliadau ac ysgolion sy'n fwyaf llwyddiannus wrth fynd i'r afael â heriau anfantais gymdeithasol ar iaith a llythrennedd dysgwyr, yn elwa ar bartneriaethau sy'n rhychwantu sectorau iechyd y cyhoedd, gofal iechyd, gofal cymdeithasol, tai ac addysg. Mae arweinwyr yn buddsoddi ym medrau a galluoedd eu staff eu hunain ac yn mabwysiadu ymagwedd amlasiantaeth gynaledig i gynorthwyo dysgwyr yn yr amgylchedd ysgol a'r amgylchedd dysgu gartref.

### Diffinio a hyrwyddo disgwyliadau uchel

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae cynnydd dysgwyr mewn iaith a llythrennedd yn arbennig o gryf, mae arweinwyr yn diffinio ac yn hyrwyddo disgwyliadau uchel ar gyfer dysgu ac addysgu ym mhob agwedd ar iaith a llythrennedd. Maent yn gadarn wrth wneud penderfyniadau sy'n iawn i'r dysgwyr yn eu hysgol, ac yn parhau ag ymagweddau at ddysgu ac addysgu sy'n gweithio. Er bod arweinwyr yn sensitif ac yn ystyrgar o amgylchiadau a sefyllfaoedd dysgwyr, nid ydynt yn defnyddio'r rhain fel rheswm i ostwng eu disgwyliadau o'r hyn y gall dysgwyr ei gyflawni.

### Cydweithio, gwybodaeth a gwelliant parhaus



Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cryf o gydweithio lle mae staff yn gweithio'n agos â'i gilydd. Maent yn meithrin arweinyddiaeth mewn eraill ac yn sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at wybodaeth gyfunol yr ysgol, ac yn gallu elwa arni. Mae arweinwyr yn gweithio gyda staff i ddefnyddio'r corff cynyddol o dystiolaeth ac ymchwil ar iaith a llythrennedd i lywio'u penderfyniadau a'u cynlluniau ysgol gyfan. Maent yn targedu adnoddau'r ysgol a grantiau yn ofalus, ac yn gwerthuso'n gadarn effaith addysgu ar safonau a chynnydd dysgwyr. Mae adolygiadau a gwerthusiadau'r ysgol yn nodi agweddau manwl ar addysgu a darpariaeth y mae angen eu gwella, ac yn galluogi arweinwyr ac athrawon i rannu'r arfer fwyaf llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae hyn yn ffurfio rhan o gylch parhaus effeithiol o werthuso a gwella.

# Datblygu arbenigedd ac adeiladu capasiti

**130** Yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, cynllun gweithredu 2017-21*, mae'r Gweinidog Addysg yn nodi, os yw Cymru'n mynd i lwyddo i gyflawni ei nodau ar gyfer dysgwyr, y bydd angen i'r proffesiwn addysgu:

- fod yn broffesiwn o safon uchel sy'n gydweithredol ac yn cael ei ysgogi gan ddealltwriaeth ddofn o addysgeg a gwybodaeth bynciol
- ymgymryd â gwaith ymchwil, bod yn wybodus ac yn dysgu o ragoriaeth ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- cael cefnogaeth dda gan ystod o weithwyr dysgu proffesiynol sy'n gallu darparu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pob plentyn
- cael ei arwain yn dda gan arweinwyr a fydd yn sicrhau y gall pob athro wella drwy gydweithio effeithiol, arloesi, dysgu proffesiynol a chyfleoedd i roi arweinyddiaeth broffesiynol i eraill (Llywodraeth Cymru, 2017, tud.11)

**131** Mae arweinwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yn darparu cyfleoedd priodol i athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu ddatblygu'u gwybodaeth bynciol a'u medrau addysgu mewn iaith a llythrennedd. Yn aml, yn yr ysgolion lle ceir y ddarpariaeth gryfaf, ceir staff â gwybodaeth arbenigol sy'n rhannu'u harbenigedd o fewn eu hysgolion eu hunain a gydag ysgolion eraill. Mae'r arweinwyr mwyaf effeithiol yn cydnabod pwysigrwydd cael delfrydau ymddwyn iaith rhagorol ar gyfer dysgwyr, ac maent yn disgwyl i'w staff gyflawni hynny. Maent yn cefnogi staff gyda mynediad at ddysgu proffesiynol penodol o ansawdd



uchel, gan ganolbwyntio, er enghraifft, ar agweddau technegol ar ddysgu iaith, a'r ffordd orau o ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr yn gynyddol. Gallai hyn wella'r cymorth ar gyfer datblygu geirfa ac ymwybyddiaeth ffonolegol dysgwyr yn y blynyddoedd cynnar, ac ar gyfer ehangu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2. Mewn lleiafrif o leoliadau ac ysgolion, nid yw'r holl ymarferwyr yn arddangos arferion modelu ddelfrydau ymddwyn iaith da, ac nid yw arweinwyr yn mynd i'r afael â'r mater hwn fel rhan o ddatblygiad staff bob amser.

**132** Mewn ysgolion lle mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cyflym mewn iaith a llythrennedd, mae arweinwyr yn aml yn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd cryf eu hunain ac yn chwarae rhan arwyddocaol, gyfranogol yng ngweithgareddau dysgu a datblygu proffesiynol yr ysgol. Fel arfer, mae gan y tîm arwain gydbwysedd o brofiad yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, ac mae gan o leiaf un aelod o'r tîm ddealltwriaeth gref iawn o:

- ddatblygiad plant
- sut mae iaith a llythrennedd dysgwyr yn datblygu o'r blynyddoedd cynnar
- y cerrig milltir allweddol y dylai dysgwyr eu cyrraedd
- beth ddylai ymarferwyr roi ffocws eu haddysgu arno, ar gyfnodau datblygiadol gwahanol

Yn ogystal, mae'r pennaeth bron bob amser yn ymrwymo i sicrhau bod gan yr holl staff ar draws y ddau gyfnod ddealltwriaeth drylwyr o gontinwwm datblygiad iaith.

**133** Mewn ysgolion lle nad oes gan arweinwyr neu staff wybodaeth ddigon da yn aml am ddatblygiad iaith a dysgu plant, mae'n gyffredin i ysgolion gyflwyno ymagweddau rhy ffurfiol at ddysgu ac addysgu yn y cyfnod sylfaen cyn bod plant yn barod. O ganlyniad, gall hyn rwystro cynnydd dysgwyr mewn iaith a llythrennedd, yn hytrach na'i gefnogi.

**134** Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn defnyddio gweithgareddau monitro a gwerthuso yn bwrpasol i nodi anghenion dysgu proffesiynol staff mewn iaith a llythrennedd. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn canolbwyntio ar feithrin diwylliant sy'n barchus, yn ymddiriedus a chefnogol. Gyda'r rhag-amodau hyn ar gyfer llwyddo, maent yn meithrin staff ac yn adeiladu gallu'r ysgol i ddiwallu anghenion dysgwyr a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn eu profiadau a'u medrau iaith, drwy ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol buddiol. Er enghraifft, mae arweinwyr:

- yn buddsoddi mewn digwyddiadau hyfforddi i'r staff cyfan gydag ymarferwyr arbenigol neu ddarparwyr allanol, lle bo'n briodol
- yn rhoi blaenoriaeth i drafodaethau dysgu proffesiynol cyson a mynych ar destunau iaith cytûn, gyda gwaith darllen blaenorol ar gyfer staff
- yn trefnu ymweliadau ar gyfer staff i ysgolion eraill i arsylwi arfer effeithiol *in situ*
- yn cefnogi staff i ymgymryd â phrosiectau ymholi personol neu mewn grwpiau bach
- yn defnyddio arsylwi cymheiriaid, mentora a hyfforddi i gefnogi arfer fyfyriol a phennu nodau
- yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth arbenigol a chyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol yn cael eu darparu gan eu hawdurdod lleol neu gonsortiwm rhanbarthol
- yn gweithio gyda phartneriaid, fel sefydliadau addysg uwch, i gynorthwyo staff i ddefnyddio ymchwil a thystiolaeth i lywio'u harfer

**135** Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr yn datblygu prosesau cadarn ar gyfer adolygu effaith dysgu proffesiynol ar wella iaith a llythrennedd dysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn targedu adnoddau'n effeithiol, er enghraifft drwy arsylwi addysg a dysgu. Mewn ysgolion lle nad yw datblygiad proffesiynol ar gyfer addysgu iaith wedi'i ddatblygu gystal, er bod arweinwyr yn monitro agweddau generig ar addysgu iaith, nid ydynt yn

canolbwyntio'n ddigon manwl ar agweddau penodol i bwnc ar addysgu iaith. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i arweinwyr nodi'n union beth yw anghenion dysgu proffesiynol athrawon neu gynorthwywyr cymorth dysgu fel y gellir mynd i'r afael â'r rhain i sicrhau bod staff yn fwy abl i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr.


**136** Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn darparu cymorth priodol i leoliadau ac ysgolion i feithrin eu gallu a'u harbenigedd mewn iaith a llythrennedd. Yn yr enghreifftiau gorau, mae awdurdodau lleol yn darparu rhaglenni dysgu proffesiynol gwerth chweil i gynorthwyo arweinwyr a staff mewn lleoliadau ac ysgolion i wella'u gwybodaeth am addysgeg arbenigol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion lleferydd ac iaith penodol dysgwyr. Er enghraifft, mae cyfres o gyrsiau yn helpu ymarferwyr i ddeall sut i gefnogi medrau iaith derbyn a mynegiannol dysgwyr, sut i ddefnyddio strategaethau gweledol i gefnogi cyfathrebu a sut i asesu cynnydd dysgwyr. Gallwch ddarllen am y modd y mae awdurdod lleol Sir y Fflint wedi datblygu rhaglen gymorth iaith arbenigol ar gyfer ei leoliadau a'i ysgolion ar ein gwefan. Lle ceir diffygion yn narpariaeth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, mae'r hyfforddiant a'r cymorth yn generig yn aml, ac nid ydynt bob amser wedi'u personoli digon nac yn cydweddu ag anghenion ysgolion unigol.

**137** Yn ddiweddar, mae consortia rhanbarthol wedi darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr ar draws pob cyfnod oedran. Er enghraifft, maent yn hyrwyddo prosiectau llefaredd, i wella defnydd dysgwyr o iaith a siarad at ddibenion gwahanol drwy weithgareddau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg mathemateg (STEM). Ar hyn o bryd, mae consortia rhanbarthol yn dechrau ystyried sut gallant gynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i gydweithio'n fwy llwyddiannus ar draws cyfnodau oedran, er mwyn mynd i'r afael â meysydd pwysig i'w gwella yn iaith a llythrennedd dysgwyr, fel eu geirfa a'u sillafu. Er enghraifft, maent yn defnyddio cynadleddau a rhaglenni 'e-ddysgu' i helpu lleoliadau ac ysgolion i archwilio materion a ffyrdd o leihau effaith anfantais ar gyflawniadau dysgwyr mewn iaith a llythrennedd. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r gwaith hwn.



## Deunydd atodol

# Enghreifftiau o ddarpariaeth effeithiol ar gyfer iaith a llythrennedd



# Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu

## Astudiaeth achos 1


### Cyd-destun

**Dylunio'r amgylchedd dysgu i gefnogi dysgu iaith annibynnol ar draws yr ysgol gynradd**

### Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae'r ysgol yn mabwysiadu dull cyffredin o drefnu ei hystafelloedd dosbarth a'i hardaloedd awyr agored yn barthau dysgu buddiol sy'n cefnogi datblygiad medrau dysgwyr yn dda.

Mae dulliau tebyg ar draws dosbarthiadau yn y modd y mae athrawon yn trefnu adnoddau ar gyfer dysgwyr, gan ystyried eu cam datblygiad iaith. Er enghraifft, yn y parth iaith, mae dysgwyr o bob oedran yn defnyddio arddangosfeydd buddiol o eirfa, sillafu a strwythurau brawddeg, sgaffaldiau ysgrifennu a thargedau dysgu unigol i'w cynorthwyo i weithio'n annibynnol ar eu tasgau. Mae cymorth ar gyfer iaith i'w weld yn gryf ar draws parthau eraill, fel yr ardaloedd 'creadigol' a 'darganfod'.





**O'r thema, 'A wnei di ddarllen stori i mi?', mae dysgwyr yn y dosbarth derbyn yn darllen stori gyfarwydd y Tri Mochyn Bach yn y parth dysgu, ac yn creu map darluniadol i alw'r stori i gof ar lafar.**

Maent yn creu'r tai o frigau, gwellt a brics yn yr ysgol goedwig, gan ddefnyddio ansoddeiriau i ddisgrifio eu tai. Gan ddefnyddio cyd-destun go iawn Storm Ciara a ddinistriodd eu tai ar dir yr ysgol, maent yn trafod sut gallai'r moch fod wedi teimlo ar ôl i'r blaidd ddifetha eu holl waith caled.



**Mae dysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn dysgu trwy 'orchwylion' iaith a llythrennedd trawsgwricwlaidd celfydd mewn ffordd debyg i'r 'heriau' a ddarparwyd yn y cyfnod sylfaen.**

Maent yn cynhyrchu syniadau ar gyfer testunau trawsgwricwlaidd, y mae eu hathrawon yn eu 'trawsnewid' wedyn yn 'heriau' sy'n seiliedig ar fedrau y mae dysgwyr yn eu cwblhau dros bedwar prynhawn yr wythnos.

**Eich gorchwyl yw darganfod y gwahaniaeth rhwng llyfrau ffuglen a llyfrau ffeithiol.**

**Rhan un yr her:** Gan ddefnyddio diagram Venn, edrychwch ar y ddau destun. Mae'r ddau yn rhoi'r un wybodaeth yn yr un ffordd. Didolwch nodweddion y testun, gan benderfynu p'un a ydynt yn nodwedd o destunau ffuglen, testunau ffeithiol neu'r ddau.

**Rhan dau'r her:** Darllenwch y nofel graffig. Crëwch fwrdd stori ar gyfer llyfr ffuglen ar y 'System Dreulio' a fersiwn ffeithiol. Nodwch y nodweddion cyflwyniadol a fydd yn y ddau.

Mae athrawon yn sicrhau bod dysgwyr yn deall y bwriadau dysgu ar gyfer y tasgau, ac mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd i greu meini prawf llwyddiant ar gyfer pob un. Mae un orchwyl sy'n cael ei harwain gan athro, ac un orchwyl yn cael ei chefnogi gan y cynorthwyydd addysgu, a phedair her annibynnol sydd bob amser yn cynnwys o leiaf un profiad dysgu yn yr awyr agored.

Gan fod dysgwyr yn cael eu haddysgu ynghylch nodweddion genres a gwahanol ffurfiau ysgrifennu yn effeithiol mewn gwersi llythrennedd dynodedig, gallant ddefnyddio'r offer cymorth sy'n benodol i genre yn y parth iaith i'w helpu i ysgrifennu'n effeithiol at wahanol ddibenion ar draws y cwricwlwm.

## Beth yw'r effaith?

Mae ymagwedd gyson at yr amgylchedd dysgu o ddosbarth i ddosbarth yn helpu dysgwyr ddod i'r arfer â defnyddio adnoddau yn annibynnol i weithio ar heriau mewn grwpiau.

Mae dysgwyr yn defnyddio ystod eang o ddeunyddiau yn hyderus, gan gynnwys byrddau gwyn, siartiau codi ac apiau i gynllunio a chofnodi eu dysgu. Maent yn gwirio eu cynnydd yn unol â'r meini prawf llwyddiant yn rheolaidd, heb gymorth gan yr athro. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau cynllunio ac ymchwil hynod ddatblygedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu'r gallu i grynhoi prif syniadau o destunau ysgrifenedig gan ddefnyddio iaith gryno, wrth iddynt rannu eu syniadau a chyfrannu ar y cyd at y gorchwylion.

- Datblygu gallu dysgwyr i drefnu a rheoli eu dysgu yn effeithiol ac yn annibynnol
- Darparu her ar lefel briodol a chymell dysgwyr i dderbyn yr her

Yn ôl i fraslun y 'parthau dysgu'

Yn ôl i fraslun 'gorchwylion CA2'

# Astudiaeth achos 2


## Cyd-destun

**Cynllunio defnydd effeithiol o'r ardal leol a'r ysgol goedwig i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae athrawon yn Ysgol Gynradd Gymunedol Penbre yn defnyddio dulliau cyson o gynllunio ar gyfer datblygu iaith yn raddol ym mhob elfen iaith a llythrennedd ar gyfer yr holl ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio:

- stori (ar lafar neu'n ysgrifenedig) fel symbyliad ar gyfer dysgu iaith ar draws holl feysydd y cwricwlwm
- yr awyr agored a'r ardal leol i ddatblygu medrau gwrando a siarad
- chwarae rôl, drama a thrafod
- rhigymau, cerddi a chaneuon
- profiadau iaith lafar er eu lles eu hunain, ac i ysgogi ysgrifennu
- syniadau dysgwyr am beth maent eisiau ei ddysgu





**Ym Mlwyddyn 6, mae athrawon a dysgwyr yn cynllunio cyfres o wersi sy'n integreiddio datblygiad medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr yn effeithiol. Mae'r testun, dan arweiniad y dysgwr, yn dechrau ag ymweliad â'r llongddrylliadau lleol ar Draeth Cefn Sidan i archwilio chwedl Gymreig leol, 'Gŵyr y Bwyelli Bach – Chwedl am Ysbeilio ar Draeth Penbre'.**

Yn dilyn yr ymweliad, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn creu 'map' mawr gweledol o'r naratif y maent yn ei arddangos ar dir yr ysgol. Gyda chymorth gan gynorthwywyr cymorth dysgu wedi'u hyfforddi'n arbennig, sy'n cynnau tân, mae dysgwyr yn defnyddio ardal eu hysgol goedwig i 'lwyfannu' cynhyrchiad dramatig i ail-ddweud y stori, gan ddefnyddio'r pwll tywod mawr yn yr awyr agored i ysgogi'r hyn a ddigwyddodd ar y traeth.

Maent yn gweithio'n frwdfrydig fel dosbarth i ymgymryd â gwahanol rolau, fel adroddwyr, ysbeilwyr a chriw'r llong, yn perfformio chwedl y môr-ladron fel corws. Mae dysgwyr yn archwilio sut i ddefnyddio ystum, symudiadau, cerddoriaeth, odl a'r llais i gynnwys cynulleidfa mewn cyflwyniad dramatig, ac yn gwneud hynny'n hynod effeithiol yn eu perfformiad dosbarth.

Ar ôl hynny, mae athrawon yn defnyddio profiad dysgu cyffrous fel symbyliad ar gyfer ysgrifennu, lle mae dysgwyr yn cyfansoddi cofnodion dyddiadur, yn dychmygu sut byddai wedi bod y diwrnod ar ôl yr ysbeilio ar draeth Penbre.

## Beth yw'r effaith?

Mae staff yn cynllunio profiadau dysgu cyffrous yn yr awyr agored sy'n dal dychymyg dysgwyr hŷn ac yn datblygu eu medrau gwrando, siarad ac ysgrifennu yn llwyddiannus mewn cyd-destunau pwrpasol, sy'n gyfoethog o ran iaith. Mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau i addasu eu hiaith ar gyfer y gynulleidfa a'r diben.

Mae'r profiadau hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu doniau creadigol a'u medrau perfformio eu hunain fel rhan o faes dysgu a phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Hefyd, mae'r gweithgareddau'n eu hannog i ddefnyddio eu dychymyg a'u synhwyrau, ac archwilio, mireinio a chyfleu eu syniadau. Mae perfformio mewn rôl yn helpu magu hyder dysgwyr ac yn cefnogi eu hysgrifennu.

- Cynllunio cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran archwilio traddodiadau llafar adrodd storïau, barddoniaeth ac odl yng nghyd-destun chwedlau, hanes a diwylliant Cymru
- Creu cysylltiadau pwrpasol rhwng Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a maes dysgu a phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol

Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 3

## Cyd-destun

**Datblygu cysondeb a dilyniant mewn dysgu iaith trwy gynllunio ysgol gyfan**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae tîm Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ysgol yn cynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn ddatblygu, cymhwyso ac ymestyn eu medrau llythrennedd bob tymor, gan ddefnyddio'r rhaglenni astudio a'r fframwaith llythrennedd.

Ar ôl hynny, mae athrawon yn defnyddio'r trosolwg hwn fel man cychwyn ar gyfer datblygu eu mapiau cwricwlwm eu hunain, y mae'r tîm llythrennedd yn eu goruchwylio i wirio am ddilyniant, ehangder a manylder dysgu iaith.

Mae mapiau'r cwricwlwm yn nodi ble mae addysgu medrau iaith a llythrennedd penodol ar wahân yn digwydd ar gyfer pob grŵp blwyddyn, ac wedyn yn nodi cyfleoedd 'cyfoethog' o ran llythrennedd i ddysgwyr gymhwyso ac ymestyn eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae staff yn defnyddio ystod o adnoddau yn dda i'w cefnogi wrth gynllunio gweithgareddau iaith a llythrennedd sy'n galluogi dysgwyr i wneud cynnydd yn y medrau a nodwyd.

Mae athrawon yn cynllunio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau dilyniant yn natblygiad medrau dysgwyr ar gyfer agweddau penodol ar iaith a llythrennedd, fel creu brawddegau a sillafu. Maent yn nodi pa eirfa y dylai dysgwyr ddod ar ei thraws trwy addysgu gwahanol genres ysgrifennu

ym mhob grŵp blwyddyn. Yn ychwanegol, maent yn cynllunio ble maent yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol dysgwyr am nodweddion gwahanol genres, bob tro mae dysgwyr yn ymdrin â'r genre, wrth iddynt symud trwy'r ysgol, er enghraifft cyflwyno strwythurau brawddeg cynyddol amrywiol.

## Beth yw'r effaith?

Mae dull cynllunio'r ysgol yn helpu sicrhau bod disgwyliadau staff o wybodaeth a medrau dysgwyr yn briodol uchel, er enghraifft o ran y modd y mae dysgwyr yn trefnu a strwythuro eu hysgrifennu mewn ystod o destunau, a'r iaith y maent yn ei defnyddio. Mae hyn wedi helpu gwella safonau ar gyfer dysgwyr yn y cyfnod pontio o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3.

Hefyd, mae wedi helpu athrawon ym mhob dosbarth i gynllunio mwy o her ar gyfer dysgwyr mwy abl, am fod ganddynt ddealltwriaeth gliriach o'r continwwm dysgu iaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae dysgwyr mwy abl yn datblygu arddull ysgrifennu bersonol yn llwyddiannus, ac maent yn arbrofi ag addasu ffurfiau testun, fel trosi naratif yn sgript ffilm.

Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 4

## Cyd-destun

**Trefnu'r cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a geirfa dysgwyr am eu hardal leol**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae athrawon o Ysgol Gynradd Mount Stuart ym Mae Caerdydd wedi trefnu'r cwricwlwm i sicrhau bod dysgwyr yn caffael gwybodaeth a geirfa am eu hardal leol.

Maent yn defnyddio'r ardal leol yn helaeth ar gyfer teithiau ac ymweliadau, ac yn cynllunio themâu ysgol gyfan ar gyfer pob tymor sy'n eu galluogi i archwilio eu hardal yn fanwl. Er enghraifft, mae thema 'treftadaeth' yr ysgol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog ar gyfer dysgwyr, a chyfleoedd gwerth chweil i ymestyn a gwella eu geirfa mewn cyd-destunau lleol perthnasol a diddorol.

Ar gyfer y plant ieuengaf yn yr ysgol, gallai 'ymweliad' olygu taith i faes chwarae'r ysgol gydag oedolyn i gyflwyno geirfa am amgylchedd yr ysgol a hanes yr ysgol.

Wrth i blant fynd yn hŷn, mae athrawon yn gwneud defnydd da o'r lleoliadau amrywiol ger yr ysgol i ddatblygu iaith dysgwyr. Er enghraifft, mae grwpiau o blant yn ymweld â thai bwyta cyfagos i ddysgu'r eirfa sydd ei hangen i archebu pryd o fwyd, a'r theatr leol i brofi perfformiadau byw ac ehangu eu cyfle i ddysgu geiriau newydd.



**Maent yn defnyddio gweithgareddau fel gwersylla yn yr awyr agored i ddarparu profiadau y gall dysgwyr siarad ac ysgrifennu amdanynt.**

Mae'r gwaith hwn yn treiddio trwy'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r testun treftadaeth yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr gael dysgu am fewnfudo i Gaerdydd o ganlyniad i adeiladu Dociau Caerdydd.

## Beth yw'r effaith?

Trwy'r gwaith hwn, mae dysgwyr yn caffael geirfa newydd ac yn cael cyfleoedd da i ymarfer a mireinio'r defnydd o'r eirfa mewn cyd-destunau ystyrlon. Er enghraifft, mae dysgwyr hŷn yn defnyddio geiriau fel 'difodiad' ('annihilation') a 'malurion' ('debris') yn effeithiol yn ystod gwersi drama, wrth ddysgu am effaith yr Ail Ryfel Byd ar fywydau pobl a oedd yn byw yn yr ardal yn y 1940au.

Maent yn defnyddio geirfa newydd yn llwyddiannus yn eu hysgrifennu, er enghraifft wrth esbonio pwysigrwydd y dociau lleol i'r fasnach lo.

- Cynllunio cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu iaith
- Helpu dysgwyr i fyfyrio ar eu treftadaeth ddiwylliannol leol a datblygu eu synnwyr eu hunain o hunaniaeth Gymreig

< Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau | Argymhellion | Dysgu | Darpariaeth | Arweinyddiaeth | Astudiaethau achos | Cymorth dysgu proffesiynol | Ymchwil | Atodiadau

# Astudiaeth achos 5

## Cyd-destun

**Defnyddio 'wythnosau ffocws' i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6 'dyrchu' i agwedd ar ddysgu mewn iaith a llythrennedd.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Am y 10 mlynedd ddiwethaf, mae Ysgol Gynradd Ewloe Green yn Sir y Fflint wedi cynnal 'wythnosau ffocws' lle caiff dysgwyr eu trochi mewn pwnc neu faes cwricwlwm penodol. Yn ystod yr wythnosau hyn, mae'r pwyslais ar ddysgu trwy brofiad, ac yn darparu cyfle i ddysgwyr ymgysylltu'n ddyfnach ag agwedd ar ddysgu. Caiff yr holl ddysgwyr eu cynnwys yn yr wythnosau ffocws, o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6.



**Am bythefnos, mae ffocws ysgol gyfan ar iaith a llythrennedd sy'n gysylltiedig â datblygu medrau mynegiannol dysgwyr. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r ffocws wedi bod ar ddatblygu geirfa a medrau ysgrifennu creadigol dysgwyr trwy astudio dramâu Shakespeare yn fanwl.**

Eleni, mae dysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn wedi dewis chwedl o'r Mabinogi yn destun i'w gwaith. Maent yn nodi themâu allweddol, ac yn golygu'r stori wreiddiol i hyd hylaw. Maent yn dechrau ysgrifennu sgript, gan ddatblygu cymeriadau a drafftio golygfeydd yn eu grwpiau yn y dosbarth. Maent yn perfformio eu drafftiau ar gyfer eu cyfoedion, sy'n rhoi adborth adeiladol i'w helpu i wella'u gwaith. Wedyn, mae pob grŵp blwyddyn yn gweithio i gwblhau eu sgript, dyrannu rolau a pharatoi ar gyfer eu perfformiad.



## Beth yw'r effaith?

Mae gwneud hyn yn brosiect ysgol gyfan yn dod â bywyd, cyffro a momentwm i waith dysgwyr. Mae'r broses yn rhoi diben clir ar gyfer ysgrifennu a datblygu eu medrau siarad i'r holl ddysgwyr, wrth iddynt greu eu darn o lenyddiaeth eu hunain a pharatoi i'w berfformio.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan yn llawn mewn datblygu gwaith o safon uchel. Maent yn gwthio ffiniau eu dysgu ac yn aml yn cyflawni llawer mwy nag yr oeddent yn meddwl oedd yn bosibl. Mae dysgwyr yn siarad yn angerddol am y gwahanol gymeriadau yn y storïau, a llawer ohonynt yn magu hyder wrth berfformio.

Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau | Argymhellion | Dysgu | Darpariaeth | Arweinyddiaeth
Astudiaethau achos | Cymorth dysgu proffesiynol | Ymchwil | Atodiadau

# Addysgu ac asesu

**Enghreifftiau o arfer effeithiol o ran:**

- **datblygu medrau gwrando a siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr**
- **datblygu geirfa dysgwyr**

## Astudiaeth achos 1

### Cyd-destun

**Cefnogi datblygiad iaith trwy chwarae creadigol mewn dosbarth meithrin**

### Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?



Mae ymarferwyr yn modelu iaith wrth chwarae rôl yn dda i gefnogi datblygiad lleferydd ac iaith plant, er enghraifft wrth gymryd arnynt eu bod yn mynd ar awyren, ac yn hedfan awyren.

Maent yn cyflwyno iaith gysylltiedig newydd ac yn gofyn cwestiynau sy'n annog plant i feddwl drostynt eu hunain a symud eu dysgu iaith ymlaen trwy chwarae dychmygus. Maent yn asesu dealltwriaeth dysgwyr o arddodiaid cyffredin, fel 'ar ben' ('on'), 'o dan' ('under'), o flaen' ('front') a 'tu ôl' ('behind').

### Beth yw'r effaith?

Mae plant yn dysgu dilyn a rhoi cyfarwyddiadau â nifer o gamau, er enghraifft pan fydd 'y gweinydd hedfan' yn gofyn i'r teithwyr roi eu bagiau yn y locer, eistedd i lawr a chau eu gwregysau sedd.

Mae rhyngweithio ystyriol gan oedolion o fudd i fedrau cymdeithasol a medrau cyfathrebu plant, gan eu bod yn dysgu defnyddio cyswllt llygad, cymryd eu tro a gwrando ar ei gilydd.

Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 2

## Cyd-destun

**Modelu rôl iaith a darparu profiadau ymarferol i gefnogi datblygiad iaith lafar ac ysgrifenedig dysgwyr**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae staff mewn ysgol drefol sydd â chyfran uchel o ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn nodi bod medrau cyfathrebu gwael gan lawer o blant sy'n dechrau yn yr ysgol.



**Mae staff yn treulio amser yn datblygu perthynas â'r plant, chwarae ochr yn ochr â nhw, a modelu geirfa allweddol.**

Er enghraifft, yn ystod yr hanner tymor cyntaf, maent yn modelu sut i ddefnyddio'r ardal chwarae rôl. Maent yn defnyddio'r ardal hon i gyflwyno plant i iaith ddisgrifiadol a chyfarwyddol ar gyfer coginio, gan ddefnyddio ffotograffau yn eu trefn i gefnogi'r gweithgaredd. Mae ymarferwyr yn ailadrodd geiriau allweddol ac yn siarad yn eglur am sut i ddilyn rysáit wrth iddynt ddangos sut i goginio.

Mae staff yn cydnabod bod gan lawer o blant ystod gyfyng o brofiadau bywyd, felly maent yn efelychu gwahanol brofiadau gan ddefnyddio amgylchedd awyr agored yr ysgol. Er enghraifft, maent yn 'ymweld â lan y môr' gan ddefnyddio ardal y pwll tywod a'r dŵr, lle mae dysgwyr yn defnyddio botymau sain i wrando ar gyfarwyddiadau ar sut i adeiladu cestyll tywod a siarad am eu profiad o deimlo tywod a dŵr. Ar ôl hynny, maent yn ail-greu eu 'hymweliad â lan y môr' wrth chwarae blociau. Mae dysgwyr yn defnyddio'r profiadau ymarferol hyn i ddatblygu eu hysgrifennu disgrifiadol eu hunain am lan y môr.



## Beth yw'r effaith?

Mae plant yn datblygu eu medrau iaith derbyngar a mynegiannol trwy ryngweithio wedi'i gynllunio'n ofalus ar sail un i un neu mewn grŵp bach, sy'n ehangu cwmpas eu profiadau. Mae hyn yn helpu plant i roi a derbyn cyfarwyddiadau syml a disgrifio eu profiadau go iawn neu brofiadau a ddychmygwyd. Mae ymarferwyr yn eu helpu i greu cysylltiadau rhwng iaith lafar ac iaith ysgrifenedig i gefnogi eu datblygiad ysgrifennu cynnar.

# Astudiaeth achos 3

## Cyd-destun

**Defnyddio asesu yn effeithiol i wella medrau gwrando dysgwyr ifanc**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Yn Ysgol Gynradd Woodlands yn Nhorfaen, mae arweinwyr a staff yn nodi nad yw medrau gwrando lleiafrif o blant wedi'u datblygu'n ddigonol pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Mae eu hasesiadau'n dangos nad yw plant yn aml yn meddu ar y medrau i ynysu synau maent yn eu clywed yn yr amgylchedd nac mewn geiriau. Yn aml, maent yn canolbwyntio ar air olaf brawddeg neu gyfarwyddyd ac yn seilio'u hateb ar yr un gair hwnnw yn unig.

Mae ymarferwyr yn cydnabod bod yn rhaid i blant allu gwrando ar dri chlap ac ailadrodd y rhain, os yw dysgwyr yn gallu gwneud cynnydd â dysgu geiriau syml cytsain-llafariad-cytsain.

Mae'r dosbarth meithrin yn canolbwyntio ar waith 'sain' rhagarweiniol i gydweddu i ddysgu plant. Mae hyn yn cynnwys:

- chwarae gemau gwrando i adnabod synau bob dydd y tu allan ac yn y cartref
- copïo patrymau syml gan ddefnyddio curo dwylo ac offerynnau cerdd
- gwrando ar gyfarwyddiadau syml, eu hailadrodd ac wedyn eu cwblhau

## Beth yw'r effaith?

Mae ymarferwyr yn helpu gosod sylfeini hanfodol ar gyfer datblygu gallu plant i ddarganfod seiniau, gwahaniaethu rhyngddynt, a'u hadnabod a'u deall mewn geiriau a brawddegau.

Mae hyn yn helpu darparu'r blociau adeiladu ar gyfer datblygu lleferydd, ymwybyddiaeth ffonolegol a darllen dysgwyr. Hefyd, mae hyn yn gwella gallu plant i ganolbwyntio eu sylw a'u lefelau canolbwyntio, er enghraifft i wrando ar stori.



Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 4

## Cyd-destun

**Defnyddio dull hynod strwythuredig i asesu a datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae medrau gwrando a siarad dysgwyr sy'n dechrau yn Ysgol Heulfan yn Wrecsam ymhell islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae lleferydd cyfran uchel ohonynt yn gyfyngedig, os oes ganddynt unrhyw leferydd o gwbl, pan fyddant yn ymuno â'r dosbarth meithrin, ac mae ychydig ohonynt yn cael cymorth arbenigol gan therapyddion lleferydd ac iaith i ddatblygu eu hiaith gynnar. Mae staff hynod hyfforddedig a phrofiadol yn asesu medrau iaith derbyngar a mynegiannol dysgwyr unigol o fewn y pythefnos gyntaf o ddechrau yn y dosbarth meithrin.

Ar ôl hynny, mae staff yn cynllunio gweithgareddau lleferydd a chyfathrebu â ffocws, gan greu amserlenni unigol, i weddu i anghenion penodol pob dysgwr. Trwy weithgareddau yn seiliedig ar chwarae a dysgu trwy brofiad, mae staff yn monitro'r cynnydd a wna'r holl ddysgwyr. Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn cefnogi staff i gwblhau rhaglenni ymyrraeth yn effeithiol gyda dysgwyr unigol sydd angen cefnogaeth ddwys.

**Mae pob un o'r staff yn y cyfnod sylfaen wedi cwblhau hyfforddiant i ddefnyddio iaith arwyddion sylfaenol gyda dysgwyr trwy gydol y dydd.**

Yn y dosbarthiadau meithrin, mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn sesiynau 'Canu ac Arwyddo' dyddiol lle mae staff yn eu hannog i arwyddo geirfa allweddol. Mae staff yn defnyddio'r un eirfa (ar lafar a thrwy arwyddo) yn ystod pob sesiwn i ddisgrifio eu harferion dyddiol yn yr ystafell ddosbarth a'r tywydd, y mae'r plant yn eu dysgu 'ar y cof'.

Mae'r ysgol yn darparu sesiynau i rieni ar iaith arwyddion, y mae'n eu cynnal trwy brosiect Ymgysylltu â Theuluoedd a'r Gymuned. Wedi i ddysgwyr ymgyfarwyddo â'r arwyddion, mae staff yn defnyddio geiriau Cymraeg yn lle Saesneg. Mae hyn yn golygu bod y plant yn ymgyfarwyddo â diwylliant dwyieithog, ac yn datblygu'r gallu i ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyflym ochr yn ochr â'r arwyddo. Yn y pen draw, pan ddaw lleferydd dysgwyr yn glir, ac mae eu dealltwriaeth o'r eirfa yn y ddwy iaith yn gadarn, mae staff yn rhoi'r gorau i ddefnyddio arwyddion.

Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae staff yn cynllunio gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar wella eglurder lleferydd dysgwyr, a'u defnydd o eirfa. Mae staff yn siarad â dysgwyr unigol ar lefel sy'n briodol i'w cam datblygiad iaith. Maent yn eu hannog i atalnodi geiriau yn gywir, ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu strwythurau gramadegol yn dda. Er enghraifft, maent yn modelu ymadroddion cywir, fel 'Yes, you went there' wrth ateb dysgwr sy'n dweud, 'I did went there'.

Mae dysgwyr hŷn cyfnod allweddol 2 yn ymweld â'r dosbarthiadau meithrin yn rheolaidd i sgwrsio â'r plant iau mewn sesiynau byr neu brosiectau sy'n helpu datblygu medrau cyfathrebu dysgwyr iau a gallu dysgwyr hŷn i ddisgrifio ac esbonio. Trwy fodelu geirfa newydd a phatrymau brawddeg estynedig, mae'r plant iau yn awyddus i ddynwared a defnyddio'r medrau newydd hyn yn eu chwarae eu hunain.

Yn ystod addysgu dosbarth cyfan, mae athrawon yn dewis storïau ag iaith ailadroddus i hyrwyddo a datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr. Fel arfer, maent yn darllen y storïau hyn gyda dysgwyr dros gyfnod o bythefnos, ac mae dysgwyr yn cynllunio eu gweithgareddau eu hunain yn seiliedig ar y storïau. Pan fydd dysgwyr yn dangos parodrwydd i ddysgu am lythrennau a'u seiniau, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni i'r ysgol i ddysgu am ffonemau ochr yn ochr â'u plant.

## Beth yw'r effaith?

Mae dull hynod strwythuredig yr ysgol o asesu a datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol yn helpu'r rhai sydd â medrau lleferydd a chyfathrebu gwan i wneud cynnydd cyflym.

Trwy strategaethau, fel ailadrodd a modelu a defnyddio ffurfiau eraill o gyfathrebu, mae staff yn cefnogi dysgwyr yn dda i ymgyfarwyddo â phatrymau a rhythmau iaith yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Mae staff yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr glywed ac ymarfer eu medrau, er enghraifft trwy siarad â chyfoedion, oedolion a dysgwyr hŷn. Mae hyn yn eu helpu i allu ymateb yn gadarnhaol yn gynyddol i ofynion iaith yr ystafell ddosbarth.

Mae cynnwys rhieni yn eu helpu i werthfawrogi'r profiadau sydd eu hangen ar eu plant i ddatblygu eu medrau iaith a llythrennedd, ac yn eu cefnogi'n effeithiol i ddarparu'r rhain.

- Darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn siarad digymell a chynlluniedig gydag ystod o gyfoedion ac oedolion
- Meithrin partneriaethau cryf gyda rhieni a gofalwyr



Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 5

## Cyd-destun

**Defnyddio'r ardal leol a'i hanes i ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

**Ar ôl gofyn i blant mewn lleoliad nas cynhelir gwledig am beth hoffent ddysgu, maent yn dewis testun 'môr-ladron'.**



Wedyn, mae ymarferwyr yn trefnu taith i'r traeth lleol lle mae'r plant yn gwisgo i fyny fel môr-ladron ac yn disgrifio eu hymddangosiad. Maent yn teithio ar y bws lleol, gan gyfarch y gyrrwr a phrynu eu tocynnau. Maent yn casglu cregyn, gan ddefnyddio eu synhwyrau gweld a chyffwrdd i ddisgrifio eu siapiau, eu gwead a'u lliwiau, yn ogystal â 'cherdded y planc'!



**Mae athrawon mewn ysgol gynradd yn defnyddio hanes lleol i ddatblygu medrau gwrando, siarad ac ysgrifennu dysgwyr. Yn y thema 'Teithiwr Amser' ('Time Traveller'), mae dysgwyr Blwyddyn 5 yn teithio'n ôl 50 mlynedd i gyfnod pan oedd trigolion lleol yn gwrthwynebu cynlluniau'r Weinyddiaeth Amddiffyn i droi traeth Cefn Sidan yn faes saethu. Fel rhan o'u gweithgareddau cynllunio'r cwricwlwm, mae dysgwyr yn nodi eu bod yn dymuno ail-greu'r brotest.**

Mae aelodau o'r gymuned leol yn ymweld â'r ysgol i siarad â dysgwyr ac ateb eu cwestiynau am y digwyddiadau hyn. Mae dysgwyr yn creu sgript a baneri i gyflwyno eu dadleuon mewn rali brotest, y maent yn ei chynnal ar dir yr ysgol. Maent yn arwain taith gerdded gymunedol 'Achub ein traeth' ('Save our sands') (SOS) gyda chyflwynydd tywydd enwog o BBC Wales News, cynghorwyr lleol, aelodau o'r gymuned a'u rhieni.

## Beth yw'r effaith?

Mae defnyddio'r ardal leol yn darparu cyd-destun cyfoethog ar gyfer datblygu geirfa plant ifanc, ac yn helpu ehangu ystod y testunau y gallant eu trafod. Mae disgrifio eu gweithgareddau, creu cysylltiadau rhwng digwyddiadau a phrofiadau, a darparu esboniadau, yn helpu datblygu strwythur eu hiaith lafar, fel ei bod yn dechrau ymdebygu i frawddegau oedolion.

I ddysgwyr hŷn, mae digwyddiad hanesyddol lleol yn darparu cyd-destun go iawn iddynt ddatblygu iaith rhyngweithio cymdeithasol, defnyddio confensiynau priodol wrth gyfweld, dewis geirfa ar gyfer effaith, a darparu dadleuon argyhoeddiadol a thystiolaeth i gefnogi safbwynt.

‹ Yn ôl i fraslun y 'môr-ladron'

‹ Yn ôl i fraslun y 'teithiwr amser'

# Astudiaeth achos 6

## Cyd-destun

**Gwella medrau gwrando dysgwyr hŷn trwy faterion cyfoes**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

**Mae staff yn Ysgol Gynradd Gaer yng Nghasnewydd yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu i ddatblygu galluoedd dysgwyr cyfnod allweddol 2 i wrando'n barchus ar ei gilydd, gwerthfawrogi barn ei gilydd, gwrando'n ofalus er mwyn datblygu eu safbwyntiau ymhellach yn ystod trafodaethau grŵp a dosbarth.**

Er enghraifft, maent yn defnyddio sgaffaldiau, fel cwestiynau, i gefnogi dysgwyr i wrando'n gydwybodol a meddwl yn fanwl am fater neu broblem.

Maent yn annog dysgwyr i feddwl mewn gwahanol ffyrdd – i ystyried ffeithiau, rhoi ymateb emosiynol, meddwl am eu dulliau meddwl eu hunain, meddwl yn greadigol, ystyried atebion cadarnhaol, ac ystyried heriau neu wendidau mewn dull.

Lle bo'n bosibl, mae staff yn cysylltu gweithgareddau gwrando a siarad â phynciau cyfoes, er enghraifft 'Brexit'. Maent yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr arsylwi sut mae siaradwyr sefydledig, fel gwleidyddion a chyfwelwyr, yn gwrando ar gwestiynau a'u hateb, gan ddefnyddio ffeithiau a ffigurau i gefnogi eu safiad.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu dysgwyr i wrando'n fwy astud ar yr hyn mae eu cyfoedion yn ei ddweud, i fonitro eu dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei glywed, a myfyrio ac ymateb yn hyderus, gan gefnogi eu barn â thystiolaeth.

Mae dysgwyr wedi cydnabod pwysigrwydd dysgu bwriadol i ddylanwadu ar bobl eraill, a thrafod â nhw, ac ystyried eu rhagdybiaethau a'u barnau eu hunain.

Mae'r gwaith hwn wedi cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu gallu i gyflwyno barn ystyriol a gwybodus wrth ysgrifennu am destunau trafod, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyrau am faterion lleol.

- Dysgu rhannu meddyliau a barn sy'n dangos empathi a pharch
- Myfyrio ar ddewisiadau iaith lafar ac ysgrifenedig

Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 7

## Cyd-destun

**Defnyddio carwsél o weithgareddau iaith a llythrennedd i ddatblygu a mireinio medrau siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Ddwywaith yr wythnos, mae pob dosbarth cyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan mewn carwsél o weithgareddau iaith a llythrennedd i wella medrau darllen a deall dysgwyr, a'u defnydd o strategaethau darllen, eu medrau ffurfio brawddegau a golygu, a gwrando a siarad at wahanol ddibenion.

Mae'r athro a'r cynorthwyydd cymorth dysgu yn addysgu grwpiau yn uniongyrchol, tra bod y grwpiau eraill yn gweithio'n annibynnol i ymarfer ac atgyfnerthu eu medrau. Mae'r holl weithgareddau'n berthnasol i destun neu thema llythrennedd y dosbarth, ac yn herio dysgwyr. Er enghraifft, mewn darllen, mae staff yn darparu setiau gwahaniaethol o gwestiynau sy'n datblygu medrau dysgwyr o ran dod i gasgliad, gwerthuso a gwerthfawrogi.

Mae staff yn modelu'r defnydd o'r cwestiynau hyn yn ystod eu sesiynau addysgu, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio'r rhain yn annibynnol a gyda'i gilydd. Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud yn agos â'r disgwyliadau yng nghynllun gwaith iaith a llythrennedd yr ysgol, ac mae'r pwyslais ar dystiolaeth o ddealltwriaeth dysgwyr trwy eu hatebion llafar, yn hytrach na thrwy atebion ysgrifenedig.

Ar ôl hynny, mae dysgwyr yn defnyddio'r cwestiynau hyn yn sbardunau i greu adolygiadau llyfr ar lafar y maent yn eu recordio gan ddefnyddio ap ar gyfer eu cyfoedion. Mae'r rhain ar gael i bob dysgwr wrando arnynt, i'w helpu i ddewis eu llyfrau.

## Beth yw'r effaith?

O'u hasesiadau ffurfiannol o gynnydd dysgwyr mewn gwersi iaith a llythrennedd, mae athrawon yn nodi medrau manwl gywir ar gyfer gwella yn ystod y carwsél o weithgareddau ddwywaith yr wythnos.

Mae hyn yn galluogi athrawon i fynd i'r afael â bylchau yng ngwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr, i addysgu medrau craidd i grwpiau bach o ddysgwyr, ac atgyfnerthu dysgu trwy ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu medrau. Hefyd, mae dysgwyr yn datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol ar lefel sy'n briodol o heriol.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o recordiadau sain a fideo dysgwyr o'r gweithgareddau carwsél i asesu eu cynnydd yn y tasgau gwrando, siarad a darllen annibynnol, yn ogystal â'u hysgrifennu.

Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 8

## Cyd-destun

**Defnyddio enghreifftiau o 'feddwl yn uchel' ('think alouds') (Harvey a Goudvis, 2013) i fodelu strategaethau darllen i ddysgwyr**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

**Mae athrawon yn esbonio i ddysgwyr yn y cyfnod sylfaen fod gan ddarllenwyr ddau lais: llais 'siarad' a llais 'meddwl'.**

Y llais siarad yw'r llais mae pobl yn ei glywed pan fyddant yn darllen ar goedd. Y llais 'meddwl' yw'r llais yn eu pen na all pobl eraill ei glywed, ond mae darllenwyr da yn talu sylw i'r llais hwn pan fyddant yn darllen. Mae athrawon yn modelu sut maent yn gwrando ar eu meddwl trwy eirio eu meddyliau. Er enghraifft:



**Pan rwy'n gweld y llythyren 'c', rwy'n gwybod ei fod yn gallu gwneud sŵn 'k' fel yn 'cat' ond hefyd yn gallu gwneud sŵn 's' fel yn 'city'...**

**Pan rwy'n darllen y rhan hon o'r stori, rwy'n dechrau meddwl am...**

**Mae fy llais meddwl yn gwneud i mi feddwl tybed a yw hwn yn gwestiwn 'yn y fan a'r lle', lle gallaf ddod o hyd i'r ateb yn y llyfr, neu a oes angen i'r ateb ddod oddi wrthyf i...**

**Rwy'n cael trafferth darllen y gair hwn, felly rwy'n meddwl bod angen i mi ddefnyddio strategaeth i'm helpu i. Rwy'n mynd i ddarllen ymlaen at ddiwedd y frawddeg i weld a ydw i'n gallu gwneud synnwyr o beth gallai'r gair fod...**

**'Ar y dudalen hon, does dim ysgrifennu, ond mae llun manwl. O'r llun hwn, rwy'n gallu gweld...Efallai fod yr awdur yn ceisio rhoi gwybodaeth i ni am sut mae'r cymeriad yn teimlo, heb ysgrifennu unrhyw eiriau. Rwy'n meddwl bod ei golwg yn dweud wrthyf i...'**

Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn adeiladu ar yr iaith feddwl hon i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu medrau darllen mwy datblygedig, fel cyfosod a gwerthuso. Er enghraifft:

**Rwy'n gwybod eisoes bod crynhoi yn golygu tynnu allan y syniadau allweddol a'u hailysgrifennu mewn paragraff byr yn fy ngeiriau fy hun. Mae cyfosod ychydig fel ychwanegu haen arall at ein darllen, felly mae angen i mi gyfuno syniadau o wahanol destunau a meddwl amdanyn nhw. Rwy'n meddwl y gwnaf i hyn drwy...**

**Rwy'n meddwl bod angen i mi fod yn ofalus wrth ddarllen yr erthygl papur newydd hon ar gyfer fy ymchwil ar yr Ail Ryfel Byd. A yw popeth sydd wedi'i ysgrifennu yma yn ffaith? Efallai mai dyma farn yr awdur neu efallai fod yr erthygl yn unochrog mewn rhyw ffordd? Efallai mai'r rhesymau am hynny yw...**

## Beth yw'r effaith?

Trwy egluro'r medrau y mae darllenwyr effeithiol yn eu cymhwyso pan fyddant yn darllen, mae athrawon yn helpu dysgwyr i ddatblygu geirfa am ddarllen a meddwl.

Mae'r dull hwn o fodelu prosesau meddwl yn cefnogi dysgwyr i gymhwyso ystod eang o strategaethau darllen pan fyddant yn darllen testun yn annibynnol, er enghraifft sut i ddefnyddio cliwiau i wneud synnwyr o'r hyn y maent yn ei ddarllen.

Mae'n helpu dysgwyr i fonitro eu dealltwriaeth o destun wrth iddynt ddarllen, a bod yn ddarllenwyr beirniadol a detholgar.

- Modelu eglur i ddatblygu medrau metawybyddol dysgwyr
- Mae athrawon yn cyflwyno'r dulliau hyn mewn gweithgareddau addysgu a dysgu bob dydd



Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau | Argymhellion | Dysgu | Darpariaeth | Arweinyddiaeth
Astudiaethau achos | Cymorth dysgu proffesiynol | Ymchwil | Atodiadau

# Astudiaeth achos 9

## Cyd-destun

**Defnyddio barddoniaeth i ddatblygu medrau darllen a siarad dysgwyr ym Mlynyddoedd 5 a 6**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

**Mae athrawon yn Ysgol Gynradd Tywyn yn creu dilyniant o wersi iaith, gan ddefnyddio baled 'Timothy Winters' gan Charles Causley, i ddatblygu medrau darllen datblygedig dysgwyr, sef rhesymu, dod i gasgliad, gwerthuso a gwerthfawrogi.**

Maent yn cynllunio gweithgareddau yn ofalus i roi dealltwriaeth ddyfnach i ddysgwyr o gymeriadau, a'u cynorthwyo i ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon i arbrofi â chymeriadu a datblygu eu gallu i berfformio mewn rôl.

Trwy holi effeithiol a thrafodaeth dosbarth cyfan, mae athrawon yn cynorthwyo dysgwyr i ddadansoddi'r gerdd i ddeall ei chymeriadau a'r themâu gwaelodol heriol. Caiff dysgwyr eu hannog i fynegi eu barn trwy gyfeirio at y testun a dyfynnu'n uniongyrchol ohono i gefnogi eu barn, er enghraifft wrth drafod diffyg maeth y bachgen ifanc. Yn dilyn hyn, mae athrawon yn cynllunio cyfres o weithgareddau i edrych ar sut mae testunau'n newid pan gânt eu haddasu at wahanol gyfryngau a chynulleidfaoedd.

Mae dysgwyr yn dadansoddi fersiwn wedi'i hanimeiddio o'r gerdd ac yn archwilio sut mae'r elfennau llafar yn gweithio ar y cyd â delweddau, cerddoriaeth, effeithiau sain a thawelwch. Mae holi gan athrawon yn ymestyn dysgwyr i ddatblygu eu medrau gwerthuso a gwerthfawrogi, trwy ystyried effaith dewisiadau creadigol yr animeiddiwr ar adrodd stori Timothy Winters.

Mae athrawon yn gosod her i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gerdd i ymgymryd â rôl cymeriad penodol a darparu datganiad tyst i swyddog heddlu ar y ffordd y cafodd Timothy Winters ei drin.

Mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd i greu eu meini prawf llwyddiant eu hunain ar gyfer yr her drama grŵp. Maent yn cynllunio eu rolau, gan gyfeirio at y meini prawf llwyddiant, ac yn arbrofi ag iaith, gan ddyfynnu darnau o'r gerdd i ddod â'u cymeriadau yn fyw. Mae dysgwyr mwy abl yn gwneud dewisiadau iaith mwy gofalus i apelio'n emosiynol at eu cynulleidfa. Mae pob grŵp yn perfformio ei ddehongliad dramatig o 'Timothy Winters' ac mae dysgwyr yn defnyddio'r meini prawf llwyddiant i werthuso eu heffeithiolrwydd.

## Beth yw'r effaith?

Trwy addysgu o ansawdd uchel a gweithgareddau wedi'u cynllunio'n ofalus, lle mae medrau darllen, gwrando a siarad yn ategu ei gilydd, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth a dehongliad aeddfed o destun.

Maent yn datblygu empathi am gymeriadau, yn ystyried themâu heriol ac yn archwilio'r modd y mae beirdd ac animeiddwyr yn defnyddio dyfeisiau creadigol i effeithio ar gynulleidfa, er enghraifft trwy ddewis delweddau, geirfa, onglau camera, lliw a cherddoriaeth.

Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu datblygu medrau dysgwyr o ran rhesymu a dod i gasgliad i lefel uchel, ac yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn trafodaethau bywiog i feithrin eu medrau gwerthuso a gwerthfawrogi.

Mae dysgwyr yn dewis geirfa anturus eu hunain yn eu perfformiadau dramatig, gan ddangos dealltwriaeth soffistigedig o bŵer ac effaith iaith lafar ar y gwrandäwr, yn eu hymdrechion i sbarduno empathi am drafferthion Timothy Winters.

Mae dysgwyr yn defnyddio'r meini prawf llwyddiant yn bwrpasol i roi beirniadaeth adeiladol i'w gilydd yn ystod eu hymarferion, ac ar ôl eu perfformiadau terfynol.

- Defnyddio testunau aml-ddull a heriol i feithrin mwynhad dysgwyr o ddarllen a gwylio pwrpasol

Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 10

## Cyd-destun

**Defnyddio technoleg ac asesu ffurfiannol yn effeithiol i wella ansawdd ysgrifennu dysgwyr**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

**Trwy ei phrosesau hunanwerthuso, nododd arweinwyr a staff yn Ysgol Gynradd Trinant fod adborth llafar i ddysgwyr o bob oedran yn cael mwy o effaith ar eu cynnydd mewn iaith a llythrennedd nag adborth ysgrifenedig maith.**

Maent yn defnyddio amser dysgu proffesiynol dynodedig i ystyried sut gallent integreiddio adborth yn well yn y broses ysgrifennu, ac yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am nodi a gwneud gwelliannau i'w hysgrifennu.

Mae pob dosbarth o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn cyflwyno'r dull 'amlygu a thagio' ('flag and tag') yn ystod seibiannau byr mewn sesiynau ysgrifennu. Mae athrawon yn cyfeirio dysgwyr at agweddau penodol ar y meini prawf llwyddiant ysgrifennu, ac yn gofyn iddynt oedi ac adolygu'r gwaith y maent yn ei wneud ar y pryd. Os ydynt wedi cyflawni'r agwedd honno ar y meini prawf llwyddiant trwy eu hysgrifennu, maent yn 'amlygu hyn' gan ddefnyddio pen ysgrifennu arbennig. Os nad ydynt wedi cyflawni'r agwedd hon eto, maent yn ei 'thagio' i wella eu hysgrifennu.

Mae athrawon yn defnyddio dychmygydd yn effeithiol i rannu gwaith dysgwyr gyda'r dosbarth, ac yn cefnogi'r broses fyfyrio a gwella 'ar y pryd' hon. Lle bo'n briodol, mae'r athro'n defnyddio'r 'seibiant' hwn fel cyfle i addysgu agwedd ar ysgrifennu yn uniongyrchol, er enghraifft sut i gyfuno brawddegau syml i ffurfio brawddeg aml- gymal.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r dull hwn yn annog dysgwyr i fyfyrio'n bwrpasol ar feini prawf llwyddiant wrth ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa a diben penodol.

Mae rhannu a gwerthuso'r gwaith y maent yn ei wneud ar hyn o bryd yn helpu sicrhau bod dysgwyr yn gwrando ar yr adborth ac yn dysgu oddi wrtho. O ganlyniad, gallant 'feithrin' agweddau penodol ar eu hysgrifennu yn llwyddiannus.

Mae'r amser a neilltuir gan athrawon mewn gwersi i ddysgwyr ailddrafftio a mireinio eu hysgrifennu yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth dda o ysgrifennu 'fel proses', a pham mae'n bwysig gwneud newidiadau i'w wella.



Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 11

## Cyd-destun

**Dull tair ysgol o ddatblygu sillafu dysgwyr trwy ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer staff**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

### Ysgol A

**Mae arweinwyr a staff mewn ysgol gynradd yn cydnabod bod sillafu dysgwyr yn wendid, a rhoddir blaenoriaeth i hyn yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae staff yn defnyddio cyfres o sesiynau dysgu proffesiynol wythnosol i bob un o'r staff er mwyn darganfod mwy am ddamcaniaethau datblygu sillafu.**

Maent yn trafod damcaniaethau sydd wedi canolbwyntio ar sillafu fel rhywbeth sy'n datblygu fesul camau (er enghraifft, Gentry 1982) ac ymchwil fwy diweddar sy'n awgrymu bod y dull graddol yn gorsymleiddio'r modd y mae plant yn datblygu eu gwybodaeth am sillafu. Maent yn ystyried yr ymchwil yn ofalus ac yn meddwl am ddysgwyr yn eu dosbarthiadau, gan nodi bod rhai ohonynt yn dangos agweddau ar sawl cam sillafu ar yr un pryd.

Fel tîm, maent yn cytuno bod angen iddynt archwilio dulliau addysgu, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau ar gyfer sillafu, sy'n gofyn i ddysgwyr ddefnyddio:

- cyfuniad o **wybodaeth ffonolegol** (gwybodaeth am yr unedau sain sy'n creu geiriau)

- **gwybodaeth orthograffig** (dealltwriaeth o sut caiff iaith lafar ei chynrychioli mewn print)
- **gwybodaeth forffolegol** (gwybodaeth am rannau o eiriau a phatrymau geiriau)

Mae staff yn nodi bod angen iddynt dreulio mwy o amser yn addysgu dysgwyr am ragddodiaid, ôl-ddodiaid a gwreiddiau geiriau. Yn ychwanegol, maent yn cytuno i weithio ar fodelu a datblygu defnydd dysgwyr o'r strategaethau sillafu canlynol:

- seinio geiriau ar goedd
- defnyddio'r geiriau maen nhw eisoes yn gwybod y gallant eu sillafu (er enghraifft geiriau aml eu defnydd)
- rhannu geiriau yn sillafau
- gwybod rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid a beth maent yn ei olygu
- archwilio llinynnau llythrennau a phatrymau geiriau
- defnyddio gwybodaeth am strwythurau geiriau ac ystyr (er enghraifft tarddiadau geiriau)
- defnyddio sillafiadau cyfarwydd fel y sylfaen ar gyfer sillafu geiriau â phatrymau tebyg yn gywir neu adeiladu arnynt oddi wrth eu hystyr
- rhagweld trefn fwyaf tebygol llythrennau mewn geiriau (er enghraifft bod 'u' yn debygol o ddilyn 'q')
- defnyddio strategaethau gweledol i edrych ar siâp a hyd geiriau
- ymchwilio i 'reolau' sillafu, eu heithriadau a'u hynodrwydd (er enghraifft, mae 'in' yn mynd yn 'im' cyn gair gwreiddyn yn dechrau â 'm' neu 'p', fel yn 'impossible')
- defnyddio mnemoneg ar gyfer cofio geiriau anodd

## Ysgol B

**Mewn ysgol iau, mae staff yn canolbwyntio ar wella eu gwybodaeth am y modd y mae'r system sillafu yn gweithio trwy ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol. Mae hyn yn rhoi'r medrau a'r hyder iddynt ddadansoddi camgymeriadau sillafu dysgwyr ac ystyried beth mae'r camgymeriadau hyn yn ei ddweud wrthynt am gam datblygiad sillafu dysgwyr.**

Gyda'i gilydd, mae staff yn penderfynu y byddant yn arbrofi â *pheidio* â rhoi adborth ysgrifenedig ar gamgymeriadau sillafu pan fydd dysgwyr yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig. Yn hytrach, byddant yn dadansoddi sillafu ar draws grwpiau o ddysgwyr yn eu dosbarthiadau, gan nodi camgymeriadau a phatrymau camsillafu cyffredin. Byddant yn defnyddio hyn i arwain eu dulliau dilynol o addysgu sillafu am hanner tymor.

Yn ystod y cyfnod peilot, maent yn darparu sesiynau addysgu rheolaidd ar agweddau ar sillafu, gan ddefnyddio cyd-destun testunau'r cwricwlwm presennol a thestunau ar y cyd. Yn ystod gweithgareddau ysgrifennu, mae staff yn cynorthwyo dysgwyr i adolygu a nodi ble maent wedi sillafu geiriau yn gywir, lle roeddent yn gwneud camgymeriadau o'r blaen, ac yn helpu dysgwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth o'r sesiynau addysgu i gywiro eu camsillafu.

**Mae Atodiad 4 yn cynnwys mathau o gamgymeriadau sillafu a'r strategaethau addysgu a allai gynorthwyo dysgwyr i wella eu sillafu.**

### Ysgol C

**Bob wythnos, mae dysgwyr yn mynd â rhestr o 10 gair adref gyda nhw i ddysgu eu sillafu. Mae athrawon yn dewis y geiriau ac, yn gyffredinol, yn eu gweddu'n dda i allu sillafu presennol dysgwyr. Mae dysgwyr yn cael gwaith cartref lle maent yn ysgrifennu pob gair mewn brawddeg, ac wedyn mae'r athro'n eu profi yn sillafu'r geiriau hyn ar ddiwedd yr wythnos.**

Mae staff yn cydnabod, fodd bynnag, nad yw dysgwyr yn aml yn trosglwyddo eu gwybodaeth am y sillafiadau hyn i'w hysgrifennu annibynnol. Yn ychwanegol, mae ychydig o rieni plant yng nghyfnod allweddol 2 wedi dweud bod y gwaith cartref sillafu yn anghymell eu plant.

Mae staff yn cytuno ar gamau i anelu at fynd i'r afael â'r materion a godwyd trwy brosesau hunanwerthuso'r ysgol. Maent yn darparu gweithdai sillafu ar gyfer rhieni, lle maent yn dangos gwahanol strategaethau i helpu dysgwyr i ymarfer a dysgu sillafiadau. Er enghraifft, maent yn modelu sut i greu croeseiriau, yn sillafu rhigymau a 'spell-a-me-doodles'. Maent yn dangos i rieni sut i nodi nodweddion allweddol geiriau i helpu hoelio sylw plant ar rannau 'anodd' geiriau. Maent yn cyflwyno gweithgareddau prawfddarllen, fel un o weithgareddau gwaith cartref sillafu amrywiol, yn gysylltiedig â'u testunau dosbarth.

Yn hytrach na phrawf sillafu wythnosol, nid yw athrawon yn darparu mwy na phum sillafiad i ddysgwyr weithio arnynt, sydd wedi'u teilwra yn unol â'u hanghenion. Mae dysgwyr yn gweithio ar y rhain gyda'u rhieni, gan ddefnyddio ystod o weithgareddau a addysgwyd iddynt, yn eu 'dyddiadur sillafu gartref'.

Mae staff yn asesu cynnydd dysgwyr trwy eu hysgrifennu bob dydd ar gyfer uned waith, ac yn rhoi adborth ffurfiannol iddynt ar eu cynnydd yn sillafu, y maent yn ei rannu â'u rhieni gan ddefnyddio ap.

## Beth yw'r effaith?

Mae gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o sillafu yn Saesneg, a'i gymhlethdod, yn eu helpu i ddatblygu dulliau addysgu a dysgu effeithiol i wella sillafu dysgwyr, fel agwedd eglur ar eu datblygiad ysgrifennu.

Yn ei dro, mae hyn yn helpu gwella gallu dysgwyr i ddefnyddio ystod o strategaethau yn annibynnol i sillafu'n gywir. Maent yn datblygu'r hyder i ddefnyddio eu gwybodaeth am berthnasoedd llythyren-sain, rhannau o eiriau, patrymau llythrennau a tharddiadau geiriau i fentro a monitro eu sillafu eu hunain.

Pan fydd athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol a perthnasol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn effeithiol, fel ymchwilio i darddiadau geiriau a 'rheolau' sillafu datrys problemau, mae hyn yn helpu meithrin chwilfrydedd dysgwyr mewn geiriau ac ysgrifennu.

Trwy weithio'n agos â rhieni, mae staff yn helpu datblygu addysgeg sillafu effeithiol yn yr ysgol ac yn y cartref. Mae hyn hefyd yn fuddiol ar gyfer mynd i'r afael â chamdybiaethau cyffredin am sillafu ac archwilio materion ynghylch arfer gyffredin ysgolion cynradd o gynnal 'profion' sillafu bob wythnos.

‹ Yn ôl i fraslun 'Ysgol A'

‹ Yn ôl i fraslun 'Ysgol B'

‹ Yn ôl i fraslun 'Ysgol C'

# Astudiaeth achos 12

## Cyd-destun

**Defnyddio cyfuniad o ddulliau yn seiliedig ar dystiolaeth o ddatblygu medrau cyfansoddi a thrawsgrifio dysgwyr i safon uchel**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae athrawon yn Ysgol Gynradd Gaer yn defnyddio cyfuniad o ddulliau ysgrifennu wedi'u strwythuro'n dynn. Mae hyn yn cynnwys addysgu genres ysgrifennu yn uniongyrchol wedi'u modelu ar destunau sampl, yn ogystal â dulliau sy'n canolbwyntio ar ysgrifennu fel proses a rhoi dewisiadau i ddysgwyr am beth maent yn ei ysgrifennu, a sut.

Mae pob tasg iaith a llythrennedd yn seiliedig ar destun (ysgrifenedig neu weledol) neu arteffact. Mae'r dewisiadau hyn, sy'n aml yn anarferol, yn ennyn a symbylu diddordebau dysgwyr yn effeithiol. Fel arfer, mae athrawon yn cynllunio datblygiad ysgrifennu dysgwyr o amgylch math penodol o destun dros gyfnod o bythefnos. Maent yn amlygu dysgwyr i fodelau ysgrifennu effeithiol ac yn ennyn eu diddordeb i archwilio a deall eu strwythur, trefniadaeth a nodweddion iaith. Maent yn addysgu dysgwyr ynglŷn â sut i wneud defnydd effeithiol o 'fapiau meddwl' i helpu cynllunio a strwythuro eu syniadau, ac maent yn sefydlu disgwyliadau clir ac uchel ar gyfer ysgrifennu dysgwyr.

Mae athrawon yn integreiddio cyfleoedd pwrpasol, mewn cyd-destun, i ddysgwyr ganolbwyntio ar ffurfio brawddegau a gwaith 'lefel gair'. Er

enghraifft, maent yn defnyddio gweithgareddau 'arlliwiau ystyr' ('shades of meaning') i gyflwyno dysgwyr i eirfa newydd ddisgrifiadol a thechnegol, sy'n berthnasol i'r math o destun. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddeall gwahanol ystyron gair, yn ogystal â chysylltu geiriau ag ystyron tebyg. Er enghraifft, mae dysgwyr ym Mlwyddyn 2 yn archwilio ystyr 'peckish', 'famished', 'ravenous' a 'starving' mewn perthynas â 'hungry'.

Mae athrawon yn sicrhau cydbwysedd rhwng y dull strwythuredig hwn o addysgu ysgrifennu, gyda chyfleoedd i ddysgwyr wneud eu dewisiadau eu hunain am gynnwys, genre, cyflwyniad a'r gynulleidfa ar gyfer eu hysgrifennu mewn 'wythnosau ysgrifennu beth rydych chi eisiau ei ysgrifennu' ('write what you want weeks'). Maent yn modelu ysgrifennu 'darnau byr' yn effeithiol i helpu dysgwyr i gofnodi eu prif syniadau, heb bryderu'n ormodol am gywirdeb eu gramadeg, atalnodi a sillafu. Maent yn cefnogi dysgwyr trwy'r broses ysgrifennu, gan ddefnyddio dull 'ysgrifennu – mynd yn ôl a golygu'. Mae adborth effeithiol gan yr athro ac asesu cyfoedion yn unol â meini prawf llwyddiant manwl gywir yn helpu dysgwyr i ddiwygio a mireinio eu hysgrifennu yn llwyddiannus.

## Beth yw'r effaith?

Mae addysgu yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr i ysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd mewn gwahanol genres.

Trwy fodelu strategaethau ysgrifennu a defnyddio adnoddau yn llwyddiannus, mae athrawon yn galluogi dysgwyr i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch pa offer i'w ddefnyddio i'w helpu i gynllunio a drafftio eu hysgrifennu. Er enghraifft, mae dysgwyr yn dewis defnyddio 'map llif' i drefnu gwybodaeth ar gyfer testun esbonio neu 'fap swigen ddwbl' i gymharu ochrau dadl ar gyfer ysgrifennu trafodol.

Mae integreiddio gweithgareddau yn strwythuredig mewn cyd-destunau perthnasol sy'n helpu medrau trawsgrifio dysgwyr, yn golygu bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dod yn ddysgwyr hyderus, cymwys ac annibynnol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

# Astudiaeth achos 13

## Cyd-destun

**Datblygu geirfa dysgwyr trwy brofiadau dysgu cynlluniedig a digymell yn y cyfnod sylfaen**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Yn y cyfnod sylfaen, mae oedolion yn aml yn modelu iaith fanwl gywir sy'n gysylltiedig â chysyniadau, arferion a gweithgareddau ystafell ddosbarth cyfarwydd, sy'n rhan weladwy o brofiadau dysgu dyddiol plant.

**Mewn lleoliad nas cynhelir, mae staff yn tynnu lluniau o blant yn ystod y dydd i greu llyfr meithrin.**


Maent yn defnyddio'r llyfr hwn i helpu'r plant i alw i gof a siarad am yr hyn y maent wedi'i wneud yn ystod y dydd, a modelu geirfa benodol. Er enghraifft, mae plant yn galw i gof wead pwmpenni wrth iddynt sgwpio'r cnawd allan ohonynt. Mae oedolion yn helpu'r plant i wneud cysylltiadau â geirfa fathemategol, fel 'trwm ac ysgafn' ('heavy and light') a 'llawn a gwag' ('full and empty').

**Mewn ysgol feithrin, mae ymarferwyr yn monitro dealltwriaeth a defnydd dysgwyr unigol o eirfa yn fanwl yn y caffi chwarae rôl.**



Maent yn ymarfer geiriau a phatrymau iaith gyda'r plant cyn ymweld â chaffis yn y gymuned, lle maent yn defnyddio eu medrau mewn cyd-destun go iawn i archebu bwyd a diodydd.

**Mewn dosbarth derbyn, mae'r athro yn gofyn i ddysgwyr rannu'r byrbrydau iach ac wedyn yn diolch iddynt am eu dosbarthu'n synhwyrol, gan gysylltu'r geiriau am ychydig ddyddiau nes bod pob un o'r dysgwyr yn deall ystyr 'dosbarthu' ('distribute').**



**Mae dysgwyr mewn dosbarth Blwyddyn 1 yn darllen The Tiger Who Lost His Stripes gan Anthony Paul.**

Mae'r athrawes yn nodi 'stately', 'dignified', 'splendid' a 'pally' fel geiriau targed i'w harchwilio gyda dysgwyr i ehangu eu gwybodaeth am grwpiau o eiriau cysylltiedig. Mae'n ymestyn dysgwyr mwy abl trwy ofyn pa air allai fod y dewis mwyaf priodol, ac esbonio pam: 'Would it be best to describe the tiger as determined, persistent or patient?'





**Wrth gynllunio dysgu, mae athrawon yn nodi pa eirfa sy'n benodol i destun y byddant yn ei chyflwyno i ddysgwyr ar draws meysydd dysgu. Maent yn manteisio ar gyfleoedd dilys i ddatblygu gwybodaeth dysgwyr am eiriau ac ieithoedd.**

Mae testun dysgwyr Blwyddyn 2 ar 'gestyll' yn ennyn eu brwdfrydedd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio termau, fel 'portcullis' a 'moat', yn hyderus wrth siarad, ac yn eu hysgrifennu. Wrth iddynt ymchwilio i'r gwahanol fathau o gestyll, maent yn gofyn am gael dysgu mwy am eu dyluniad.

Mae eu hathro yn eu cyflwyno i eirfa dechnegol fwy datblygedig i ddisgrifio nodweddion y cestyll, fel 'bastion' a 'trebuchet'. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gofyn cwestiynau am hanes a tharddiad y geiriau hyn o'r Canol Oesoedd. Mae dysgwyr mwy abl yn eu cysylltu â geiriau y maent eisoes yn eu gwybod, er enghraifft gan greu cysylltiadau rhwng dyluniad y 'trebuchet' a'r gair 'bucket'.

Trwy weithgareddau estynedig a ffocysedig, mae'r athro'n rhoi amser i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith dechnegol newydd yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn dylunio, yn creu ac yn disgrifio eu 'hen' gestyll model eu hunain, ac yn ysgrifennu chwedl dylwyth teg 'wahanol' wedi'i lleoli mewn castell.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r sylw bwriadol ac ymwybodol i gyflwyno geiriau i ddysgwyr, sydd y tu hwnt i'w gwybodaeth bresennol ond o fewn eu gafael, yn golygu bod geiriau mwy soffistigedig yn dod yn rhan naturiol o sgwrsio a dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae hyn yn helpu herio dysgwyr, i feithrin eu chwilfrydedd mewn geiriau ac ehangu eu geirfa. Mae dyfnder, yn ogystal ag ehangder dealltwriaeth dysgwyr o'r geiriau newydd, yn cynyddu hefyd. Mae hyn oherwydd bod oedolion wedi helpu dysgwyr i gysylltu geiriau newydd â geiriau cyfarwydd. Gallant gysylltu'r geiriau â'u gwybodaeth a'u profiadau blaenorol (Armbuster, Lehr ac Osborn, 2001).

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol a dilys sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn effeithiol. Mae dysgu am hanes a tharddiad geiriau, hyd yn oed yn ifanc, yn cyfrannu'n llwyddiannus at godi ymwybyddiaeth dysgwyr am wahanol ieithoedd, y tebygrwydd rhyngddynt a'u gwybodaeth ynghylch o ble mae geiriau wedi dod.

- Cynllunio ar gyfer dysgu gair yn eglur a manteisio ar ddysgu wedi'i ysgogi gan blant
- Cael disgwyliadau uchel ar gyfer gwybodaeth dysgwyr am eiriau, a'u defnydd o eiriau
- Mae defnydd oedolion o iaith yn darparu model pwysig ar gyfer datblygu geirfa dysgwyr

Yn ôl i fraslun y 'llyfr meithrin'
Yn ôl i fraslun y 'teigr'
Yn ôl i fraslun y 'caffi'
Yn ôl i fraslun y 'cestyll'
Yn ôl i fraslun y 'byrbrydau iach'

# Astudiaeth achos 14

## Cyd-destun

**Datblygu geirfa dysgwyr wrth ysgrifennu i ddarbwyllo yng nghyfnod allweddol 2**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

**Fel rhan o'u testun ar 'Ein byd rhyfeddol' ('Our wonderful world'), mae dysgwyr Blwyddyn 5 yn penderfynu y byddent yn hoffi ysgrifennu llythyr at y cyngor lleol am faint o sbwriel sydd yn y parc cymunedol ac ar faes chwarae'r plant.**

Maent yn pryderu am beryglon posibl sbwriel yn y parc i anifeiliaid a phlant ifanc, ac yn credu nad yw'r cyngor wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r mater.



Wrth ymateb i gais dysgwyr, fel rhan o gynllunio ar gyfer dysgu, mae'r athrawes yn ystyried:

- profiadau blaenorol dysgwyr o siarad neu ysgrifennu i ddarbwyllo
- geirfa yn gysylltiedig â'r testun y mae dysgwyr eisoes yn gyfarwydd â hi
- geirfa newydd sy'n debygol o ymddangos yn aml mewn testunau ar y pwnc hwn
- geiriau a fydd yn cynorthwyo dysgwyr i gyfleu syniad mewn ffordd fwy aeddfed

- geirfa a nodweddion yn gysylltiedig â chysyniad 'darbwyllo', gan gynnwys ymwybyddiaeth o gynulleidfa
- pa destunau o ansawdd uchel a fydd yn cynorthwyo dysgwyr orau i ddatblygu eu gwybodaeth am eirfa a darllen a deall

Mae'n nodi bod gan ddysgwyr amgyffrediad da o gysyllteiriau i drefnu dadleuon a gwybodaeth (firstly, in conclusion), cefnogi eu pwyntiau (furthermore), dangos syniad cyferbyniol (instead, on the other hand) a dangos eu barn (for instance). Fodd bynnag, nid yw geirfa dysgwyr sy'n gysylltiedig â materion amgylcheddol, wedi'i datblygu'n ddigonol.

Ar hyn o bryd, nid yw dysgwyr o bob gallu, gan gynnwys y rhai sy'n fwy abl, yn defnyddio geirfa ddigon eang wrth ysgrifennu darnau estynedig. Felly, mae'r athrawes yn nodi'r canlynol fel geiriau 'targed' allweddol ar gyfer addysgu:

> *hazardous, unfortunate, deprived, deteriorate, appealing, environment, conservation, preservation, regenerate, contaminated, toxic, discarded, decomposing, debris, detritus, recreation, accountable, detracts, maintain, imperative, sway, numerous, implore*

Mae'r athrawes yn meddwl yn ofalus am sut bydd hi'n esbonio pob gair mewn iaith bob dydd y gall disgyblion ei deall, a pha elfennau penodol sy'n gwneud pob gair yn wahanol i eiriau eraill, er enghraifft sut mae 'toxic' yn wahanol i 'hazardous'.

Yn ystod yr uned waith, mae'n rhoi cyfleoedd perthnasol i ddysgwyr siarad am ystyron y geiriau 'targed', er enghraifft *detritus*, yng nghyd-destun eu testun ac mewn gwahanol gyd-destunau. Mae hyn yn eu helpu i ddefnyddio eu dealltwriaeth ddatblygol am ystyron y geiriau i ddewis defnydd priodol o'r geiriau. Hefyd, mae'r athrawon yn canolbwyntio ar helpu disgyblion i

ddatblygu eu 'hymwybyddiaeth o eiriau' trwy edrych ar y perthnasoedd rhwng geiriau a'u rhannau geiriau. Er enghraifft, maent yn archwilio'r gwreiddyn Lladin '-*tract*' (sy'n golygu tynnu neu lusgo) yn y geiriau 'detracts' ac 'attractive', wrth drafod harddwch naturiol y parc.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r ymagwedd uniongyrchol at addysgu geirfa mewn cyd-destun dysgu dilys yn helpu dysgwyr i fod yn fwy chwilfrydig am eiriau, a'u hystyron cyfoethog ac amrywiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn darparu esboniadau cynnil o'r geiriau targed ac yn rhoi enghreifftiau o sut gellir defnyddio'r rhain, wrth ysgrifennu am yr amgylchedd, neu mewn cyd-destunau eraill.

Yn ystod gwaith ymchwil ar gyfer eu hysgrifennu, maent yn chwilio am eirfa fwy datblygedig. Maent yn rhannu'r geiriau hyn, a'u defnydd posibl, yn frwdfrydig ar 'wal lythrennedd' yr ystafell ddosbarth.

O ganlyniad, mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud dewisiadau iaith soffistigedig ac yn ysgrifennu llythyrau darbwyllol yn llwyddiannus, sy'n cyfleu dadl gymhellol i'r awdurdod lleol weithredu i leihau effaith sbwriel ar eu parc cymunedol.

- Adeiladu ar wybodaeth a medrau blaenorol dysgwyr wrth ysgrifennu at ddiben penodol
- Nodi geiriau 'targed' ar gyfer addysgu geirfa mewn cyd-destun

Yn ôl i'r braslun


# Enghreifftiau o arfer effeithiol wrth feithrin diwylliant darllen

## Astudiaeth achos 1

### Cyd-destun

**Trochi plant mewn storïau a rhigymau traddodiadol**

### Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?



Mae staff ym Meithrinfa Little Stars ym Mhont-y-pŵl yn trochi plant mewn storïau a rhigymau traddodiadol. Mae hyn yn meithrin eu medrau adrodd stori a'u mwynhad o lyfrau trwy gyfleoedd i ail-greu naratifau gyda phropiau a phypedau yn y lleoliad ac yn y cartref.

Mae oedolion yn addysgu ac yn rhannu ystod eang o storïau a rhigymau traddodiadol gyda phlant. Maent yn dadansoddi themâu syml, yn siarad am gymeriadau ac yn cyflwyno plant i strwythurau syml iaith stori.

Caiff plant gyfle i bori trwy'r llyfrau ar eu pennau eu hunain mewn corneli darllen deniadol, gan ddatblygu medr trin a thrafod llyfrau yn annibynnol.

Mae oedolion yn ailedrych ar y storïau gyda'r plant, gan fodelu sut i'w hail-ddweud gan ddefnyddio pypedau a phropiau. Mae'r plant yn ail-greu'r storïau a'r rhigymau, weithiau trwy ychwanegu eu cymeriadau neu'u profiadau eu hunain. Mae oedolion yn arsylwi'r modd y mae'r plant yn rhyngweithio â'r naratifau ac yn gwrando'n ofalus ar eu hiaith lafar.

Mae'r lleoliad yn annog rhieni i fenthyca 'sachau stori' gyda llyfrau i'w rhannu â'u plant gartref. Maent yn cynnal gweithdai i esbonio sut i rannu'r storïau a'r rhigymau gyda'u plant, a sut i ddefnyddio'r propiau a'r adnoddau. Maent yn rhoi arweiniad ar sut i ymestyn dealltwriaeth y plant o storïau cyfarwydd gyda chwestiynau penagored.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r weithred o ddarllen gyda'i gilydd a rhannu storïau yn yr ysgol ac yn y cartref yn helpu meithrin mwynhad o lyfrau o oedran ifanc. Mae plant yn clywed y goslefau mewn lleferydd a geiriau wrth i oedolion fodelu darllen ac adrodd storïau yn fynegiannol. Ar ôl hynny, mae'r rhan fwyaf o blant yn trosglwyddo iaith gyfoethog llyfrau lluniau o ansawdd da wrth iddynt ail-ddweud storïau a chwarae rôl. Maent yn gwella eu cof wrth alw pwyntiau allweddol i gof am y plot ac enwau'r cymeriadau. Mae'r storïau yn helpu datblygu eu dychymyg a'u meddwl creadigol.

- Dechrau'n gynnar: hyrwyddo llyfrau bob dydd a sicrhau bod plant yn clywed llyfrau'n cael eu darllen ar goedd
- Rhoi cyfle i blant ifanc bori trwy lyfrau ar eu pennau eu hunain

Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 2

## Cyd-destun

**Datblygu diwylliant darllen ar y cyd rhwng dysgwyr, rhieni a staff**

## Beth mae arweinwyr a staff yn ei wneud?

**Mae darllen er pleser yn flaenoriaeth ar gyfer gwella'r ysgol yn Ysgol Gynradd Trinant ar hyn o bryd. Mae arweinwyr a staff wedi datblygu ystod o fentrau i gynyddu ymwybyddiaeth cymuned yr ysgol gyfan o bwysigrwydd darllen er mwynhad.**

Nid oes gan Ysgol Gynradd Trinant ei llyfrgell gymunedol ei hun, felly trwy ei phartneriaeth ag Ysgol Uwchradd Islwyn a chyfraniad o lyfrau gan ei hadran Saesneg, mae'r ysgol wedi sefydlu llyfrgell fenthyca ychydig yn wahanol ar gyfer rhieni a theuluoedd. Yn ystod y cam cynllunio, mae athrawon yn darllen yr holl lyfrau a gyfrannwyd. Maent yn ysgrifennu rhagarweiniad byr o'r plot, gan ddosbarthu'r llyfrau yn ôl genre ac yn rhoi cyfraddau mwynhad. Maent yn cydnabod bod oedolion weithiau'n gwrthod llyfrau oherwydd golwg eu cloriau, felly maent yn crynhoi'r llyfrau trwy ychwanegu elfen annisgwyl atynt, ac yn rhoi eu cyfraddau a'u broliannau eu hunain.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod agweddau'r athrawon eu hunain at ddarllen yn hynod ddylanwadol, ac mae athrawon yn siarad â dysgwyr yn rheolaidd am eu hoff lyfrau a'r llyfrau newydd y maent yn eu darllen.

Mae llyfrgell fenthyca'r ysgol wedi helpu ennyn diddordeb rhieni hefyd mewn sgyrsiau am lyfrau. Caiff staff gyfle i siarad â nhw am y llyfrau y maent yn eu darllen pan fyddant yn cyfarch plant wrth giât yr ysgol yn y bore, ac ar ddiwedd y dydd. Maent yn gwneud argymhellion i rieni unigol ac yn cymryd rhan mewn sgyrsiau bywiog ac anffurfiol am y cymeriadau a datblygiad y plot. Mae ychydig o rieni yn ddarllenwyr brwd erbyn hyn. Maent yn trafod y llyfrau ar gyfryngau cymdeithasol ac yn 'dilyn' yr awduron. Mae rhestr aros am y ffefrynnau, erbyn hyn.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r ysgol wedi dod o hyd i lyfrau hygyrch i rieni eu mwynhau, sy'n darparu ar gyfer gwahanol chwaethau a galluoedd darllen.

Mae plant yn gweld eu rhieni, yn ogystal â'u hathrawon, fel 'darllenwyr', sy'n ymgolli mewn llyfrau ac yn mwynhau siarad amdanynt.

Mae hyn wedi helpu codi statws darllen er pleser yn y gymuned, ac wedi cynyddu ymgysylltiad dysgwyr â llyfrau yn yr ysgol ac yn y cartref, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig.

- Mae cynyddu darllen er pleser ymhlith dysgwyr yn flaenoriaeth ar gyfer gwella'r ysgol
- Blaenoriaethu ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, yn enwedig o ran dysgwyr dan anfantais, i gefnogi datblygiad diwylliant darllen ar y cyd

Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 3

## Cyd-destun

**Defnyddio ffilm i ddatblygu medrau llythrennedd a medrau digidol dysgwyr**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw yn defnyddio ffilm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o destunau amlgyfrwng, ac i fireinio eu medrau digidol. Mae'r ysgol yn mabwysiadu dull 7 cam i gynllunio gweithgareddau addysgu a dysgu sy'n datblygu medrau dysgwyr o ran rhagfynegi, rhesymu a dod i gasgliad, dealltwriaeth, ysgrifennu, cynllunio a chyflwyno, creu ffilmiau, ac yn gorffen â dathliad ysgol gyfan. Mae'r broses 7 cam hon yn cynnwys ystod o weithgareddau y gellir eu haddasu'n briodol ar gyfer oedran a gallu dysgwyr, ar sail gwybodaeth yr athro am garfan benodol o blant.

I ddechrau, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o weithgareddau rhagfynegi i ymgysylltu â dysgwyr, a'u hannog i ddatblygu eu medrau gwrando a siarad. Er enghraifft, maent yn eu cyflwyno i iaith ffilm, fel y gall dysgwyr ddefnyddio geirfa fanwl gywir i siarad am eu syniadau. Maent yn archwilio'r modd y mae elfennau ffilm, fel ei cherddoriaeth neu'i heffeithiau sain, wedi cael eu dewis yn fwriadol i awgrymu beth allai ddigwydd neu i gyfleu awyrgylch.

Mae athrawon yn adeiladu ar ddatblygu'r medrau llythrennedd hyn trwy helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau rhesymu a dod i gasgliad, wrth iddynt drafod a chyfiawnhau eu dehongliadau eu hunain o ffilmiau,

gan greu cysylltiadau â'u gwybodaeth a'u profiadau personol. Mae dysgwyr yn defnyddio eu profiadau clywedol a synhwyraidd o wylio ffilm yn frwdfrydig, wrth ymgysylltu â'r broses ysgrifennu creadigol. Mae symbyliad ffilm yn annog dysgwyr i ddefnyddio geirfa fwy disgrifiadol, amrywiol a chyffrous yn eu hysgrifennu, ac yn darparu cyd-destun difyr i athrawon ar gyfer gweithgareddau creu brawddegau.

Mae'r broses creu ffilmiau yn darparu cyfleoedd cyfoethog pellach i ddysgwyr ddatblygu ystod eang o fedrau gwrando a siarad. Er enghraifft, maent yn defnyddio technegau darbwyllol yn llwyddiannus i fynegi eu syniadau, cydweithio fel awduron sgript ac ymarfer eu perfformiadau. Yn ystod y broses golygu ffilmiau, mae dysgwyr yn arbrofi â thrin delwedd a sain, gan drafod a dewis offer digidol penodol i greu effaith ddymunol. Gan ddefnyddio ffilm fel ffocws mewn amgylchedd diogel, mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o faterion hawlfraint a chyfyngiadau graddio oedran.

Mae cymuned yr ysgol gyfan yn dathlu'r ffilmiau sy'n cael eu creu gan ddysgwyr. Caiff rhieni a gofalwyr eu gwahodd i fynychu'r ŵyl ffilmiau ac mae dysgwyr yn mwynhau gwylio'r 'premières'.





## Beth yw'r effaith?

Mae'r gweithgareddau dysgu hyn, sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, yn cyffroi ac yn herio dysgwyr. Mae cyfleoedd i rannu syniadau am y ffordd y caiff testunau amlgyfrwng eu creu yn galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr, yn enwedig merched gallu canolig a gallu uwch, sy'n aml yn amharod i gyfrannu at drafodaethau, i fod yn siaradwyr mwy abl a hyderus.

Mae defnyddio ffilm wedi dileu rhwystrau ar gyfer dysgwyr sy'n cael trafferth â mecaneg darllen. Maent wedi datblygu eu gallu i ddarllen a dehongli delweddau a sain, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o destunau. At ei gilydd, mae dysgwyr yn cynnwys mwy o fanylion wrth ddarparu ymatebion ysgrifenedig i'r ffilmiau. Mae eu hymgysylltiad â delweddau gweledol ffilm a'u cysylltiad emosiynol â ffilm wedi gwella eu gallu i alw manylion i gof a meddwl yn fanwl am ei themâu.

Mae gwerthusiad dysgwyr o'u gwaith eu hunain a gwaith dysgwyr eraill yn adlewyrchu dealltwriaeth ddatblygol o'r broses greadigol, yn ogystal â 'chynnyrch'. Mae tasgau creu ffilmiau yn cynorthwyo dysgwyr i drafod a chytuno i weithio tuag at nod cyffredin. Maent yn cymryd cyfrifoldeb am drefnu eu syniadau ac yn mabwysiadu rolau penodol. Mae hyn yn helpu cynyddu hunan-barch dysgwyr, a datblygu eu hyder.

- Defnyddio ffilm i gyffroi a herio dysgwyr
- Datblygu medrau rhesymu a dod i gasgliad trwy wneud cysylltiadau â gwybodaeth a phrofiadau personol
- Trafod a chytuno i gyflawni nod cyffredin

Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 4

## Cyd-destun

**Sefydlu gwobr llyfr yr ysgol i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant trwy lenyddiaeth plant**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae gan Ysgol Gynradd Cogan ystod eang o bartneriaethau yn gysylltiedig ag iaith a llythrennedd, gan gynnwys partneriaeth gyda'r United Kingdom Literacy Association a Llenyddiaeth Cymru. Dros gyfnod, mae'r pennaeth a'r staff wedi datblygu diwylliant darllen eithriadol o gryf yn yr ysgol, lle mae cyfle i fanteisio ar lenyddiaeth gyfoethog yn hawl i bob dysgwr.

Yn 2019, sefydlodd staff a dysgwyr wobr llyfr yr ysgol, i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant trwy lenyddiaeth plant. Mae dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol yn dod o ystod eang o gefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol. Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau clywed ar gyfer plant ar draws yr awdurdod lleol.

Mae cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) yr ysgol yn arwain grŵp o 15 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n cymryd cyfrifoldeb am ystyried materion amrywiaeth yn eu hysgol, ac yn cyfrannu at wella lles a phrofiadau dysgu disgyblion.

Trwy ymholi proffesiynol, ymchwiliodd y CydADY i werth defnyddio llyfrau lluniau i ddatblygu cariad dysgwyr at ddarllen, a'u medrau dealltwriaeth o werthuso a gwerthfawrogi. Nododd fod defnyddio llyfrau lluniau

Saesneg a Chymraeg, ar draws pob oedran yn yr ysgol gynradd, yn gallu bod yn gyfrwng pwerus ar gyfer datblygu geirfa dysgwyr a darllen er dealltwriaeth, yn ogystal â meithrin mwynhad o lyfrau.

Meddyliodd staff fod yna blant yn aml yn eu dosbarthiadau nad ydynt yn gweld cymeriad sy'n edrych yn debyg iddyn nhw mewn llyfrau lluniau, neu y gallant uniaethu â'i brofiadau neu'i amgylchiadau. Hefyd, daeth y CydADY yn ymwybodol o feirniadaeth ddiweddar o ddiffyg cynrychiolaeth amrywiol y diwydiant cyhoeddi mewn llenyddiaeth plant, ac ystyriodd sut gallai'r ysgol gymryd camau i fynd i'r afael â hyn trwy ei dewisiadau ei hun o lyfrau lluniau.

**Gyda'i gilydd, penderfynodd y CydADY a'r grŵp disgyblion sefydlu a chynnal eu gwobr llyfrau genedlaethol ei hun i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.**



Gofynnodd dysgwyr i'r gymdeithas rhieni ac athrawon gefnogi eu gwaith, a chawsant £100 i brynu llyfrau i greu eu 'rhestr hir' o wobrau. Gyda chymorth siop lyfrau leol yr ysgol ym Mhenarth, dewisodd dysgwyr 12 teitl i ddechrau, gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- llyfrau lluniau sy'n addas ar gyfer plant 3 i 7 mlwydd oed yn bennaf
- llyfrau a gyhoeddwyd rhwng 1 Mawrth 2017 a 30 Medi 2018
- llyfrau sydd â pharch neu gynhwysiant yn themâu, neu gynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifol

Teimlai dysgwyr ei bod yn bwysig fod cynnwys y llyfrau yn amrywiol o ran ethnigrwydd a/neu ddiwylliant a'u bod yn cynnwys cymeriadau nad ydynt yn stereoteipiau neu gymeriadau ag anableddau. Defnyddiont wefan yr ysgol, tudalen newyddion ar wefan Llenyddiaeth Cymru ac ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i lansio'r wobr. Cafodd postiad yr ysgol (isod) ar y cyfryngau

cymdeithasol sylw a chefnogaeth gan awduron plant enwog, fel Michael Rosen, a Chomisiynydd Plant Cymru:

**‘Rydym ni’n ysgol gynradd fach yn Ne Cymru sy’n ceisio gwneud rhywbeth MAWR. Mae 17 o ieithoedd yn cael eu siarad yma, mae llawer o ddisgyblion ag anableddau a llawer o fathau o deuluoedd… dyna pam y gwnaethom greu Gwobr Cogan ar gyfer Amrywiaeth mewn Llyfrau Lluniau 2019.’**

Cafodd yr ysgol gyfanswm o 68 o deitlau gan gyhoeddwyr a oedd yn bodloni’r meini prawf ar gyfer y wobr. Darllenwyd y rhain gan grŵp ‘amrywiaeth’ y disgyblion a’r staff. Aethant ati i ddarparu cyfleoedd i’r holl ddysgwyr ar draws yr ysgol ymgyfarwyddo â’r llyfrau, er mwyn iddynt allu dechrau’r broses farnu a chwtogi’r rhain i restr fer o 7 teitl. Roedd hyn yn cynnwys rhannu’r llyfrau yn ystod oriau gwersi, gwasanaethau, amseroedd egwyl, ac yn ystod clwb llyfrau poblogaidd amser cinio.

Fe wnaeth dysgwyr ym mhob dosbarth adolygu a graddio’r llyfrau, wedi’u harwain gan gwestiynau ystyriol. Yn ogystal â mwynhau’r llyfrau er eu lles eu hunain, ymatebodd dysgwyr hŷn yn gynnes i’r cyfrifoldeb i argymell llyfrau i gynulleidfa iau. Fe wnaethant gymharu llyfrau mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol, er enghraifft ystyried apêl y cymeriadau, ansawdd ac effaith y darluniadau ar eu pennau eu hunain, ac ar y cyd â’r testun, ac eglurder neges neu thema’r llyfr.

Trafododd dysgwyr sut orau i rannu eu sylwadau am y llyfrau yn gyfrifol trwy gyfryngau cymdeithasol, gan gytuno trafod agweddau roeddent yn llai awyddus ynglŷn â nhw yn breifat trwy’r broses farnu, a dim ond cyhoeddi sylwadau am yr agweddau ar y llyfrau roeddent yn eu hoffi trwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ysgol. Darparodd dysgwyr ddyfyniadau ar bob teitl i’w rhannu ar y rhyngrwyd, a phostio adolygiadau o lyfrau ar wefan adolygu llyfrau plant.

Rhannodd yr ysgol restr fer y llyfrau gyda rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach trwy gyfryngau cymdeithasol, y llyfrgell a'r siop lyfrau leol. Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru enillydd Gwobr Cogan ar gyfer Amrywiaeth mewn Llyfrau Lluniau 2019 ar ei gwefan. Cyflwynodd yr ysgol dlysau a grewyd gan y plant i'r awdur a'r darlunydd buddugol mewn seremoni wobrwyo ym mis Gorffennaf 2019.

**Gallwch ddarllen mwy am y llyfr lluniau buddugol ar wefan Llenyddiaeth Cymru.**

## Beth yw'r effaith?

Fe wnaeth menter gwobr y llyfr wella diwylliant darllen a oedd eisoes yn gryf yn yr ysgol. Llwyddodd i wella diddordeb dysgwyr a'r gymuned ehangach mewn darllen, a'u brwdfrydedd amdano. Cynyddodd ystod y llyfrau lluniau difyr hunanddewisiad dysgwyr o ddeunydd darllen a faint o ddarllen er pleser oedd yn digwydd ar draws yr ysgol. Hefyd, ehangodd ymwybyddiaeth plant o wahanol awduron, darlunwyr, a llenyddiaeth newydd. Anogodd dysgwyr o bob oedran i fyfyrio ar ba fath o lyfrau maent yn eu mwynhau, a pham. Llwyddodd dysgwyr hŷn i wella eu gallu i werthfawrogi a gwerthuso testunau yn feirniadol i gefnogi eu dealltwriaeth a chyfiawnhau eu barn. Chwaraeodd dysgwyr rôl bwysig yn dewis y thema ar gyfer y wobr llyfr a phennu'r canlyniad, a oedd yn hynod gymhellol iddyn nhw. Roedd y fenter yn llwyddiannus o ran cynyddu dealltwriaeth dysgwyr o faterion amrywiaeth a dathlu cynhwysiant trwy lyfrau lluniau o ansawdd uchel.

**'Rydym ni wedi cael trafodaethau diddorol iawn am amrywiaeth a chynhwysiant, ac mae'r plant wedi dangos eu bod yn deall yr angen am gynrychiolaeth deg o bob aelod o gymdeithas yn llyfrau plant'**
Athro, Ysgol Gynradd Cogan

# Enghreifftiau o arfer effeithiol o ran cefnogi dysgwyr a'u teuluoedd

## Astudiaeth achos 1

### Cyd-destun

**Gwneud defnydd effeithiol o offeryn sgrinio iaith i osod targedau priodol a chynllunio cynlluniau dysgu teilwredig i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr**

### Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae staff yn defnyddio'r deilliannau o sgrinio iaith dosbarth cyfan ar gyfer y plant meithrin i nodi'r rhai a fyddai'n elwa ar brofion manylach. Mae hyn yn galluogi staff i nodi'n fanwl gywir yr agweddau ar iaith, fel geirfa neu ddatblygiad gramadegol y mae angen i ddysgwyr eu gwella.

Mae hefyd yn eu helpu i nodi a oes gan ddysgwyr anawsterau â metawybyddiaeth, gweithrediad gweithredol, cof gweithredol a gallu di-eiriau yn gysylltiedig â datblygiad iaith.

Yn dilyn dadansoddiad trylwyr o ddeilliannau dysgwyr, mae staff yn gosod targedau hynod benodol ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth ddwysach. Mae pob dysgwr yn cael cynllun dysgu teilwredig ac mae staff yn dilyn yr offeryn adnoddau rhagnodol ar gyfer addysgu a ddatblygwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol yn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Sir Gaerfyrddin. Maent yn defnyddio'r adnodd i gynllunio gweithgareddau sy'n cysylltu'n dda â themâu'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn parhau i ddefnyddio'r offeryn sgrinio dosbarth cyfan a'r olrheiniwr ar gyfer dysgwyr yn y dosbarth derbyn. Mae athrawon yn defnyddio'r olrheiniwr bob hanner tymor i adolygu cynnydd yr holl ddysgwyr yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn.

## Beth yw'r effaith?

Mae defnyddio'r offeryn sgrinio ac adolygiadau bob hanner tymor yn helpu athrawon i fonitro cynnydd yr holl ddysgwyr yn agos yn erbyn pob agwedd ar iaith yn eu blynyddoedd cynnar yn yr ysgol.

Yn bwysig, mae'n helpu staff i nodi unrhyw blant nad oeddent ar ei hôl hi o ran eu datblygiad iaith o'r blaen, ond y gallai eu cynnydd fod wedi arafu.

Mae'r offeryn asesu, a'r adnodd addysgu sy'n cyd-fynd ag ef, yn helpu athrawon i farnu'n effeithiol pryd i ddechrau addysgu ffoneg a geiriau amlder uchel i ddysgwyr unigol.



Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 2

## Cyd-destun

**Defnyddio 'proffiliau yn canolbwyntio ar yr unigolyn' i werthfawrogi a chefnogi datblygiad iaith dysgwyr unigol**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?



Mae gan bob dysgwr mewn ysgol gynradd 'broffil yn canolbwyntio ar yr unigolyn' sy'n hygyrch i bob ymarferwr. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae'r proffiliau hyn yn rhoi manylion am y dull cyfathrebu mwyaf effeithiol ar gyfer pob plentyn, gyda datganiadau fel, 'I speak in Polish', 'I use Makaton signs' ac 'I speak slowly so please give me time'. Mae staff newydd neu staff dros dro yn yr ysgol yn darllen y proffiliau hyn cyn cyfarfod â dysgwyr am y tro cyntaf.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r proffiliau hyn yn helpu lleihau risg rhwystredigaeth neu gamddealltwriaeth i ddysgwyr wrth iddynt ddatblygu eu medrau cyfathrebu.

Mae'r dull yn annog oedolion a phlant i werthfawrogi gwahanol ffurfiau cyfathrebu a gwahanol ieithoedd. Mae hyn yn bwysig i ddysgwyr y mae iaith eu haelwyd yn wahanol i iaith eu hathrawon, neu i ddysgwyr sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith neu anawsterau clywed.

< Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 3

## Cyd-destun

**Gwybodaeth hanfodol cyn addysgu i ddysgwyr i gefnogi eu cynnydd mewn iaith a llythrennedd**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn nodi beth mae dysgwyr eisoes yn ei wybod, a beth allai achosi problemau cyn iddynt addysgu medrau iaith penodol. Maent yn defnyddio dull 'cyn addysgu' i gefnogi grwpiau o ddysgwyr y nodwyd nad yw eu medrau iaith wedi'u datblygu'n ddigonol. Maent yn addysgu gwybodaeth hanfodol i'r dysgwyr hyn mewn sesiwn 20 munud cyn gwers llythrennedd y dosbarth.

Mae athro Blwyddyn 4 yn nodi geirfa yn nofel y dosbarth sy'n rhy heriol i'r grŵp hwn o ddysgwyr i'w darllen a'i deall yn annibynnol. Mae'n nodi geiriau o'r testun, fel 'scornfully', 'devoted' a 'rambling', sy'n bwysig i ddealltwriaeth dysgwyr o gymeriadau yn y naratif a ffocws eu gweithgareddau annibynnol yn eu gwers llythrennedd fel dosbarth.

I ddechrau, mae'r athro yn ymarfer gwybodaeth flaenorol dysgwyr am y strategaethau darllen y gallent eu defnyddio i'w helpu i gael ystyr o destun anghyfarwydd. Mae'r athro yn defnyddio dulliau rhyngweithiol, fel gemau a chwisiau, i archwilio ystyr y geiriau a nodwyd, ac yn rhoi cyfle i ddysgwyr eu defnyddio yn eu cyd-destun.

## Beth yw'r effaith?

Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r amser grŵp bach ychwanegol ac mae hyn yn eu cymell i weithio'n galed yn y wers lythrennedd.

Maent yn defnyddio eu gwybodaeth am y strategaethau darllen y maent wedi'u hymarfer i ateb cwestiynau am y testun. Mae'r profiad hwn yn magu eu hyder, felly maent yn cynnig cyfraniadau gwerth chweil yn amlach ac yn cael adborth cadarnhaol gan yr athro, sy'n arwain at gyfranogiad pellach.

Maent yn cymhwyso eu gwybodaeth am eirfa yn llwyddiannus i resymu a dod i gasgliad ynghylch cymhellion cymeriadau, ac wedyn yn ymateb yn frwdfrydig i'w tasg ysgrifenedig.

Yn ôl i'r braslun

# Astudiaeth achos 4

## Cyd-destun

**Helpu dysgwyr sy'n agored i niwed i ddatblygu eu medrau darllen a chefnogi eu lles yn effeithiol**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

**Bob wythnos, mae Cariad, 'y ci darllen', yn ymweld â'r ysgol gyda'i pherchnogion i helpu dysgwyr sy'n agored i niwed i ddatblygu eu medrau darllen. Mae athrawon yn nodi dysgwyr a fyddai hefyd yn elwa ar gefnogaeth i'w lles emosiynol.**

Mae Cariad a'i pherchnogion yn helpu dysgwyr i ddarllen llyfrau am faterion neu brofiadau sy'n ymwneud â'u hamgylchiadau personol, er enghraifft trwy ddarllen 'The Invisible String' gyda dysgwyr y mae eu rhieni yn y lluoedd arfog, neu lyfrau fel, 'When I'm Feeling Angry' i gynorthwyo dysgwyr sy'n ei chael yn anodd rheoli eu hemosiynau.

O 'siarad' â dysgwyr trwy ei pherchnogion, mae Cariad y ci yn eu helpu i ddatblygu strategaethau i gefnogi eu darllen. Er enghraifft, maent yn trafod sut i ddod o hyd i ffyrdd o ddarllen geiriau newydd neu ffyrdd o gofio geiriau anodd.

## Beth yw'r effaith?

Mae darllen i gi yn helpu dysgwyr sy'n agored i niwed i ymlacio i ddarllen mewn amgylchedd cefnogol a thawel. Mae hyn yn helpu cynyddu eu hunan-barch ac yn magu eu hyder i ddarllen. Mae darllen am y modd y mae cymeriadau mewn storïau yn delio ag amgylchiadau fel eu rhai nhw eu hunain, yn helpu cefnogi lles dysgwyr yn llwyddiannus.

# Astudiaeth achos 5

## Cyd-destun

**Cefnogi ymyrraeth iaith gynnar ysgolion ar gyfer plant sy'n dechrau mewn darpariaeth feithrin a ariennir**

## Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd?


Mae awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yn defnyddio dull traws-gyfarwyddiaeth ar gyfer ymyrraeth iaith gynnar i blant y nodwyd eu bod yn profi oedi yn eu hiaith, ac yn cefnogi eu cyfnod pontio i leoliadau nas cynhelir a darpariaeth feithrin mewn ysgol.

Mae Gwasanaeth Cymuned, Lles a Gwydnwch yr awdurdod lleol yn darparu cymorth iaith a chyfathrebu cynnar i rieni plant o ddiwrnod eu geni nes eu bod yn 4 oed, fel rhan o'r Gwasanaeth Teuluoedd Gwydn. O fewn y gwasanaeth, mae therapyddion lleferydd ac iaith, gweithwyr rhianta, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth 'siarad a chwarae' a phartneriaid amlasiantaethol eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i ddarparu cymorth un i un ar gyfer teuluoedd, a hwyluso rhaglenni iaith cyn-ysgol yn y gymuned.

Mae gweithwyr cymorth yn cynnal asesiad sgrinio lleferydd a chyfathrebu yn y cartref ar gyfer pob plentyn pan fydd yn 21 mis. O'r asesiad hwn, mae'r Tîm Iaith a Chyfathrebu Cynnar yn trefnu pecynnau cymorth teilwredig ar gyfer teuluoedd unigol, ac yn monitro cynnydd plant yn agos. Maent yn rhannu'r wybodaeth hon gyda staff yn y gyfarwyddiaeth addysg a'r lleoliad

neu'r ysgol sy'n derbyn y plentyn, fel y gall y plentyn a'r teulu barhau i gael cefnogaeth briodol.

**Dros gyfnod o chwe wythnos, mae'r gweithwyr 'siarad a chwarae' yn darparu sesiynau wythnosol ar gyfer rhieni, gyda thema wahanol bob wythnos.**



Er enghraifft, mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddatblygiad iaith trwy arferion dyddiol neu pan fyddant allan mewn gwahanol leoedd. Bob wythnos, mae rhieni'n cymryd rhan mewn gweithgaredd creadigol gyda'u plant ac mae gweithiwr cymorth yn modelu i rieni sut i ddefnyddio'r gweithgaredd i siarad gyda'u plentyn.



Mae caneuon, rhigymau ac amser stori ar ddiwedd pob sesiwn. Mae'r gweithiwr cymorth yn darllen stori, tra bydd y rhiant a'r plentyn yn dilyn y stori gyda'u copi eu hunain o'r llyfr.

## Beth yw'r effaith?

Mae ymagwedd yr awdurdod lleol at ymyrraeth iaith gynnar yn golygu y gall unrhyw blentyn a theulu fanteisio ar wasanaethau ychwanegol, os caiff angen ei nodi fel rhan o asesiad teuluol, nid dim ond y rhai sy'n byw yn ardaloedd cod post Dechrau'n Deg.

Mae'r dull yn helpu nodi plant nad ydynt yn gwneud cynnydd disgwyliedig ar draws yr awdurdod lleol, ac yn rhoi cefnogaeth barhaus iddyn nhw a'u teuluoedd o'r blynyddoedd cynnar i addysg a ariennir.

< Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau | Argymhellion | Dysgu | Darpariaeth | Arweinyddiaeth
Astudiaethau achos | Cymorth dysgu proffesiynol | Ymchwil | Atodiadau

# Astudiaeth achos 6

## Cyd-destun

**Gweithio gyda phobl eraill i gefnogi rhieni i ddarparu'r amgylchedd sydd ei angen ar blant, o ddiwrnod eu geni nes byddant yn yr ysgol, er mwyn i'w datblygiad iaith ffynnu**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

**Mae gan Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands bartneriaethau rhagorol â 'Thîm Iaith Gynnar', ymwelwyr iechyd a darpariaeth Dechrau'n Deg awdurdod lleol Torfaen.**

Mae'r ysgol yn cynnal llawer o ddosbarthiadau rhianta ar gyfer plant o bob oedran, ac yn mynd ati i hyrwyddo'r rhain yn y gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'n cynnig cefnogaeth i rieni trwy amrywiaeth o grwpiau iaith gynnar ar gyfer babanod a phlant bach.

Mae'r ysgol yn cynnal cyfarfod panel amlasiantaeth bob tymor i gydlynu cefnogaeth ar gyfer plant a theuluoedd unigol, y mae gweithwyr proffesiynol o faes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn nodi eu bod yn destun pryder.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr am anghenion cymdeithasol, emosiynol a dysgu teuluoedd a phlant sy'n agored i niwed, fel achosion o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, cyn i blant ddechrau'r ysgol. Mae hyn yn helpu'r ysgol i greu darlun manwl o blant penodol

a pha gefnogaeth fydd ei hangen arnynt o hyd, wrth iddynt drosglwyddo o leoliadau gofal plant a chyn-ysgol i amgylchedd yr ysgol.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r ysgol yn cydnabod y cysylltiad pwysig rhwng datblygiad iaith plant a'u hiechyd a'u llwyddiant trwy gydol eu hoes.

Mae eu dull cydweithredol a rhagweithiol o weithio gyda gwasanaethau y mae rhieni a phlant yn cyfarfod â nhw yn ystod eu blynyddoedd cyn-ysgol, yn helpu cryfhau'r gefnogaeth ar gyfer rhieni.

Mae'r dull amlasiantaeth hwn yn helpu sicrhau cefnogaeth ddwys ac arbenigol ychwanegol ar gyfer y dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed a than anfantais.

Trwy weithio'n agos gyda'r ysgol, mae rhieni'n datblygu eu dealltwriaeth o sut gallant gefnogi medrau iaith eu plant, a pham mae hyn mor bwysig i'w deilliannau addysgol a'u cyfleoedd mewn bywyd.



Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau Argymhellion Dysgu Darpariaeth Arweinyddiaeth
Astudiaethau achos Cymorth dysgu proffesiynol Ymchwil Atodiadau

# Astudiaeth achos 7

## Cyd-destun

**Ymgysylltu'n llwyddiannus â theuluoedd i gefnogi medrau iaith dysgwyr**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae Ysgol Feithrin Tremorfa yn cyflogi swyddog cymorth cymunedol sy'n gweithio'n fuddiol gyda gwahanol grwpiau o rieni bob bore, fel y gall deilwra ei chefnogaeth i deuluoedd. Bob wythnos, mae'r ysgol yn cynnal sesiwn 'galw i mewn' wedi'i harwain gan ymwelwyr iechyd i gefnogi teuluoedd y mae gan eu plant anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgol yn cynnal rhaglen chwe wythnos ar gyfer yr holl rieni a phlant cyn i'r plant ddechrau'r ysgol. Mae hyn yn rhoi arweiniad gwerthfawr i rieni ar weithgareddau chwarae y gallant eu gwneud i gefnogi datblygiad iaith eu plant. Mae hefyd yn helpu rhieni a phlant i ymgyfarwyddo â'r lleoliad meithrin a'i staff.

Bob hanner tymor, mae'r ysgol yn cynnal sesiwn 'aros a chwarae' ('stay and play') lle mae rhieni'n treulio bore neu brynhawn yn yr ysgol feithrin ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau iaith gyda'u plant. Mae un o'r sesiynau 'aros a chwarae' ar gyfer 'hogiau, tadau a theidiau' ('lads, dads and grandads'). Mae'r ysgol yn darparu gweithdy dilynol ar gyfer tadau am 'ysgolion coedwig' a sut mae'r dull hwn o ddysgu yn cefnogi plant i ddatblygu eu medrau, gan gynnwys iaith a llythrennedd. Mae'r gweithiwr cymorth cymunedol yn cynnal sesiynau sy'n canolbwyntio ar helpu tadau i weld pa mor bwysig yw hi i'w plant eu gweld yn darllen. Mae'r sesiynau yn canolbwyntio'n dda ar ddarllen print pwrpasol yn rheolaidd, er enghraifft arwyddion yn yr amgylchedd a chyfarwyddiadau ar gyfer gwneud rhywbeth ymarferol.

Mae'r ysgol yn rhoi cefnogaeth dda i ddysgu rhieni sydd â medrau iaith gwan. Mae arweinwyr yn gwahodd asiantaethau allanol i ymweld â'r ysgol feithrin i wella medrau rhieni trwy ddarparu ystod o gyrsiau, er enghraifft mewn datblygiad plant, gwelliannau trwy wneud tasgau'r cartref, a choginio.

Hefyd, mae'r ysgol yn darparu cyrsiau gofal plant achrededig lefel 1 ac mae ganddi grŵp o rieni, y gwnaeth y rhan fwyaf ohonynt ymddieithrio o'r ysgol cyn sefyll arholiadau allanol, sy'n gweithio ar gwrs lefel 2 ar gyfer cefnogi cynorthwywyr addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae llyfrgelloedd yn y cyntedd ar gyfer oedolion a phlant yn helpu hyrwyddo diwylliant darllen i bawb. Mae'r llyfrgell i oedolion yn cynnwys nofelau y gall rhieni eu benthyca er mwynhad, yn ogystal â llyfrau i helpu â rhianta.

## Beth yw'r effaith?



Mae ymgysylltu â theuluoedd yn gryfder yn yr ysgol. Mae llawer o rieni'n mynychu'r sesiynau i deuluoedd gyda'r swyddog cymorth cymunedol. Mae mynychu'r grwpiau i rieni yn helpu rhieni sy'n anodd eu cyrraedd i ddatblygu hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae llawer ohonynt sy'n mynychu yn rhieni na fyddent yn ymuno â grwpiau eraill, nac yn perthyn iddynt. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn lle diogel iddyn nhw. Maent yn ystyried y llyfrgell i oedolion yn rhywbeth cadarnhaol, ac nid adnodd yn unig, ar gyfer rhieni sy'n cael agweddau ar fagu plant yn anodd.

Caiff y rhaglen dysgu oedolion effaith gref ar gynyddu medrau a hyder rhieni. Yn ddiweddar, mae un rhiant wedi cofrestru mewn sefydliad addysg bellach i sefyll arholiadau TGAU, ac mae un rhiant wedi cael swydd ym maes gofal cymdeithasol am y tro cyntaf. Mae'r gweithdai 'aros a chwarae' a'r sesiynau darllen ar gyfer rhieni wedi helpu cyfleu pwysigrwydd darllen yn rheolaidd i'w plant, a gwerth modelau rôl darllen.

# Astudiaeth achos 8

## Cyd-destun

**Helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi medrau gwrando, siarad a darllen cynnar eu plant trwy weithgareddau hwyliog a sesiynau cyngor misol**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

**Mae gan bob dysgwr y cyfnod sylfaen fag llyfrau cartref-ysgol, ac maent yn mynd â'r bag adref gyda nhw bob wythnos.**



Mae hyn yn cynnwys gweithgaredd iaith hwyliog i rieni ei fwynhau gyda'u plant, er enghraifft rhigwm i'w ddysgu, llyfr lluniau i'w ddarllen neu gêm iaith i'w chwarae.

Bob mis, mae cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn cynnal sesiynau cyngor, cymorth a chymorth i rieni ar ddydd Llun, sy'n cael eu hadnabod fel 'Mash' [Monday advise, support and help].

Mae'r digwyddiadau anffurfiol hyn yn cynnwys gwybodaeth a gweithgareddau ar destunau y mae rhieni wedi gofyn am gymorth â nhw, yn ogystal â sesiynau sy'n bwysig, ym marn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn modelu ynganu seiniau'n gywir, ac yn rhannu cynghorion ar sut i helpu eu plant i wahaniaethu rhwng seiniau tebyg, wrth chwarae gemau ffoneg.

Mae staff yn creu cardiau fflach â geiriau amlder uchel gyda'r rhieni ac yn dangos iddynt sut i ddefnyddio adnoddau a gemau iaith ar blatfform dysgu digidol Llywodraeth Cymru, sef Hwb.

## Beth yw'r effaith?

Mae amgylchedd 'bygythiad isel-cefnogaeth uchel' yr ysgol yn golygu bod y rhan fwyaf o rieni'n ymgysylltu'n dda â staff i gefnogi datblygiad iaith eu plant gartref. Maent yn arddangos agweddau cadarnhaol am ddysgu iaith i'w plant.

Mae llawer ohonynt yn dilyn cyngor yr ysgol am bwysigrwydd darllen gyda'u plant a rhyngweithio rheolaidd ar lafar i ddatblygu iaith lafar eu plant.

Mae agweddau cadarnhaol rhieni at ddysgu am y dulliau a ddefnyddir gan yr ysgol i addysgu medrau hanfodol yn golygu bod dysgwyr yn ymarfer ac yn atgyfnerthu'r rhain gartref yn fuddiol, er enghraifft cyfuno ffonemau â darllen geiriau syml.



Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau | Argymhellion | Dysgu | Darpariaeth | Arweinyddiaeth
Astudiaethau achos | Cymorth dysgu proffesiynol | Ymchwil | Atodiadau



# Cymorth dysgu proffesiynol



# Meddwl am eich arfer eich hun wrth gynllunio ar gyfer dysgu

**Gallwch ddarllen am ymchwil a thystiolaeth sy'n cefnogi'r bennod hon ar yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu ar dudalennau 214 i 216.**

## Cwricwlwm i Gymru

Ym maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu ystyriaethau allweddol ar gyfer ysgolion wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn yr holl ieithoedd y byddant yn eu cynnig i'w dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2020b, tt.159-160).

Mae'r ystyriaethau hyn yn cynnwys:

### Darpariaeth a phrofiadau

- Sut byddwch chi'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn siarad cynlluniedig mewn cyd-destunau amrywiol gydag ystod eang o gyfoedion ac oedolion, yn ogystal â siarad digymell?
- Sut byddwch chi'n darparu ystod eang o lenyddiaeth ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys testunau aml-ddull a heriol mewn ffurf bapur, ddigidol, electronig a byw, gan feithrin eu mwynhad o ddarllen a gwylio pwrpasol a'u hannog i archwilio llyfrau a thechnolegau newydd?

### Datblygiad iaith

- Sut byddwch chi'n sicrhau amgylcheddau cyfoethog o ran iaith ar gyfer yr holl ddysgwyr fel model ar gyfer gwella eu medrau iaith eu hunain?
- Sut byddwch chi'n cefnogi darllen ar gyfer yr holl ddysgwyr?

- Sut byddwch chi'n darparu datblygiad systematig ymwybyddiaeth ffonolegol ac ymwybyddiaeth ffonemig?
- Pa symbyliadau perthnasol, difyr, dilys a heriol allwch chi eu darparu i ysbrydoli a chynorthwyo paratoi ar gyfer siarad ac ysgrifennu pwrpasol (dan do, yn yr awyr agored, trwy ymweliadau, ac ati)?
- Sut byddwch chi'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr wneud cynnydd mewn dysgu i siarad a dysgu trwy siarad?
- Sut byddwch chi'n sicrhau bod gwybodaeth a medrau mewn un iaith yn trosglwyddo i ieithoedd eraill, a'u datblygu ynddynt?

## Ystyriaethau wrth ddewis llenyddiaeth

**Dylai ysgolion:**

- greu diwylliant darllen cadarnhaol sy'n trochi dysgwyr mewn llenyddiaeth sy'n adlewyrchu eu diddordebau ac yn tanio eu brwdfrydedd
- dewis llenyddiaeth sy'n ddigon cyfoethog a sylweddol i ennyn dysgwyr yn ddeallusol ac yn emosiynol, ac sy'n gallu eu hannog i gael eu hysbrydoli, eu cyffwrdd a'u newid
- sicrhau bod dysgwyr yn profi ystod o lenyddiaeth gyfoes, a llenyddiaeth o gyfnodau yn y gorffennol

**Dylai dysgwyr:**

- brofi cyfoeth o lenyddiaeth sy'n darparu cyfleoedd i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm
- cael eu hamlygu i ystod amrywiol o brofiadau llenyddol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth

- cael eu cyflwyno i lenyddiaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth a diwylliannau yn yr ardal, Cymru a'r byd ehangach
- cael cyfle i brofi a dysgu am lenyddiaeth a chrewyr llenyddiaeth sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol, boed hynny yng Nghymru, mewn gwledydd eraill yn y DU, a/neu'r byd ehangach

## Eich arfer

Ar ôl darllen y bennod hon o'r adroddiad, efallai yr hoffech fyfyrio ar eich arfer bresennol o ran datblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Ystyriwch y cwestiynau o ganllawiau'r *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b) a'r cwestiynau isod. Gallai'r cwestiynau hyn helpu llywio'ch meddwl wrth i chi gynllunio eich cwricwlwm ar gyfer y maes dysgu a phrofiad hwn:

- Beth yw'r cryfderau mewn addysgu a phrofiadau dysgu iaith a llythrennedd yn eich dosbarth, ac yn eich ysgol?
- Pa feysydd yw'r rhai nad ydynt mor gryf? Beth yw'r rhesymau am hyn?

Nawr, meddyliwch am sut byddwch chi'n adeiladu ar y cryfderau presennol ar gyfer datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr:

- Beth mae angen ei wella?
- Beth mae angen ei newid yn sgil canllawiau Llywodraeth Cymru?
- Beth sy'n newydd?
- Sut gallech chi fynd i'r afael â'r meysydd nad ydynt yn ddigon cryf, pan fyddwch yn cynllunio eich cwricwlwm Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu?

# Meddwl am eich arfer eich hun o ran datblygu ysgrifennu dysgwyr

**Gallwch chi ddarllen mwy am ymchwil a thystiolaeth sy'n cefnogi'r bennod hon ar addysgu ac asesu, a datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr, ar dudalennau 217 i 227.**

Mae ymchwil yn awgrymu bod y cysylltiadau rhwng medrau gwrando, siarad ac ysgrifennu yn amrywio yn ôl cam datblygiadol plentyn. Mae'n awgrymu y gallai rôl iaith lafar fod yn gryfach o ran cefnogi ysgrifennu ar gyfer dysgwyr iau[3] ac ar gyfer y rhai sy'n cael trafferth ag ysgrifennu, yn enwedig o ran datblygu geirfa[4], nag ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2[5]. Mae hyn yn debygol oherwydd, wrth i blant fynd yn hŷn ac wrth i'w medrau llythrennedd ddatblygu mwy, mae eu hysgrifennu yn defnyddio ystod o wahanol nodweddion gramadegol a strwythurol nad ydynt, yn gyffredinol, yn cael eu defnyddio wrth siarad[6]. Yn ychwanegol, mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod dylanwad siarad ar ysgrifennu yn cael ei ysgogi'n rhannol gan ruglder a dealltwriaeth dysgwyr wrth ddarllen. Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau yn darganfod bod perthynas gref iawn rhwng datblygiad darllen ac ysgrifennu[7].

[3] Donaldson a Cooper, 2013; Perera, 1984

[4] Dunsmuir a Blatchford, 2004

[5] Dockrell, Marshall a Wyse, 2015

[6] Dockrell, Marshall a Wyse, 2015, p.10

[7] Abbott, Berninger a Fayol, 2010; McCarthy, Hogan a Catts, 2012

Dyma'r nodweddion cyffredin sydd gan yr adnoddau y mae ysgolion yng Nghymru yn eu defnyddio amlaf i gefnogi eu cynllunio ar gyfer datblygu ysgrifennu dysgwyr:

- Maent yn darparu dull systematig a strwythuredig o addysgu agweddau ar ysgrifennu
- Mae'r adnoddau, y gweithgareddau, y dulliau a'r strategaethau wedi eu cynllunio i gael eu defnyddio ar draws dosbarthiadau mewn dull 'ysgol gyfan'
- Maent wedi'u seilio ar yr egwyddor fod dysgwyr yn dysgu ysgrifennu'n well trwy siarad ac ymarfer syniadau ar lafar cyn ysgrifennu
- Mae pwyslais ar gynllunio ar gyfer ysgrifennu a strwythuro ysgrifennu
- Mae sgaffaldio yn cefnogi'r broses dysgu iaith, ac mae hyn yn cynnwys rhyddhau cyfrifoldeb yn raddol oddi wrth yr athro i'r dysgwr
- Eu nod yw ymestyn gwybodaeth dysgwyr am eirfa, strwythur brawddeg ac atalnodi, a'u defnydd o'r rhain
- Maent yn annog ymarfer ysgrifennu bob dydd
- Eu nod yw gwella gallu dysgwyr i ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig

## Eich arfer

Efallai yr hoffech ystyried y cwestiynau canlynol fel tîm staff. Gallent eich helpu i:

- fyfyrio ynghylch pam rydych chi'n defnyddio'r adnoddau sydd gennych
- ystyried p'un a ydynt yn cefnogi eich cynllunio a'ch addysgu i ddatblygu ysgrifennu dysgwyr yn ddigon da
- meddwl am sut rydych chi'n defnyddio ymchwil a thystiolaeth i lywio eich dewisiadau proffesiynol

1. **Sut ydych chi'n cyflawni disgwyliadau ar y cyd, cyson ac sy'n briodol uchel ar gyfer datblygu ysgrifennu dysgwyr?**

2. **A ddylai pob un o'r athrawon ddefnyddio'r un adnoddau, gyda dulliau a strategaethau cyffredin, i ddatblygu medrau ysgrifennu dysgwyr?**

- Beth yw'r rhesymau dros wneud hyn?
- A oes manteision i fabwysiadu dulliau teilwredig ar gyfer cyfnodau oedran neu grwpiau oedran penodol o ddysgwyr?
- A oes rhai dulliau a strategaethau yn fwy addas i gam penodol o ddysgu iaith?
- Sut ydych chi'n sicrhau eich bod yn diwallu anghenion datblygiadol dysgwyr wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r ysgol?
- Sut ydych chi'n sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu ar gyfer ysgrifennu?

3. **Pa mor dda y mae'r adnoddau a'r dulliau yn eich helpu i gynllunio her ddigonol i ddysgwyr mwy abl ddatblygu eu medrau ysgrifennu i safon uchel?**

- A ydynt yn cefnogi disgyblion hŷn a mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 i arbrofi â *chyfuniadau* o fathau o destun ac arddulliau i weddu i wahanol ddibenion?
- A ydynt yn helpu i ddatblygu ysgrifenwyr hyderus ac aeddfed sy'n gallu defnyddio nodweddion gwahanol ffurfiau a thrin y rheolau?
- Sut ydych chi'n sicrhau nad yw sgaffaldio yn cyfyngu ar ysgrifennu dysgwyr?

4. **Mae ymchwil yn dangos bod plant yn cymhwyso'r sylfaen wybodaeth a ddefnyddir mewn darllen yn eu hysgrifennu ar draws pob lefel iaith (Abbott, Berninger a Fayol, 2010). O ystyried hyn, a yw'r adnoddau a'r dulliau rydych chi'n eu defnyddio i gynllunio ac addysgu ysgrifennu yn cysylltu'n ddigon agos â darllen dysgwyr, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2?**

# Meddwl am eich arfer eich hun wrth ddatblygu geirfa dysgwyr

Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod geirfa yn ffactor allweddol yn natblygiad medrau darllen dysgwyr. Wrth i ddysgwyr ddadgodio geiriau, maent yn defnyddio eu gwybodaeth am eiriau i ddeall yr hyn maent yn ei ddarllen. Os nad yw'r geiriau a welant yn rhan o'u geirfa, ni fyddant yn gallu deall eu hystyr (Kamil, 2004). Nid yw trefn dysgu geiriau yn ddatblygiadol. Mae hyn yn dibynnu ar amgylcheddau a phrofiadau dysgwyr.

Mae llawer o eiriau Saesneg yn 'homograffau' – cânt eu sillafu'r un fath, cânt eu hynganu'r un fath fel arfer, ond mae ganddynt ystyron gwahanol. Hefyd, gall fod sawl ystyr i air, er enghraifft geiriau cyffredin fel, like, run, give a light, lle rydym yn defnyddio'r gair mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar y cyd-destun. Yn yr achosion hyn, mae ystyr craidd i'r geiriau sy'n dod o'u tarddiad.

Bydd llawer o blant yn dysgu gwahanol ystyron ac ymdeimladau'r geiriau bob dydd hyn yn eu cyd-destun wrth iddynt ddechrau caffael iaith. Mae hyn oherwydd eu bod yn eu gweld yn aml mewn sgyrsiau gydag oedolion. Fodd bynnag, ni fydd pob un o'r plant wedi profi'r defnydd o'r geiriau yn eu cyd-destun i'w cynorthwyo i adeiladu ar y wybodaeth hon cyn iddynt ymuno â lleoliad meithrin neu ddechrau'r ysgol.

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd o ran datblygu eu hiaith, byddant yn gweld geiriau sy'n amrywio o ran eu cymhlethdod, gydag ystyron ac 'ymdeimladau' lluosog wrth ddarllen, yn ogystal â thrwy wrando. Mae addysgu geiriau sy'n ymddangos mewn testunau ysgrifenedig, ond yn anaml mewn sgyrsiau, yn gallu cael effaith bwerus ar lythrennedd dysgwyr (Beck, McKeown a Kucan, 2013). Yn aml, mae athrawon yn gofyn i ddysgwyr ddefnyddio geiriadur i ddod o hyd i ddiffiniad o air nad ydynt yn ei wybod. Mae astudiaethau

ymchwil (McKeown, 1991; Scott a Nagy, 1989) wedi dangos y gall y dull hwn fod yn broblemus, yn enwedig os hwn yw'r unig ddull o ddysgu ystyr geiriau. Mae hyn oherwydd bod diffiniadau geiriadur yn aml yn gryno ac nid ydynt yn darparu digon o wybodaeth yn ei chyd-destun i helpu dysgwyr i ddeall ystyr geiriau yn llwyddiannus.

**Gallwch ddarllen mwy ynghylch pam mae datblygu geirfa dysgwyr yn bwysig ar dudalennau 227 i 228.**

## Eich arfer

Efallai yr hoffech chi edrych ar y canllawiau **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** yn *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b) a chysylltu'r arfer rydym wedi'i disgrifio am ddatblygu geirfa dysgwyr â'r adrannau canlynol:

- **Datganiadau am beth sy'n bwysig**
- **Egwyddorion dilyniant**

Edrychwch ar ble mae gwybodaeth am eirfa a datblygiad geirfa yn ymddangos yn y **Disgrifiadau o ddysgu**.

Nawr, defnyddiwch y cwestiynau hyn fel man cychwyn i'ch helpu i fyfyrio ar eich arfer a'ch darpariaeth eich hun ar gyfer datblygu geirfa dysgwyr:

- Pa eiriau neu fathau o eiriau sy'n bwysig i'w haddysgu?
- Sut ydych chi'n gwneud y broses gudd hon i ddatblygu geirfa yn weladwy i'ch dysgwyr?

**Cynllunio**

- Ydych chi'n cynllunio ar gyfer addysgu geirfa yn eglur i'ch dysgwyr, yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu dysgu geiriau trwy sefyllfaoedd naturiol wrth iddynt godi?
- Sut ydych chi'n nodi'r geiriau newydd rydych chi eisiau i ddysgwyr eu dysgu? Sut ydych chi'n dewis y geiriau hyn? Yn dibynnu ar lefelau iaith a llythrennedd dysgwyr, a ydych chi'n nodi:

  - geiriau bob dydd sy'n digwydd yn aml mewn sgyrsiau?

  - geiriau sy'n ymddangos mewn testunau ysgrifenedig ond yn anaml wrth sgwrsio?

  - geiriau sy'n gysylltiedig â thestunau a phynciau penodol?
- Sut ydych chi'n bwriadu diwallu anghenion dysgwyr â geirfa gyfyngedig, yn enwedig i gefnogi eu darllen er dealltwriaeth?

**Addysgu ac asesu**

- Ydych chi'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut byddwch chi'n cyflwyno dysgwyr i'r geiriau, er enghraifft trwy wrando a siarad neu drwy destun ysgrifenedig?
- Ydych chi'n ystyried yn ofalus a yw'n well cyflwyno dysgwyr i ystyr craidd y gair yn unig, neu'n archwilio gwahanol ddefnydd o'r gair, neu 'arlliwiau' ystyr?
- Ydych chi'n meddwl ynglŷn â sut byddwch chi'n esbonio'r geiriau mewn iaith bob dydd y mae disgyblion yn ei deall?
- Beth fydd dysgwyr yn ei wneud i ymgysylltu â'r geiriau a'u hystyron?

- Ydych chi'n darparu cyd-destunau dilys i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso eu medrau dysgu geiriau mewn sesiynau llythrennedd ac ym meysydd eraill y cwricwlwm?
- Sut ydych chi'n cynnwys dysgwyr mewn asesu eu gwybodaeth am eiriau, a'u defnydd ohonynt?
- Sut ydych chi'n eu hannog i ddwyn perchnogaeth ar ddysgu eu geirfa eu hunain?

# Meddwl am eich arfer eich hun wrth feithrin diwylliant darllen

**Gallwch chi ddarllen mwy am fanteision meithrin diwylliant darllen ar gyfer dysgwyr ar dudalennau 229 i 230.**

## Eich arfer

**1. Meddwl am yr hyn y mae dysgwyr yn ei ddarllen**

A oes ots p'un a yw dysgwyr yn darllen deunydd ffuglen neu ffeithiol?

Mae ymchwil yn awgrymu bod ots. Efallai yr hoffech chi ddarllen yr erthyglau canlynol ar-lein i archwilio'r cyswllt ymhellach rhwng darllen deunydd ffuglen er mwynhad, a chyrhaeddiad darllen:

- **Fact or fiction? Novels come top for reading skills** (University College London, Institute of Education, 2018)
- **Are all types of reading equal, or are some more equal than others?** (Jerrim, 2019)
- **Book Trust Cymru: Ail-feddwl Darllen er Mwynhad yn y Cwricwlwm Newydd** (Llywodraeth Cymru, 2020a)

**2. Meddwl am yr hyn y mae athrawon yn ei ddarllen**

Mae tystiolaeth o'n gwaith ac ymchwil arolygu (er enghraifft, Cremin *et al.*, 2008) yn awgrymu nad yw llawer o athrawon efallai'n ddigon cyfarwydd ag ystod amrywiol o awduron a beirdd plant i'w galluogi i feithrin arferion darllen dysgwyr cystal ag y gallent. Yn gyffredinol, gwelwn fod llawer o athrawon cynradd yn dibynnu ar garfan

gyfyngedig o awduron plant, a beirdd, i raddau llai. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i wneud argymhellion priodol am lyfrau, sy'n diwallu anghenion a diddordebau amrywiol dysgwyr, ac yn hyrwyddo darllen annibynnol er pleser.

Mae gwefan Y Brifysgol Agored '**Research-Rich Pedagogies**' (Y Brifysgol Agored, 2020) yn darparu llawer o wybodaeth o brosiectau ymchwil ar y cyd Y Brifysgol Agored a'r United Kingdom Literacy Association ar ddarllen er pleser. Mae hyn yn cynnwys ymchwil ac enghreifftiau o arfer wrth ddatblygu gwybodaeth bwnc athrawon. Er enghraifft, mewn fideo byr, mae Teresa Cremin (Athro Addysg, Y Brifysgol Agored), ac athrawes ysgol gynradd o Essex, yn siarad am ffyrdd ymarferol o ddatblygu gwybodaeth athrawon am lenyddiaeth plant a thestunau eraill.

# Meddwl am eich arfer eich hun o ran datblygu cymorth effeithiol i ddysgwyr a'u teuluoedd

**Gallwch ddarllen mwy am asesu a chefnogi cynnydd dysgwyr mewn iaith a llythrennedd ar dudalennau 231 i 232.**

## Eich arfer

**1. Meddwl am ddysgu teuluol**

Yn ein hadroddiad, '**Ysgolion Cymunedol: Teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol**' (Estyn, 2020b), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, rydym yn archwilio sut mae ysgolion yn cryfhau ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Efallai yr hoffech chi ddefnyddio'r adroddiad a'r astudiaethau achos i feddwl am sut gall dysgu teuluol gefnogi datblygiad iaith a llythrennedd dysgwyr.

**2. Meddwl am ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig**

Ym mis Ionawr 2020, fe wnaethom gyhoeddi '**Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd – Adroddiad arfer dda**' (Estyn, 2020d). Mae hwn yn nodi bod pwysigrwydd nodi anghenion plant yn gynnar ynghyd â gwaith partneriaeth cryf rhwng lleoliadau ac ysgolion yn sbardunau allweddol wrth sicrhau bod ymyriadau priodol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer dysgwyr ag anghenion iaith a llythrennedd.

Mae'r adroddiad yn darparu astudiaethau achos arfer effeithiol sy'n berthnasol i iaith a llythrennedd.

# Ymchwil a thystiolaeth

# Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu

1 Mae ymchwil yn cadarnhau pwysigrwydd ansawdd yr amgylchedd dysgu i ddatblygiad iaith plant. Mae iaith, sgwrs ac ystum yn agweddau pwysig ar gyfathrebu yn yr amgylchedd hwnnw, yn enwedig yn ystod blynyddoedd cynnar plentyn mewn addysg (Goswami, 2015, tud.24). Maent yn cefnogi datblygu ystod o fedrau llythrennedd cynnar, yn ogystal â gwybodaeth a dealltwriaeth.

2 Mae lleoliadau ac ysgolion sy'n blaenoriaethu dulliau sy'n pwysleisio iaith lafar a rhyngweithio llafar i blant ifanc, yn fuddiol i bob dysgwr. Mae rhai astudiaethau'n dangos ychydig mwy o effaith o'r dulliau hyn ar wella iaith a llythrennedd plant o gefndiroedd difreintiedig (y Sefydliad Gwaddol Addysgol, 2017a). Mae'r dulliau yn cynnwys darllen ar goedd i blant a thrafod llyfrau â nhw, gan ymestyn geirfa lafar plant trwy eu cyflwyno i eiriau newydd yn eu cyd-destun, a thynnu sylw at lythrennau a seiniau (y Sefydliad Gwaddol Addysgol, 2018b). Yn ychwanegol, maent yn cynnwys dulliau wedi'u hanelu at ddatblygu meddwl a deall trwy iaith, fel strwythuro rhyngweithio o ansawdd uchel rhwng oedolion a phlant. Mae siarad gyda phlant am eu profiadau a'u gweithgareddau uniongyrchol yn debygol o fod yn fwy effeithiol.

3 Caiff yr amgylchedd dysgu yn y cartref effaith sylweddol ar gaffaeliad iaith a datblygiad gwybyddol plant ifanc. Mewn astudiaeth hydredol Ewropeaidd o sampl o ddatblygiad plant ifanc rhwng 3 a 7 oed, cadarnhaodd Siraj-Blatchford *et al* fod yr hyn y mae rhieni a gofalwyr yn ei wneud yn gwneud 'gwahaniaeth go iawn' (2004, tt.4-5). Caiff ansawdd yr amgylchedd dysgu yn y cartref fwy o effaith ar ddatblygiad plant, na galwedigaeth, addysg neu incwm rhieni. Cyflawnir hyn trwy weithgareddau rhieni, fel:

- dysgu caneuon a hwiangerddi i'w plentyn
- darllen gyda'u plentyn
- addysgu'r wyddor a chwarae â llythrennau

- ymweld â'r llyfrgell
- creu cyfleoedd rheolaidd iddynt chwarae â'u cyfoedion gartref

Mae aros nes bod plentyn yn dechrau'r ysgol yn golygu colli cyfle pwysig i ymyrryd mewn datblygiad iaith (Bornstein, Hahn a Putnick, 2016; McKean *et al.*, 2015). Mae hyn oherwydd bod effeithiau dylanwadau amgylcheddol ar alluoedd iaith plant yn dechrau'n gynnar (Fernald, Marchman a Weisleder, 2013; Hoff, 2003).

4 Mae sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn 'gyfoethog o ran geiriau' yn allweddol i ddatblygu medrau iaith dysgwyr yn yr ysgol gynradd (Fisher a Blachnowicz, 2004, tud.67). Mae Kucan (2012, tud.361) yn disgrifio hyn fel amgylchedd ystafell ddosbarth lle mae geiriau'n cael eu 'sylwi', 'ymchwilio', 'dathlu' a'u 'blasu' yn barhaus. Cyflawnir hyn trwy ddefnyddio gweithgareddau, adnoddau a deunyddiau sy'n helpu dysgwyr i chwarae â geiriau a meddwl yn eglur am iaith.

5 Yn ein hadolygiad o lythrennedd yn y cyfnod sylfaen yn 2011, adroddom ar y modd yr oedd y mwyafrif o ysgolion wedi adeiladu ar gynlluniau presennol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd plant, ar ôl cyflwyno'r cyfnod sylfaen yng Nghymru. Pwysleisiom fod ysgolion effeithiol yn gweld dysgu iaith fel rhywbeth cyfannol, lle mae gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn cefnogi ac yn gwella datblygiad iaith yn gyffredinol. Pan fydd ysgolion yn gwneud hyn orau, maent yn datblygu iaith mewn perthynas â'r cyd-destun y caiff ei defnyddio ynddi, ac yn mynd ati i ymgysylltu â phlant (Estyn, 2011).

6 Yn ein hadroddiad yn 2014, *Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3* (Estyn, 2014), nodom fod cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer iaith a llythrennedd yn dda, ar y cyfan, mewn mwyafrif o ysgolion cynradd. Yn yr enghreifftiau gorau prin, roedd ysgolion yn cynllunio cyd-destunau cyfoethog ac amrywiol ar gyfer datblygiad iaith a llythrennedd yng nghyfnod allweddol 2, gan ddarparu gwaith cynyddol heriol. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad wendidau yng nghynllunio lleiafrif o ysgolion ar gyfer medrau darllen ar gyfer dealltwriaeth ac ysgrifennu testunau anllenyddol. Nid oedd mwyafrif ohonynt yn cynllunio gwaith a oedd yn ddigon heriol i ymestyn disgyblion mwy abl.

7 Y bwriad yw y dylid mynd i'r afael yn gyfannol â'r 4 datganiad sy'n mynegi beth sy'n bwysig yn y maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae hyn yn golygu y dylid datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu mewn perthynas â'i gilydd, a'r gwahanol ieithoedd yn yr un modd hefyd. Mae pwyslais nodedig ar ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn y camau dilyniant cynnar yn y disgrifiadau o ddysgu. Mae trefnu'r datganiadau ynglŷn â beth sy'n bwysig yn cefnogi datblygiad cymwyseddau cysylltiedig ym mhob un o'r medrau iaith, er enghraifft datblygu rhesymu fel medrau derbyngar mewn gwrando a darllen (*Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas*), neu ddatblygu'r gallu i siarad ac ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd fel medrau mynegiannol (*Mae mynegi ein hunain trwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu*). Nodir datblygiad geirfa yn y disgrifiadau dysgu ar gyfer gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu.

# Addysgu ac asesu

8 Mae *Canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru* yn pwysleisio'r angen i ymarferwyr ystyried addysgeg sy'n ymwneud yn benodol â'r maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Llywodraeth Cymru, 2020b, tud.160). Yn bwysig, mae'n atgoffa ysgolion y dylai asesu 'ganolbwyntio o hyd ar wthio'r dysgu yn ei flaen trwy ddeall y dysgu sydd eisoes wedi digwydd, gan ddefnyddio hyn i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu herio a'u cefnogi'n briodol yn ôl eu hanghenion dysgu unigol' (Llywodraeth Cymru, 2020b, tud.9).

9 Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysgol (2017b, 2018a) yn cyflwyno cyfres o adroddiadau ar y thema addysgu ac asesu iaith a llythrennedd, sy'n defnyddio tystiolaeth o ddulliau a all wneud gwahaniaeth i ddysgwyr yn dysgu iaith, o'u defnyddio'n effeithiol. Er enghraifft, defnyddio gwybodaeth o ansawdd uchel am alluoedd presennol dysgwyr i ddewis y camau nesaf gorau ar gyfer addysgu.

10 Mae ymchwil, a thystiolaeth o'n harolygiadau a'n gwaith thematig yn dangos bod darpariaeth effeithiol ar gyfer iaith a llythrennedd wedi'i nodweddu gan:

<table>
<tr><th>addysg y blynyddoedd cynnar</th><th>trwy'r cyfnod sylfaen ac i gyfnod allweddol 2, lle bo'n briodol</th><th>trwy gyfnod allweddol 2</th></tr>
<tr><td>flaenoriaethu datblygiad dealltwriaeth pobl ifanc o iaith a'u medrau cyfathrebu</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">datblygu geirfa dderbyngar a mynegiannol plant</td></tr>
<tr><td>datblygu eu hymwybyddiaeth ffonolegol, eu mwynhad a'u dealltwriaeth o storïau a llyfrau</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">datblygu eu medrau iaith lafar fynegiannol a datblygu eu cymhelliant i ysgrifennu</td></tr>
<tr><td colspan="3">asesu galluoedd iaith dysgwyr yn gywir, a nodi anawsterau, i weddu dysgwyr i ymyriadau priodol</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">gweithgareddau gwrando a siarad pwrpasol</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">defnyddio dull cytbwys o ddatblygu darllen, sy'n integreiddio datblygu medrau dadgodio dysgwyr, eu dealltwriaeth a'u mwynhad o ddarllen</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">addysgu ffoneg yn systematig*</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">addysgu dysgwyr i ddefnyddio ystod o strategaethau i ddatblygu a monitro eu dealltwriaeth wrth ddarllen</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">defnyddio siarad i gefnogi datblygu ysgrifennu</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">addysgu sillafu yn eglur</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">defnyddio dulliau wedi'u modelu, ar y cyd, a dan arweiniad i addysgu darllen ac ysgrifennu, gan arwain at annibyniaeth</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">datblygu rhwyddineb llawysgrifen</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">addysgu dysgwyr ynglŷn â sut i ddefnyddio ystod o strategaethau i gynllunio ac ysgrifennu, gyda ffocws ar sut i greu brawddegau, cyfuno brawddegau a strwythuro testun</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">sut i fonitro eu cynnydd eu hunain a diwygio a rhannu eu gwaith</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">darparu cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a chymhwyso eu medrau gydag adborth cefnogol</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">lleihau cymorth i oedolion yn raddol fel bod dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>darparu cyfleoedd i ddysgwyr drafod a mynegi eu syniadau, cyn ysgrifennu</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>defnyddio darllen i gefnogi datblygu ysgrifennu</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>addysgu'r broses ysgrifennu (cynllunio, drafftio, rhannu, gwerthuso, diwygio, golygu, prawfddarllen, cyhoeddi)</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>addysgu technegau creu brawddegau soffistigedig yn raddol</td></tr>
</table>

*er enghraifft, i'r dysgwyr hynny sydd wedi'i chael yn anodd caffael medrau dadgodio cadarn yn y cyfnod sylfaen

**11** Mae'r model 'rhyddhau cyfrifoldeb yn raddol' a ddatblygwyd gan Pearson a Gallagher (1983) yn dylanwadu ar y dull y mae llawer o ysgolion yn ei ddefnyddio i addysgu darllen ac ysgrifennu. Mae'r dull hwn yn gofyn i'r athro gymryd cyfrifoldeb am yr ysgrifennu neu'r darllen, er enghraifft trwy fodelu'n eglur sut i greu neu ddarllen testun, i sefyllfa lle mae'r dysgwyr yn ysgwyddo'r holl gyfrifoldeb (Duke a Pearson, 2002). Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer y medrau a addysgwyd trwy weithgareddau darllen ac ysgrifennu ar y cyd a dan arweiniad, i roi iddynt y medrau a'r hyder i fynd â'u dysgu ymlaen yn annibynnol.

**12** Yn 2008, yn ein cyhoeddiad, *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008, tud.16), amlygwyd bod y term 'testunau' hefyd yn cynnwys ystod o gyfryngau sy'n herio'r rhagdybiaeth fod darllen ac ysgrifennu yn ymwneud â thestun print yn unig. Mae *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b) yn pwysleisio ei bod yn bwysig i ddysgwyr brofi a darllen ystod eang o destunau aml-ddull i'w cefnogi wrth iddynt ddysgu iaith. Mae cynnwys a graddau delweddau sy'n ymddangos mewn testunau aml-ddull yn cynyddu, ac mae ein cymdeithas, yn gyffredinol, yn symud oddi wrth gymdeithas brint i gymdeithas aml-ddull (Kress a van Leeuwen, 2006). Ar hyn o bryd, megis dechrau datblygu mewn llawer o ysgolion cynradd yng Nghymru y mae'r arfer o addysgu dysgwyr ynglŷn â sut i 'ddarllen' delweddau llonydd a delweddau sy'n symud ar eu pennau eu hunain, neu wedi'u cyfuno â phrint, sain neu symudiad; a chyfathrebu gan ddefnyddio gwahanol fathau o gyfryngau.

## Datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr

**13** Mae iaith lafar yn allweddol i ddatblygiad gwybyddol a dysgu plentyn. Mae'n rhagflaenu ac yn ategu darllen ac ysgrifennu (Law *et al.*, 2017), ac yn darparu sylfaen ar gyfer dysgu a meddwl. Mae dulliau sy'n pwysleisio iaith lafar a chymorth â rhyngweithio llafar yn cefnogi datblygu cyfathrebu, iaith a llythrennedd yn effeithiol.

14 Yn nodweddiadol, rhennir dysgu geiriau yn ddwy elfen wahanol, sef: geirfa dderbyngar (yr hyn y mae plant yn ei ddeall) a geirfa fynegiannol (yr hyn y mae plant yn ei ddweud). O'r adeg pan fydd plant tua dwy flwydd oed, mae defnyddio geirfa amrywiol a chynnwys geiriau prin neu anfynych, yn bwysicach er mwyn iddynt ddatblygu geirfa fwy datblygedig. O'r adeg pan fydd plant tua thair blwydd oed, mae eu hamlygu i iaith adrodd, stori, disgrifio a chwarae trwy gymryd arnoch, gan ddefnyddio amser y gorffennol a'r dyfodol, yn bwysig ar gyfer adeiladu eu geirfaoedd derbyngar (Rowe, 2012).

15 Yn gyffredinol, mae datblygiad iaith gynnar yn digwydd trwy gyfres o gamau gwahanol ond sy'n gorgyffwrdd, gyda'r rhan fwyaf o blant yn dilyn patrymau tebyg, er bod y cyflymdra y mae iaith yn datblygu yn gallu amrywio'n sylweddol (Law *et al.*, 2017). Erbyn iddynt fod yn dair blwydd oed, mae gwahaniaethau nodedig rhwng nifer y geiriau y mae plentyn yn eu defnyddio, a sut maent yn rhoi'r geiriau at ei gilydd. Mae rhai plant yn dechrau'n dda ac yn llithro'n ôl; mae plant eraill yn dechrau'n araf iawn ac yn dal i fyny. Mae ymchwil yn awgrymu bod pa mor dda y mae plentyn yn rhoi geiriau at ei gilydd yn debygol o roi syniad gwell o allu plentyn mewn iaith yn ddiweddarach na nifer y geiriau y mae plentyn yn eu defnyddio (Law *et al.*, 2017). Mae angen monitro cynnydd plant yn effeithiol ym mhob cam caffael iaith lafar er mwyn i'r plant hynny sy'n llithro'n ôl ddal i fyny, ni waeth beth yw eu cyfnod datblygu.

16 Er bod amrywioldeb yng nghaffaeliad iaith plant yn debygol o ganlyniad i eneteg, yn rhannol (Stromswold, 2001), mae gan ffactorau amgylcheddol rôl hanfodol hefyd (Hoff, 2006). Mae tystiolaeth yn dangos bod y gyfradd y mae plant yn caffael iaith arni yn sensitif i faint o fewnbwn maent yn ei gael gan oedolion o'u cwmpas. Rydym wedi gwybod ers tro bod plant y mae eu rhieni'n siarad llawer yn datblygu geirfa yn gyflymach (Hart a Risley, 1995; Cartmill *et al.*, 2013). Fodd bynnag, mae *ansawdd* yr iaith a'r siarad mae plant yn ei brofi yn bwysig hefyd, ac mae'n debygol o fod o leiaf yr un mor bwysig â'r graddau y cânt eu hamlygu i iaith (Rowe, 2012).

**17** Mae *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b) yn rhoi mwy o ffocws ar ddatblygu medrau gwrando dysgwyr, na chwricwla cenedlaethol blaenorol yng Nghymru, i helpu dysgwyr i 'ddehongli'n feirniadol a diduedd yr hyn y byddan nhw'n ei glywed' (Llywodraeth Cymru, 2020b, tud.127). Mae hyn yn cynnwys cefnogi dysgwyr i fod yn fwy ymwybodol a hunanymwybodol o'r modd y mae pobl eraill yn cyfathrebu trwy leferydd, ystum neu gyfryngau eraill, ac yn eu tro, dehongli, gwerthuso a mynegi eu hatebion eu hunain yn briodol.

**18** Ni ellir rhoi digon o bwyslais ar addysgu gwrando a siarad yn bwrpasol trwy gydol blynyddoedd cynnar ac addysg gynradd plentyn. Mae angen i ddysgwyr ddysgu gwrando a siarad; ac mae angen iddynt ddysgu trwy siarad, os ydynt am fod yn ddysgwyr hyderus a llwyddiannus, yn feddylwyr beirniadol, yn gyfathrebwyr effeithiol ac yn ddinasyddion gweithredol.

## Datblygu medrau darllen dysgwyr

**19** Ar draws ieithoedd, mae ymwybyddiaeth ffonolegol plant yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at eu datblygiad o ran darllen a sillafu (Ziegler a Goswami, 2005). Ymwybyddiaeth ffonolegol yw'r gallu i wahaniaethu rhwng nodweddion lleferydd, fel sillafau, rhannu dechrau a diwedd gair a ffonemau. Mae'n bwysig fod plant yn datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol o odl, sillafau a phatrymau pwyslais mewn geiriau, gan fod hyn yn gysylltiedig â'u gallu i ddarllen yn rhwydd yn ddiweddarach (Harper, 2011; Law *et al.*, 2017). Mae hyn oherwydd bod ymwybyddiaeth o sillafau ac odlau yn datblygu cyn llythrennedd ar draws ieithoedd, ond nid yw hynny'n wir o ran ymwybyddiaeth ffonemig. Mae ymwybyddiaeth ffonemig yn dibynnu'n gyfan gwbl ar addysgu, gan nad yw'r ffonem yn uned lleferydd naturiol.

**20** Mae datblygiadau diweddar mewn ymchwil yn dangos sut mae gwahaniaethau unigol rhwng ymwybyddiaeth ffonolegol, neu ymwybyddiaeth o leferydd a sain, yn gallu rhagweld datblygiad darllen a sillafu ar draws ieithoedd. Mae gwaith gyda phlant ifanc wedi datgelu bod ciwiau synhwyraidd, fel cerddoriaeth a barddoniaeth, yn eu helpu

i ddatblygu ymwybyddiaeth o odl, sillafau a phatrymau pwyslais mewn geiriau. Mae drymio i wahanol strwythurau curiad mewn cerddoriaeth, clapio strwythur sillafau cerddi, a martsio i batrymau'r curiad mewn hwiangerddi, i gyd yn gwella prosesu iaith ac yn helpu darllenwyr sy'n cael trafferth (Goswami, 2018). Wrth ddechrau'r ysgol, bydd plentyn ag ymwybyddiaeth ffonolegol wael yn cael mwy o anhawster yn dysgu darllen. Mae dysgwyr â medrau ffonolegol gwael a llai o sensitifrwydd i rythm mewn perygl o fod â dyslecsia ym mhob iaith (Goswami, 2015).

**21** Mae *Canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru* yn atgoffa lleoliadau ac ysgolion am bwysigrwydd cael gweithdrefn glir yn ei lle ar gyfer, a rhoi pwyslais ar, 'ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemig y dysgwyr yn systematig' (Llywodraeth Cymru, 2020b, tud.161):

> Pan fydd yn briodol ar gyfer y dysgwr, dylai dysgu ffoneg fod yn systematig a chyson, gan ddigwydd gyda gweithgareddau ieithyddol eraill, sy'n hybu dat-blygiad geirfa a dealltwriaeth.

Mae addysgu neu gyfarwyddyd ffoneg yn set o ymagweddau neu ddulliau ar gyfer addysgu darllen ac ysgrifennu i ddechrau, sy'n canolbwyntio ar y berthynas rhwng llythrennau a seiniau. I osgoi dryswch a chamdybiaethau, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y wybodaeth a'r medrau y mae dysgwyr yn eu caffael (h.y. ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemig) a'r dulliau addysgu sy'n arwain at hyn.

**22** Dylai medrau darllen cynnar dysgwyr o ran deall ac ymateb ddatblygu'n gyfochrog â'u medrau dadgodio. Er enghraifft, dylai darllenwyr cynnar ddangos eu dealltwriaeth o destunau sy'n cael eu darllen iddynt, a'r rhai y maent yn eu darllen eu hunain. Dylent fynegi eu hymateb i gerddi, storïau a thestunau anllenyddol trwy nodi agweddau y maent yn eu hoffi. Gallant 'resymu' ystyr o destunau hyd yn oed mor gynnar â hyn wrth ddatblygu eu darllen (Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, 2008).

**23** Mae ymchwil yn nodi, wrth i ddysgwyr ddod yn fwy rhugl yn eu darllen, y dylid eu haddysgu i ddefnyddio ystod gynyddol o strategaethau i ddatblygu eu dealltwriaeth, wrth ddarllen yn annibynnol. Mae strategaethau darllen a deall yn canolbwyntio ar

ddealltwriaeth y dysgwyr o destun ysgrifenedig. Felly, mae'n bwysig addysgu dysgwyr bod gwahanol fathau o ddarllen sy'n briodol at wahanol ddibenion, a bod hyn yn dylanwadu ar y strategaethau rydym yn eu defnyddio (Estyn, 2008). Mae hyn yn golygu y dylai ymarferwyr addysgu dysgwyr ynghylch ystod o dechnegau, sy'n eu galluogi i ddeall ystyr yr hyn y maent yn ei ddarllen (Gweler atodiad 3).

24 Mae gweithgareddau darllen a deall yn gofyn i ddysgwyr ddefnyddio syniadau a gwybodaeth yn y darn, a greddf a phrofiad personol, yn sylfaen ar gyfer dyfaliadau neu ragdybiaethau. Hynny yw, darganfod a yw'r awdur yn ceisio dweud rhywbeth wrthynt gan ddefnyddio cliwiau a thystiolaeth o'r testun, pan nad yw wedi'i ysgrifennu'n eglur – 'darllen rhwng y llinellau, a thu hwnt'. Mae bron unrhyw weithgaredd darllen sy'n mynd y tu hwnt i ddealltwriaeth lythrennol yn cynnwys rhywfaint o resymu. Gall rhesymu fod mor syml â chysylltu'r rhagenw 'he' â gwryw y soniwyd amdano yn flaenorol; neu, gall fod mor gymhleth â deall neges gynnil, ymhlyg sy'n cael ei chyfleu trwy ddewis geirfa benodol gan yr awdur a defnyddio gwybodaeth gefndir y darllenydd ei hun (Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, 2008). Yn ogystal â rhesymu, gallai fod angen i ddysgwyr ddefnyddio eu medrau gwerthuso i ffurfio safbwynt neu lunio barn naill ai'n seiliedig ar y testun yn unig ac/neu ar eu gwybodaeth a'u profiad blaenorol.

25 Yn aml, mae ysgolion a sefydliadau yn defnyddio'r 'medrau darllen lefel uwch' i ystyried dilyniant mewn datblygu medrau darllen dysgwyr yng nghyfnod allweddol 2. Yn gyffredin, maent yn defnyddio hyn i gyfeirio at fedrau, fel 'rhesymu a dod i gasgliad' wrth ddarllen testun ffuglen neu 'lithrddarllen a sganio' am wybodaeth, wrth ymchwilio i destun i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Gall y term 'lefel uwch' fod yn gamarweiniol. Er enghraifft, gwyddom fod dysgwyr ifanc, nad ydynt yn sicr ynglŷn â'u medrau dadgodio eto, yn gallu rhesymu a dod i gasgliad ynghylch ystyr o destunau pan gânt eu darllen gan oedolyn. Yn ychwanegol, gall dysgwyr iau ddod o hyd i ffynonellau priodol ac adalw gwybodaeth o destunau, pan fydd y testunau'n hygyrch.

Yn *Canllawiau ar addysgu uwch sgiliau darllen* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, tud.4), mae'n datgan:

> Dylid addysgu'r hyn rydyn ni'n draddodiadol yn ei alw'n uwch sgiliau darllen (h.y. sgiliau lleoli, ad-drefnu, dod i gasgliadau, gwerthuso a gwerthfawrogi) i ddysgwyr o gychwyn cyntaf eu siwrnai ddarllen.

## Datblygu medrau ysgrifennu dysgwyr

**26** Mae'r weithred o ysgrifennu yn cynnwys amryfal brosesau, strategaethau a chonfensiynau sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu testun ar gyfer cynulleidfa a diben penodol. Mae *Canllawiau newydd y Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b) yn darparu sbardunau i ysgolion eu hystyried wrth gynllunio eu darpariaeth iaith. Maent yn cynnwys dysgwyr yn creu ac yn ymateb i'w testunau eu hunain mewn gwahanol gyfryngau, gan ddefnyddio ystod eang o fformatau, er enghraifft defnyddio print a delwedd (delweddau llonydd neu ddelweddau sy'n symud) neu brint, delwedd, sain a symudiad.

**27** Yn gyffredin, caiff addysgu ysgrifennu mewn ysgolion cynradd ei nodweddu gan gyfres o gamau neu gyfnodau sydd wedi'u cynllunio i alluogi dysgwyr i ysgrifennu testunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion yn annibynnol, neu gyda chymorth cyfyngedig gan oedolion. Fel arfer, mae hyn yn dechrau â'r athro yn dangos enghreifftiau o'r math o destun, ac yn arddangos sut i ysgrifennu mewn fformat penodol ar gyfer cynulleidfa a diben penodol. Mae ymchwil yn dangos bod addysgu nodweddion testun yn eglur yn gallu gwella ysgrifennu dysgwyr (er enghraifft, Englert *et al.*, 1991). Yn aml, mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dilynol ar y cyd i ymarfer y broses ysgrifennu gydag arweiniad a chymorth, cyn cymryd cyfrifoldeb am ysgrifennu ffurf y testun yn unigol.

**28** Mae llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio dull 'casgliadol' neu ddull datrys problemau o addysgu ysgrifennu. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr yn dadansoddi strwythur, trefniadaeth a nodweddion iaith gwahanol ffurfiau testun, yng nghyd-destun y gynulleidfa a'r diben penodol ar gyfer yr ysgrifennu. Yn y dull hwn, mae dysgwyr yn

llunio eu 'rheolau' neu 'feini prawf llwyddiant' eu hunain ar gyfer ysgrifennu gwahanol ffurfiau testun, y gallant eu haddasu a'u hymestyn yn sgil profiad pellach. Yn ystod ysgrifennu, ac ar ôl hynny, caiff dysgwyr eu hannog i werthuso effeithiolrwydd eu hysgrifennu.

**29** Mae cysylltiad agos rhwng darllen ac ysgrifennu: maent yn rhannu gwybodaeth a phrosesau gwybyddol tebyg am brint sy'n hanfodol ar gyfer y naill a'r llall (Fitzgerald a Shanahan, 2000). Er enghraifft, mae angen i blant ddysgu bod ystyr i brint; bod testun Cymraeg a Saesneg yn cael ei ddarllen o'r chwith i'r dde, ac o'r top i'r gwaelod; a bod print yn gallu bod â gwahanol ddibenion. Mae medrau iaith fynegiannol yn ategu medrau ysgrifennu plant ifanc, a dyna pam mae adrodd stori, chwarae rôl a darllen ar goedd yn weithgareddau iaith mor bwysig. Yn ystod camau datblygiadol cynharaf ysgrifennu, mae ymchwil a Llywodraeth Cymru (2015b, tud.23), yn pwysleisio ei bod yn bwysig i oedolion ddarparu cyfleoedd i blant greu marciau a thynnu llun symbolau yn rhydd, sy'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel *ysgrifennu*. Mae hyn hefyd yn wir am blant oedran meithrin yn arbrofi ag ystod o offer a deunyddiau creu marciau ar draws ystod o gyd-destunau.

**30** At ei gilydd, nid yw'r berthynas rhwng gweithgareddau iaith lafar a datblygiad ysgrifennu dysgwyr o oedran ysgol gynradd wedi cael ei harchwilio rhyw lawer mewn llenyddiaeth ymchwil. Mae ymchwil yn dangos bod ymarfer syniadau ar lafar yn cefnogi ysgrifennu ysgrifenwyr ifanc (Adams *et al.*, 2013), gan eu helpu i feddwl ynglŷn â sut yn union y byddant yn mynegi eu syniadau cyn ysgrifennu. Yn aml, mae'r angen i ganolbwyntio ar fedrau trawsgrifio ffurfio llythrennau, sillafu, llunio brawddegau a chynnwys yn gallu bod yn hynod anodd i ysgrifenwyr ifanc neu ysgrifenwyr sy'n cael trafferth. Yn ychwanegol, mae tystiolaeth yn dangos, pan fydd dysgwyr cyfnod allweddol 2 yn 'chwarae' â thestunau adnabyddus, er enghraifft trwy gyfnewid geiriau ac addasu'r naratif, gall eu helpu i ysgrifennu'n greadigol (Boscolo, Gelati a Galvan, 2012).

31 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio sgaffaldio fel dull addysgu i gefnogi dysgwyr yn ystod y broses ysgrifennu (Wood, Bruner a Ross; 1976; Wood, 1998). Yn nodweddiadol, mae hyn yn cynnwys rhannu gweithgaredd ysgrifennu, er enghraifft creu testun esbonio, yn dasgau llai, cynyddol gymhleth i gynorthwyo'r dysgwr. Gallai hefyd gynnwys symud y cyfrifoldeb am ysgrifennu yn raddol, dros ychydig ddyddiau, neu wythnos neu ddwy, oddi wrth yr athro i'r dysgwr. Mae adolygiad o dystiolaeth ymchwil yn awgrymu y gall dull sgaffaldio o addysgu ysgrifennu helpu cymell dysgwyr i ysgrifennu, a gwella ansawdd yr hyn y maent yn ei gynhyrchu, yn enwedig ochr yn ochr ag adborth ffurfiannol buddiol (Andrews *et al.*, 2009). Er enghraifft, gall sgaffaldio gynorthwyo dysgwyr i ysgrifennu mewn ffurfiau cymhleth, fel testunau trafod, lle maent yn dysgu llunio dwy ochr dadl yn gynyddrannol. Fodd bynnag, nid yw sgaffaldio yn sicrhau y bydd dysgwr yn gwella'i fedrau ysgrifennu. Rhaid gweddu hyn yn ofalus â gallu'r dysgwr unigol (Donovan a Smolkin, 2002). Mae hyn yn atgyfnerthu pam mae asesiadau ffurfiannol o ansawdd uchel o gryfderau a gwendidau unigol dysgwyr mewn ysgrifennu mor hanfodol i athrawon weddu tasgau ysgrifennu a lefelau cymorth yn llwyddiannus i alluoedd dysgwyr (Graham a Sandmel, 2011).

32 O'u rheoli'n ofalus, mae ysgrifennu ar y cyd, lle mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio, drafftio, diwygio a golygu eu gwaith (Graham a Perin, 2007), ac ysgrifennu mewn parau (Yarrow a Topping, 2001) yn ddulliau a all gefnogi datblygiad ysgrifennu dysgwyr yn llwyddiannus. Yn ychwanegol, mae ysgifennu mewn parau, lle mae dysgwyr yn gweithio gydag un o'u cyfoedion neu oedolyn, er enghraifft gwirfoddolwr, yn gallu cael effaith gadarnhaol ar hunan-barch dysgwyr a'u hamgyffrediadau ohonyn nhw eu hunain fel 'ysgrifenwyr' (Yarrow a Topping, 2001).

33 Ceir tystiolaeth gref o astudiaethau fod addysgu sillafu, geirfa, creu brawddegau, atalnodi a gramadeg yn uniongyrchol yn gwella ysgrifennu dysgwyr. Yn ychwanegol, mae rhoi cyfleoedd dyddiol i ddysgwyr ysgrifennu yn effeithiol o ran cefnogi datblygiad y medrau craidd hyn (Graham a Perin, 2007). Pan fydd y medrau hyn yn digwydd yn

gynyddol fel mater o drefn, gall dysgwyr ganolbwyntio ar gynnwys ac arddull yr hyn y maent yn ei ysgrifennu (McCutchen, 2000).

## Datblygu geirfa dysgwyr

34 Mae geiriau yn rhan o brofiadau creu ystyr o adeg gynnar iawn yn natblygiad plentyn. Mae datblygu geirfa yn digwydd yn gyflymach mewn plentyndod cynnar, gyda phlant yn dysgu geiriau newydd pan fyddant yn ddwy oed, pan fyddant yn caffael tua deg gair newydd bob dydd (Goswami, 2015, tud.12). Mae ymchwil yn awgrymu, er bod llawer o blant yn caffael geirfa yn naturiol trwy weithgareddau gartref ac yn yr ysgol, na ellir gadael hyn i ffawd – yn enwedig yn achos plant o gefndiroedd difreintiedig.

35 Mae datblygiad iaith yn dangos amrywiad nodedig mewn plentyndod cynnar, lle mae ansawdd a maint y siarad â phlant ifanc yn ddatblygiadol bwysig. Siarad ac adeiladu geirfa, ynghyd â gwrando a deall geiriau, yw'r sylfeini hanfodol sy'n galluogi plant i ddysgu darllen (Achub y Plant, 2015). Mae astudiaethau ymchwil yn dangos bod datblygu geirfa a gwybodaeth am eirfa yn hanfodol i gefnogi llwyddiant academaidd, gan eu bod yn hynod ragfynegol o allu darllen a deall yn y dyfodol (Christ a Wang, 2011). Gall meddu ar eirfa isel ddal plant mewn cylch dieflig, gan fod disgyblion nad ydynt yn gallu darllen testunau mwy datblygedig yn colli cyfleoedd i ymestyn eu geirfa (Fisher a Blachnowicz, 2005). Maent hefyd yn llai llwyddiannus o ran defnyddio strategaethau ar gyfer dysgu geiriau (Blachnowicz a Fisher, 2000).

36 Mae llai o wybodaeth am eirfa yn golygu bod disgyblion yn fwy tebygol o brofi anhawster â darllen a deall, ac yn eu dysgu ym mhynciau eraill y cwricwlwm (Hart a Risley, 1995; Chall, Jacobs a Baldwin, 1990; Biemiller, 2001). Mae tystiolaeth yn dangos, ochr yn ochr â statws economaidd gymdeithasol, bod geirfa yn un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol o ran disgyblion yn cyflawni gradd A*- C mewn TGAU mewn mathemateg, Saesneg iaith a llenyddiaeth Saesneg (Spencer *et al.*, 2017). Mae gwella geirfa dysgwyr yn codi cyrhaeddiad mewn llythrennedd a pherfformiad ar draws meysydd pwnc. Mae

hyn yn dylanwadu ar ddewisiadau pwnc dysgwyr ar lefelau astudio uwch hefyd, eu rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol, a'u cyfleoedd mewn bywyd.

**37** Rhwng 1986 a 2008, canolbwyntiodd 31 o astudiaethau ar ddulliau o ddatblygu geirfa plant yn yr ystafell ddosbarth (Christ a Wang, 2011). Gwnaed y gwaith ymchwil hwn mewn ieithyddiaeth, seicoleg, datblygiad plant ac addysg. Canfu adolygiad o'r astudiaethau hyn fod ymarferwyr yn defnyddio tri phrif ddull i ddatblygu gwybodaeth plant am eirfa:

- amlygu plant i eiriau datblygedig mewn gwahanol gyd-destunau
- darparu addysgu ystyron geiriau yn uniongyrchol
- defnyddio ystod o ddulliau i gynorthwyo plant sydd â llai o wybodaeth am eirfa na'r plentyn cyffredin

At ei gilydd, y dulliau canlynol gafodd yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ddatblygu geirfa dysgwyr:

- dull 'yn seiliedig ar thema' o addysgu geirfa, fel dysgu geiriau cysylltiedig
- defnyddio amrywiaeth o ddulliau i addysgu gwybodaeth am eirfa
- amlygu dysgwyr i bob gair a'i ystyr ar sawl achlysur
- defnyddio dulliau addysgu sy'n helpu dysgwyr i gael dealltwriaeth ddyfnach o air
- integreiddio dysgu geiriau ar draws y cwricwlwm, a thrwy gydol y diwrnod ysgol
- asesu gwybodaeth dysgwyr am eirfa i lywio addysgu yn y dyfodol

# Meithrin diwylliant darllen

**38** Mae ymchwil yn cydnabod yn glir fanteision posibl meithrin diwylliant darllen, a phwysigrwydd agweddau dysgwyr at ddarllen. Pan fydd diwylliant darllen llwyddiannus mewn ysgol, caiff dysgwyr eu trochi yn eu darllen: maent yn darllen er pleser; i fodloni eu chwilfrydedd; a darganfod gwybodaeth a storïau sy'n eu helpu i ddysgu a chyflawni. Cânt eu cymell i ddarllen a dysgu mwy – sy'n gwneud darllen yn haws ac yn fwy difyr. Mae hyn yn annog dysgwyr i ddarllen ymhellach, a thros gyfnod, dewis llenyddiaeth sy'n gynyddol heriol. Mae hyn yn creu 'cylch rhinweddol' o welliant cyson mewn darllen a dysgu.

**39** Mae llawer o ysgolion yn dweud bod darllen er pleser a datblygu arferion darllen cadarnhaol am oes o ganlyniad i hynny yn nod addysgol. Yn 2006, amlygodd yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol mai manteision darllen er pleser i ddysgwyr oedd gwella cyrhaeddiad darllen a gallu ysgrifennu, deall testun a gramadeg, ehangder geirfa, agweddau at ddarllen a hunanhyder fel darllenydd (Clark a Rumbold, 2006, tud.9).

**40** Mae astudiaethau wedi darganfod bod cysylltiad sylweddol rhwng darllen er mwynhad a chyflawniad addysgol. Ceir tystiolaeth fod darllen er mwynhad yn cael mwy o effaith ar lwyddiant addysgol plentyn na statws economaidd gymdeithasol y teulu. Hefyd, gallai fod yn ffordd bwysig o helpu goresgyn o beidio cael eich derbyn yn allgau gymdeithasol a chodi safonau addysgol (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2002). Yn ogystal â gwella cyrhaeddiad, mae ymchwil yn profi bod llythrennedd yn cyfrannu'n sylweddol at hapusrwydd a llwyddiant ym mywyd oedolyn (Clark a Rumbold, 2006).

**41** Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn nodi ac yn rhoi sylwadau ar agweddau dysgwyr at ddarllen yn y Rhaglen Ryngwladol ddiweddaraf o Asesu Myfyrwyr, gan ddweud bod dysgwyr yng Nghymru, ar gyfartaledd, yn fwy hyderus yn eu gallu darllen na'r dysgwr cyffredin ar draws y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ond yn llai tebygol o ddarllen llyfr; maent yn fwy tebygol o ddarllen ar-lein nag o ddarllen nofel. Dangosodd dysgwyr yng Nghymru agweddau mwy negyddol at ddysgu na'u cyfoedion ar draws gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Roedd y mwyafrif ohonynt yn honni eu bod yn darllen er gwybodaeth yn unig, ac roedd hyn yr un mor wir pan oedd y ffocws olaf ar ddarllen ym mhrofion 2009 (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2019a).

**42** Mae'r *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b) yn pwysleisio rôl allweddol darllen er pleser o ran cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr, yn ogystal â datblygu eu medrau llythrennedd a chefnogi eu dysgu yn gyffredinol. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd addysgu a dysgu wrth hybu diddordeb dysgwyr 'mewn mwynhau darllen, darllen i ddibenion dychmygus a darllen ar gyfer dysgu' (Llywodraeth Cymru, 2020b, tud.161).

**43** Yn 2008, yn ein cyhoeddiad, *Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed* (Estyn, 2008, tud.17), pwysleisiom fod annog dysgwyr i ddarllen yn eang er pleser, a datblygu arferion darllen sy'n hanfodol ar gyfer bywyd, yn gonglfeini darpariaeth cwricwlwm effeithiol yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

# Cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd

**44** Mae tystiolaeth yn awgrymu na all nodi plant sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar ac yn gywir fod yn ddigwyddiad unigol. Mae hyn oherwydd yr amrywioldeb sy'n bodoli yn natblygiad iaith plant cyn iddynt ddechrau'r ysgol. Gall llawer o anawsterau iaith ddod i'r amlwg, a chael eu datrys yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Mae sawl mantais i fonitro ac asesu cynnydd plentyn tuag at gerrig milltir datblygiadol yn barhaus. Yn gyntaf, mae canfyddiadau o offer asesu lluosog yn cynyddu dibynadwyedd asesu galluoedd plentyn yn sylweddol (Bornstein, Hahn a Putnick, 2016). Yn ail, mae'r dull hwn yn helpu darparu 'rhwyd ddiogelwch' i ddal plant ynddi y gallai asesiadau cynharach fod wedi eu colli, neu nad oeddent yn arddangos anawsterau ar adeg yr asesiadau hynny. Yn ychwanegol, mae'r dull hwn yn galluogi lleoliadau ac ysgolion i fonitro newidiadau ym medrau iaith dysgwyr.

**45** Mae heriau wrth fesur ac asesu datblygiad dysgwyr mewn iaith a chyfathrebu. Mae'r cerrig milltir rydym yn disgwyl i blant eu cyrraedd yn cwmpasu amrywiaeth o barthau iaith, sef – dealltwriaeth, defnydd o eiriau a brawddegau, datblygiad lleferydd, a'r gallu i ddefnyddio medrau cyfathrebu cymdeithasol priodol. Mae'r parthau iaith hyn yn newid ar draws camau datblygiadol (Law *et al.*, 2017). Er enghraifft, ar y naill law, mae'n ymddangos bod mwyafrif y plant sy'n 'siaradwyr hwyr' yn datrys eu hanawsterau iaith erbyn iddynt ddechrau'r ysgol. Ar y llaw arall, nid yw llawer o blant y nodwyd bod oedi o ran eu medrau iaith yn cael eu categoreiddio fel siaradwyr hwyr pan fyddant yn blant bach (Rescorla, 2011).

**46** Wedi i blant ddechrau yn yr ysgol, mae'n ymddangos bod yr amrywioldeb nodedig mewn datblygiad iaith, yr ydym yn ei weld ar gyfer plant unigol yn y blynyddoedd cynnar, yn sefydlogi (Bornstein, Hahn a Putnick, 2016; Tomblin, Zhang *et al.*, 2003). Fodd bynnag, mae llawer o blant yn parhau i symud i mewn ac allan o anawsterau iaith rhwng 4 a 7 mlwydd oed (McKean *et al.*, 2017; Zubrick, Taylor a Christensen, 2015). Mae tystiolaeth

o astudiaethau hydredol yn awgrymu bod ffactorau risg penodol y gall ysgolion chwilio amdanynt, fel gwendidau ym medrau derbyngar a mynegiannol plant, neu hanes teuluol o anawsterau iaith (Reilly, Bishop a Tomblin, 2014; Zambrana *et al.*, 2014).

Mae ymchwil yn cadarnhau bod angen gwerthuso'n drylwyr effeithiolrwydd yr holl ymyriadau i gefnogi dysgu iaith gan ddysgwyr. Mae tystiolaeth yn awgrymu, er mwyn cau'r 'bwlch' iaith a llythrennedd, y dylai arweinwyr a staff archwilio effeithiolrwydd y dulliau sy'n targedu gwendidau plant mewn iaith a llythrennedd, yn gyfochrog â'r rhai a gynlluniwyd i gefnogi eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

# Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

## Mae'r canfyddiadau yn yr arolwg hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad o:

- ymweliadau â lleoliadau ac ysgolion cynradd nas cynhelir a amlygwyd, gan ddefnyddio tystiolaeth arolygu, fel rhai llwyddiannus iawn o ran datblygu iaith a llythrennedd dysgwyr a lleihau effaith anfantais
- grwpiau ffocws gyda dysgwyr
- craffu ar adroddiadau arolygu dros y pedair blynedd diwethaf
- cyfweliadau â swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol
- ystod eang o ymchwil genedlaethol a rhyngwladol
- tystiolaeth o astudiaethau achos arfer orau Estyn.

## Fe wnaethom ymweld â'r lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg canlynol fel rhan o'r arolwg hwn:

Cylch Chwarae Kiddies' World, Wrecsam

Little Acorns, Powys

Meithrinfa Little Stars, Torfaen

Ysgol Feithrin Tremorfa, Caerdydd

Ysgol Gynradd Cogan, Bro Morgannwg

Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw, Abertawe

Ysgol Gynradd Gaer, Casnewydd

Ysgol Gynradd Gymunedol Ewloe Green, Sir y Fflint

Ysgol Gynradd Gymunedol Penbre, Sir Gaerfyrddin

Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands, Torfaen

Ysgol Gynradd Mount Stuart, Caerdydd

Ysgol Gynradd Trinant, Caerffili

Ysgol Heulfan, Wrecsam

## Niferoedd, meintiau a chyfrannau:

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Atodiad 2: Gwybodaeth gefndir am leoliadau ac ysgolion[8]

[8] Mae'r holl wybodaeth gyd-destunol (oni nodir fel arall) wedi'i chymryd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae gwybodaeth am ddysgwyr ar y gofrestr yn cynnwys dysgwyr o bob oed, ond cyfrifir canrannau cPYDd, AAA, ethnigrwydd a SIY ar gyfer dysgwyr o oed ysgol statudol (5-15 oed).

Lleoliad meithrin cyfrwng Saesneg nas cynhelir yw **Cylch Chwarae Kiddies' World Playgroup** sy'n darparu gofal dydd llawn yn Acrefair, yn Wrecsam.

Lleoliad meithrin cyfrwng Saesneg nas cynhelir yw **Little Acorns** sy'n darparu gofal dydd llawn ar safle Ysgol Gynradd Gymunedol Crossgates yn Llandrindod, ym Mhowys.

Meithrinfa cyfrwng Saesneg yw **Meithrinfa Dydd Little Stars** sy'n darparu gofal dydd llawn ym Mhont-y-pŵl, yn awdurdod lleol Torfaen.

Ysgol feithrin a gynhelir yn awdurdod lleol Caerdydd yw **Ysgol Feithrin Tremorfa**. Mae'n darparu addysg feithrin ran-amser ar gyfer plant tair a phedair oed, ac mae grwpiau gwahanol yn mynychu'r sesiynau bore a phrynhawn. Ar hyn o bryd, mae 76 o blant ar y gofrestr.

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ym Mro Morgannwg yw **Ysgol Gynradd Cogan**. Yn Ionawr 2020, roedd 206 o ddysgwyr ar y gofrestr. Cyfartaledd treigl tair blynedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yw 10%, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae'r ysgol yn nodi bod gan 22% o'i disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn cynnwys y rheini mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac yn y ganolfan adnoddau clywed. Mae hyn yn gyson â chyfartaledd Cymru. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion. Daw ychydig o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol (18%), sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 13%. Mae ychydig iawn o'r disgyblion hyn yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (7%). Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Nhreforys yn awdurdod lleol Abertawe yw **Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw**. Ar hyn o bryd, mae 559 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr, yn cynnwys disgyblion meithrin sy'n mynychu'n rhan amser. Cyfartaledd tair blynedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yw 20%, sydd fwy neu lai'r un fath â'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 21% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n agos at y cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion. Daw'r rhan fwyaf

o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref (1%) neu'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (4%).

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar ochr orllewinol dinas Casnewydd yw **Ysgol Gynradd Gaer**. Mae gan yr ysgol 487 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys disgyblion rhan-amser yn y feithrinfa. Ceir 17 o ddosbarthiadau, gan gynnwys dosbarth canolfan adnoddau yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer disgyblion ag ystod o anawsterau lleferydd, anawsterau ymddygiadol ac anawsterau dysgu cyffredinol. Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd diwethaf yw rhyw 20%. Mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Daw lleiafrif o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol (21%) sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 13%. Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 23% o'i disgyblion, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Mae hyn yn cynnwys y disgyblion yn y dosbarth canolfan adnoddau. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion.

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ym mhentref Ewloe ger Queensferry yn awdurdod lleol Sir y Fflint yw **Ysgol Gynradd Gymunedol Ewloe Green**. Mae 392 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr, gan gynnwys disgyblion meithrin rhan-amser. Saesneg yw'r brif iaith ar gyfer bron pob disgybl. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac maent yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Cyfartaledd tair blynedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yw oddeutu 5%, sy'n is o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 9% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 22%. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae **Ysgol Gynradd Gymunedol Penbre** ym mhentref Penbre, ryw bum milltir o Lanelli yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Ar hyn o bryd, mae 231 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr, gan gynnwys disgyblion meithrin rhan-amser ac amser llawn. Cyfartaledd tair blynedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yw oddeutu 25%, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 30% o ddisgyblion, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion. Ychydig iawn sy'n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf.

Mae **Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands** yng Nghwmbrân Uchaf yn Nhorfaen. Mae 357 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae hyn yn cynnwys disgyblion rhan-amser yn nosbarth meithrin yr ysgol. Mae'r ysgol yn trefnu disgyblion mewn canolfan ddysgu ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth. Mae ymwelwyr iechyd yn gweithio yn yr ysgol ac mae Canolfan Blant Integredig ar y safle. Cyfartaledd tair blynedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yw rhyw 31%. Mae'r ffigur hwn ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 19%. Daw bron yr holl ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel yr iaith gyntaf, ac ychydig iawn sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion addysgol arbennig gan ryw 29% o ddisgyblion. Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol (22%).

Mae **Ysgol Gynradd Mount Stuart** yn ardal Butetown yng Nghaerdydd. Mae 457 o ddisgyblion tair i un ar ddeg oed ar y gofrestr, gan gynnwys plant meithrin rhan amser. Cyfartaledd tair blynedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yw oddeutu 23%. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig amrywiol (95%) ac mae llawer yn siarad Saesneg fel eu hail iaith (71%). Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 20% o ddisgyblion, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (22%). Mae datganiad o anghenion addysgol gan ychydig o ddisgyblion.

Mae **Ysgol Gynradd Trinant** ym mhentref Trinant, ger Crymlyn yn awdurdod lleol Caerffili. Mae 165 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys disgyblion meithrin rhan-amser. Dros y tair blynedd diwethaf, mae oddeutu 34% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 19%. Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 33% o'i disgyblion, sydd hefyd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 22%.

Mae **Ysgol Heulfan** yng Ngwersyllt, yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae tua 364 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys plant meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Mae darpariaeth adnoddau gan yr ysgol hefyd, yn cynnwys pedwar dosbarth ar gyfer 34 o ddisgyblion rhwng 3 ac 14 oed sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Ceir darpariaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar, y mae anhwylder sbectrwm awtistiaeth nad yw'n eiriol gan y rhan fwyaf ohonynt. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn teithio o du allan i ddalgylch traddodiadol yr ysgol. Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd diwethaf yw tua 30%. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac maent yn siarad Saesneg. Mae rhyw 7% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel ail iaith ac yn datblygu cymhwysedd yn Saesneg. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 17% o ddisgyblion, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (22%).

# Atodiad 3: Strategaethau darllen a deall

| Strategaeth | Esboniad |
|---|---|
| **rhagfynegi** | Mae'n helpu darllenwyr i roi eu gwybodaeth flaenorol ar waith fel eu bod yn dechrau cyfuno'r hyn y maent yn ei wybod â deunydd newydd yn y testun |
| **cysylltu** | Mae darllenwyr effeithlon yn defnyddio ystod o gysylltiadau i ddeall testun, er enghraifft:<br>• cysylltu eu bywyd a'u profiadau personol â'r wybodaeth yn y testun<br>• meddwl am beth maent yn ei wybod am y byd y tu allan i'w profiad personol<br>• meddwl am destunau eraill wedi eu hysgrifennu gan yr un awdur neu destunau â themâu, arddull, trefniadaeth, strwythur, cymeriadau neu gynnwys cyffredin |
| **cymharu** | Mae'n cynnwys dysgwyr yn meddwl yn fwy penodol am yr elfennau tebyg a'r gwahaniaethau rhwng y cysylltiadau a wnânt |
| **(hunan) holi** | Meddwl am gwestiynau cyn, yn ystod ac ar ôl darllen i gynorthwyo â deall testun (e.e. *Tybed ble mae'r fam yn y stori hon...oedd e'n adnabod ei fam erioed?*) |
| **anodi testun** | Mae'n helpu nodi syniadau neu wybodaeth allweddol ac yn cynorthwyo darllen at ddiben penodol |

| Strategaeth | Esboniad |
|---|---|
| **crynhoi** | Nodi'r elfennau pwysicaf yn y testun, a chyfleu'r rhain yn gryno. Mae aralleirio yn cynnwys defnyddio'r elfennau hyn i ailysgrifennu'r testun mewn darn byrrach. |
| **cyfosod** | Dod â gwybodaeth at ei gilydd a allai ddod o ffynonellau amrywiol |
| **llithrddarllen** | Bwrw cipolwg cyflym trwy ddeunydd i gael argraff gyffredinol neu drosolwg o'r cynnwys – deall hanfod cyffredinol yr hyn mae'r testun yn ei gynnwys |
| **sganio** | Darllen yn effeithlon i ddod o hyd i fanylion penodol i ymateb i ddiben darllen penodol |
| **pennu pwysigrwydd** | Gofyn i chi'ch hun beth sydd bwysicaf mewn ymadrodd, brawddeg, paragraff, pennod neu destun cyfan i nodi cysyniadau neu syniadau pwysig. Mae dysgwyr yn defnyddio nodweddion fel penawdau, is-benawdau, teitlau, darluniau, testun tywyll, eiconau, ac ati, i'w helpu. |
| **rhesymu** | Cymryd gwybodaeth o'r testun, gwneud rhagfynegiadau, ychwanegu eu syniadau eu hunain, llunio casgliadau a llunio barnau i greu dehongliad o destun |
| **dod i gasgliad** | Cysylltu darnau gwahanol ac eglur o wybodaeth at ei gilydd, a llunio casgliad |

| Strategaeth | Esboniad |
|---|---|
| **rhoi gwybodaeth a/neu brofiad blaenorol ar waith** | Ymateb i gwestiynau athrawon ar ddechrau sesiynau darllen ar y cyd neu ddarllen dan arweiniad; defnyddio gweithgareddau 'cyn darllen', fel siartiau cyn ac ar ôl, taflenni meddwl a gridiau GED (Gwybod / Eisiau Gwybod / Wedi Dysgu) i ystyried yn eglur yr hyn rydych chi'n ei wybod am destun neu bwnc, a beth rydych chi eisiau ei ddarganfod |
| **defnyddio gwybodaeth am forffoleg ac etymoleg** | *morffoleg* = defnyddio gwybodaeth am rannau o eiriau (e.e. rhagddodiaid, ôl-ddodiaid, gwreiddiau) a theuluoedd geiriau i ddarganfod ystyr<br><br>*etymoleg* = astudio tarddiad geiriau a'r ffordd y mae eu hystyron wedi newid dros gyfnod |
| **hunanfonitro** | Bod yn ymwybodol o adeg pan fyddwch chi'n colli dealltwriaeth a defnyddio un strategaeth neu fwy i fynd i'r afael â hyn |
| **dychmygu** | Creu delweddau synhwyraidd i gefnogi dealltwriaeth |

# Atodiad 4: Mathau o gamgymeriadau sillafu

| Math o gamgymeriadau sillafu | Enghreifftiau | | Strategaethau addysgu posibl |
|---|---|---|---|
| Nid yw'n gymeradwy yn ffonolegol | Gwrthdroi llythrennau, er enghraifft **siad** am said a **rihgt** am right | → | Addysgu ffonemau, fel deugraffau llafariaid a chytseiniaid. |
| Mae'n gymeradwy yn ffonolegol, ond yn anghywir | **sok** am sock<br>**carm** am calm<br>**flud** am flood | → | Addysgu dysgwyr sut i edrych ar batrymau llythrennau a sillafau o fewn geiriau. |
| Camgymeriadau â phatrymau llythrennau dilyniannol yn Saesneg | **stashun** am station<br>**flowr** am flower<br>**cuogh** am cough | → | Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:<br>• ymchwilio i eiriau eraill gyda'r un patrwm (e.e. '-tion' a '-sion').<br>• astudio geiriau gyda phatrymau llythrennau cyffredin ond seiniau gwahanol, fel rough, bough, cough. |

| Math o gamgymeriadau sillafu | Enghreifftiau | | Strategaethau addysgu posibl |
|---|---|---|---|
| Camgymeriadau o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth o forffemau | **trapt** am trapped<br>**helpfull** am helpful<br>**ackwarium** am aquarium<br>**happyness** am happiness | → | Addysgu rhagddodiaid, ôl-ddodiaid, geiriau gwreiddyn a rheolau cyffredin. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o eiriau sy'n gorffen â 'f' neu 'fe' yn newid i 'ves' yn eu ffurfiau lluosog. |
| Gwybodaeth am homoffonau | **where** am wear<br>**allowed** am aloud<br>**groan** am grown<br>**stationary** am stationery | → | Addysgu dysgwyr sut i ynysu'r rhannau o'r geiriau sy'n wahanol, er enghraifft 's**o**w' a 's**e**w' a defnyddio'r geiriau yn eu cyd-destun.<br><br>Annog dysgwyr i adnabod ffyrdd o gofio homoffonau anodd, er enghraifft mae 'e' yn pen, felly rydych yn sillafu station**ery**, wrth ysgrifennu am bapur, pensiliau, ac ati. |

| Math o gamgymeriadau sillafu | Enghreifftiau | | Strategaethau addysgu posibl |
|---|---|---|---|
| Gwrthdroi ac ailadrodd rhannau o eiriau | **was** am **saw**<br>**bad** am dad<br>**everery** am every | → | Canolbwyntio ar y ffordd y mae dysgwyr yn ffurfio eu llythrennau, gan atgyfnerthu seiniau llythrennau.<br><br>Defnyddio dulliau amlsynhwyraidd, fel ysgrifennu mewn tywod neu ewyn eillio. |
| Camgymeriadau o ganlyniad i beidio â chlywed neu ynganu seiniau yn gywir* | **wif** am with | → | Canolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth ffonemig dysgwyr a'u gallu i ynganu seiniau yn fanwl gywir. |

*Mae'n bwysig ystyried p'un a allai fod yna broblem feddygol isorweddol a all effeithio ar leferydd neu glyw dysgwr.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **addysgeg** | Astudiaeth a theori dulliau ac egwyddorion addysgu. |
| **anghenion addysgol arbennig (AAA)** | Dysgwr sydd ag anhawster dysgu sy'n gofyn am i ddarpariaeth addysgol arbennig gael ei gwneud ar eu cyfer yn unol â Deddf Addysg 1996. |
| **amlsynnwyr** | Mae hyn yn cyfeirio at weithgareddau neu ymagweddau sy'n cynnwys un neu fwy o'r synhwyrau. |
| **baled** | Cerdd naratif y bwriadwyd iddi fod i gyfeiliant cerddoriaeth yn wreiddiol. |
| **camau cynnydd** | Pum pwynt cyfeirio yw'r rhain i ddangos sut dylai dysgwyr wneud cynnydd o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig, fel y disgrifir yng *nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b, tud.35). Maent yn cyfateb yn fras i ddisgwyliadau yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed. |
| **cof gweithio** | Cof gweithio yw system ar gyfer storio dros dro a rheoli'r wybodaeth sydd ei hangen i gyflawni tasgau gwybyddol cymhleth, fel dysgu, ymresymu, a darllen a deall. |
